Y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd **Pwyllgor Cymru**
Administrative Justice & Tribunals Council **Welsh Committee**
Hyrwyddo Cyfiawnder Gweinyddol
Advancing Administrative Justice

# ADOLYGIAD O DRIBIWNLYSOEDD SY'N GWEITHREDU YNG NGHYMRU

Cyflwynir yr Adroddiad hwn i Weinidogion Cymru yn unol â pharagraff 19(4) o Atodlen 7 i Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007 ac mae'n rhaid i Weinidogion Cymru ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol â pharagraff 19(6) o'r Atodlen honno.

© Hawlfraint y Goron 2010

Gellir atgynhyrchu'r testun yn y ddogfen hon (ac eithrio'r Arfbais Frenhinol a logos adrannau neu asiantaethau eraill) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled â'i fod yn cael ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Lle'r ydym wedi nodi unrhyw ddeunydd hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan y deiliaid hawlfraint dan sylw.

I ddefnyddio'r deunydd hwn mewn unrhyw ffordd arall, ysgrifennwch at Office of Public Sector Information, Information Policy Team, Kew, Richmond, Surrey TW9 4DU

neu anfonwch e-bost i: licensing@opsi.gov.uk

ISBN: 9780108508790

Argraffwyd yn y DU gan Y Llyfrfa Cyfyngedig
ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi

ID P002342362 01/10

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 75% o gynnwys ffibr wedi'i ailgylchu.

# Cynnwys


**Rhagair y Cadeirydd** . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . 1

**Crynodeb Gweithredol ac Argymhellion** . . . . . . . . . . . . . 2

**Cyflwyniad** . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . 9

**Rhan 1 – Tribiwnlysoedd yng Nghymru** . . . . . . . . . . . . . . 12

Tribiwnlysoedd yng Nghymru . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . 12

Tribiwnlysoedd Trawsffiniol . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . 13

Ein Harolwg o Dribiwnlysoedd yng Nghymru . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . 16

**Rhan 2 – Egwyddorion i Dribiwnlysoedd** . . . . . . . . . . . . 21

Cefndir . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . 21

Egwyddorion i Dribiwnlysoedd yng Nghymru . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . 24

**Rhan 3 – Argymhellion** . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . 26

Argymhellion Craidd . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . 26

- Llywodraeth Cynulliad Cymru . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . 26
- Barnwriaeth y Tribiwnlysoedd . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . 30
- Y Cynulliad Cenedlaethol . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . 30

Argymhellion Eraill . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . 31

- Hygyrchedd . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . 31
- Effeithlonrwydd ac Effeithiolrwydd . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . 35
- Cydlyniant . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . 37

**Atodiad A: Aelodaeth o Bwyllgor Cymru y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd** . . . . . . . . . 39

**Atodiad B: Tribiwnlysoedd Trawsffiniol sy'n Gweithredu yng Nghymru** . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . 41

**Atodiad C: Canlyniadau'r Arolwg o Dribiwnlysoedd yng Nghymru** . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . 42

# Rhagair y Cadeirydd



Mae hwn, yr adroddiad arbennig cyntaf i'w baratoi gan Bwyllgor Cymru y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd, yn codi materion sy'n achosi pryder mawr – ond hefyd gyfleoedd i wneud tribiwnlysoedd yn fwy costeffeithiol a gwella'r ffordd y gweinyddir gwasanaethau cyhoeddus sy'n gysylltiedig â hwy. Mae'n tynnu sylw at yr angen dybryd am arweiniad cadarn a gwybodus yn un o'r meysydd arbenigol ond hollbwysig o'r agenda datganoli sy'n effeithio'n uniongyrchol ar hawliau dinasyddion ac ansawdd gwasanaethau cyhoeddus sy'n canolbwyntio ar y dinesydd.

Mae Cymru wedi etifeddu clytwaith o dribiwnlysoedd sydd, fel yr esboniwn, wedi datblygu mewn ffordd *ad hoc* cyn datganoli. Arweiniodd hyn at nifer o ddiffygion sy'n amharu ar lawer o arferion da. Y mater mwyaf dybryd yw diffyg "gwahanu pwerau". Pan fydd dinasyddion yn ceisio iawn am gamwedd dylai'r broses fod yn gwbl annibynnol ar y corff yr apelir yn ei erbyn – a dylai gael ei gweld i fod yn gwbl annibynnol. Mae hon yn egwyddor hanfodol a gydnabyddir yn rhyngwladol ac mae'n cael ei hymgorffori yn y system dribiwnlysoedd ledled y DU – ac eithrio, ar hyn o bryd, yng Nghymru. Ni all Cymru fforddio mynd ar ei hôl hi na bod yn agored o bosibl i gryn embaras.

Am y rheswm hwnnw yn unig, nid yw parhau â'r trefniadau cyfredol yn ddewis cyfforddus; ond mae dadleuon cryf eraill dros newid ar unwaith. Wrth i ddatganoli ddatblygu, bydd yr amrywiaeth o gamau unioni a'u cymhlethdod – a'r ddeddfwriaeth sy'n eu creu – yn parhau i gynyddu. Er mwyn ymateb yn briodol ac yn gosteffeithiol mae angen canolbwyntio gwybodaeth ac arbenigedd mewn un man lle gellir sefydlu polisïau ac arferion cyson ac amddiffynadwy, yn hytrach na chamau gweithredu *ad hoc* a digyswllt.

Ein prif argymhelliad yw y dylai fod un canolbwynt ac y dylai gwmpasu polisi cyffredinol, canllawiau ar arferion a'r drefn weinyddol gyffredinol. Gellid cyflawni hyn mewn sawl ffordd a fyddai'n addas ar gyfer amgylchiadau penodol datganoli yng Nghymru, ond yn ein barn ni yr opsiwn gorau fyddai ei leoli o fewn swyddfa'r Prif Weinidog. Byddai hynny yn cynnig rhywfaint o annibyniaeth oddi ar yr adrannau gwasanaethu, rhywbeth sy'n hanfodol yn ein barn ni, tra'n sicrhau bod cyfiawnder gweinyddol yn fater sy'n agos i'r Cabinet yn ei gyfanrwydd. O ystyried datblygiad o'r fath, byddai'n hawdd mynd i'r afael â'r materion manylach y cyfeiriwn atynt yn yr adroddiad mewn ffordd systematig.

Cydnabyddwn nad yng Nghymru y crëwyd y problemau a godwn yn yr adroddiad hwn, ond mai yn ein dwylo ni yn unig y mae'r atebion. Argymhellwn yn gryf y dylai camau priodol gael eu cymryd yn ddiymdroi.



**Syr Adrian Webb**
**Cadeirydd – Pwyllgor Cymru y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd**

# Crynodeb Gweithredol ac Argymhellion

Mae'r tribiwnlysoedd yng Nghymru wedi datblygu mewn ffordd *ad hoc*, sydd wedi arwain at system ddarniog. Ceir amrywiaeth mawr mewn nifer o feysydd, gan gynnwys prosesau penodi, cyllidebau, hyfforddi ac arfarnu a chymorth i ddefnyddwyr, heb reswm egwyddorol. Mewn sawl achos, yr adrannau y mae dyletswydd ar y tribiwnlysoedd i ystyried eu penderfyniadau sy'n gyfrifol am y tribiwnlysoedd a'r ffordd y cânt eu gweinyddu. Mae hyn yn amlwg yn annerbyniol. Mae gan ddinasyddion Cymru yr hawl i ddisgwyl i bob tribiwnlys fod yn annibynnol, yn hygyrch ac wedi'i gynllunio drwy gadw eu hanghenion mewn cof (a chael eu hystyried felly).

Nid methiannau unrhyw dribiwnlys unigol yw'r problemau a nodir yn yr adroddiad hwn. Yn wir, ceir enghreifftiau unigol o arfer gorau ac arloesi. At ei gilydd, mae'r problemau yn deillio o'r ffordd y sefydlwyd tribiwnlysoedd yn ddigynllun, heb ystyried polisi cyffredin na'r cysyniad o annibyniaeth tribiwnlysoedd. Mae natur datganoli a'r ffaith y sefydlwyd strwythur cwbl wahanol ar gyfer tribiwnlysoedd trawsffiniol yn cymhlethu'r sefyllfa hon ymhellach. Mae diffyg trosolwg cyffredinol o dribiwnlysoedd yng Nghymru a diffyg cydgysylltu.

Nod ein hargymhellion yw hyrwyddo system fwy integredig sy'n canolbwyntio'n well ar ddefnyddwyr, lle mae tribiwnlysoedd yng Nghymru yn cydymffurfio â'r egwyddorion a amlinellir yn Rhan 2 o'r adroddiad hwn. Maent wedi'u rhannu'n ddau gategori. Mae'r argymhellion craidd wedi'u hanelu at sefydlu'r systemau a'r sefydliadau craffu sydd eu hangen i ddiwygio'r system tribiwnlysoedd a chyfiawnder gweinyddol yng Nghymru. Mae'r argymhellion eraill yn amlinellu'r hyn a ddylai fod yn flaenoriaethau cynnar ar gyfer diwygio yn ein barn ni.

## ARGYMHELLION CRAIDD

**Llywodraeth Cynulliad Cymru**

*Annibyniaeth a Didueddrwydd Tribiwnlysoedd*

Nid yw'r rhan fwyaf o dribiwnlysoedd yng Nghymru yn ddigon annibynnol ar yr adrannau na'r asiantaethau y mae'r tribiwnlysoedd yn ystyried eu penderfyniadau. Mae angen i Lywodraeth Cynulliad Cymru unioni hyn ar fyrder. Mae gan bobl Cymru yr hawl i gael system dribiwnlysoedd sy'n annibynnol, sy'n gydnaws â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol ac sy'n unol ag ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddarparu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y dinesydd.

*Canolbwynt i Gyfiawnder Gweinyddol*

Mae angen mynd ati i ddiwygio'r tribiwnlysoedd ond ni ddylai hynny ddigwydd ar ei ben ei hun. Yr hyn sy'n bwysig i ddinasyddion yw ansawdd y system gyfan. Mae cyfle i Lywodraeth Cynulliad Cymru arwain y ffordd drwy sefydlu un canolbwynt i gyfiawnder gweinyddol, gan gynnwys polisïau a gweinyddiaeth tribiwnlysoedd, er mwyn ystyried datblygiad y system cyfiawnder gweinyddol gyfan o safbwynt defnyddwyr. O ystyried yr angen am gydweithio llywodraeth gyfan, Adran y Prif Weinidog a'r Cabinet yw'r man mwyaf addas i leoli polisïau a gweinyddiaeth tribiwnlysoedd a chyfiawnder gweinyddol.

***Argymhelliad 1:***

**Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru sefydlu canolbwynt i gyfiawnder gweinyddol yn Adran y Prif Weinidog a'r Cabinet (t. 28).**

***Argymhelliad 2:***

**Er mwyn sicrhau bod tribiwnlysoedd yn cael eu gweld yn hollol annibynnol ac yn ddiduedd, dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru drosglwyddo'r cyfrifoldeb dros bolisïau a gweinyddiaeth tribiwnlysoedd i'r canolbwynt hwn yn Adran y Prif Weinidog a'r Cabinet, nad oes arni gyfrifoldeb penodol am unrhyw un o benderfyniadau'r llywodraeth y mae anghydfod yn ei gylch (t. 28).**

***Argymhelliad 3:***

**Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru sicrhau bod y gweithdrefnau ar gyfer dewis aelodau tribiwnlysoedd yn agored, yn deg ac yn seiliedig ar deilyngdod a bod pob penodiad yn cael ei wneud gan Weinidogion Cymru neu'r Arglwydd Ganghellor (t. 28).**

*Ad-drefnu*

Gellid cyfuno awdurdodaethau rhai tribiwnlysoedd yn ôl pwnc er mwyn sicrhau arbedion maint, effeithlonrwydd gweinyddol a gwella cyfleoedd i aelodau eistedd yn rheolaidd. Dylai hyn arwain at well profiad i ddefnyddwyr tribiwnlysoedd yn y pen draw, a gwell gwerth am arian i drethdalwyr.

***Argymhelliad 4:***

**Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ac Awdurdodau Lleol ystyried uno awdurdodaethau tribiwnlysoedd yng Nghymru yn briodol yn ôl pwnc (t. 29).**

**Barnwriaeth y Tribiwnlysoedd**

Mae gwell cyfathrebu a chydweithio rhwng barnwriaeth y tribiwnlysoedd yng Nghymru yn gam pwysig tuag at sefydlu system dribiwnlysoedd fwy integredig a chydgysylltiedig. Er mwyn diwygio'r tribiwnlysoedd mae angen arweiniad cadarn gan farnwriaeth y tribiwnlysoedd, eu haelodau a'u staff cymorth, a fydd yn hanfodol i weithredu diwygiadau yn llwyddiannus. Dylai cyfathrebu a chydweithredu rhwng tribiwnlysoedd yng Nghymru â thribiwnlysoedd trawsffiniol gael eu gwella.

***Argymhelliad 5:***

**Dylai arweinwyr barnwrol a gweinyddwyr pob tribiwnlys yng Nghymru gydweithio ar faterion o ddiddordeb cyffredin a thuag at weithredu'r argymhellion yn yr adroddiad hwn (t. 30).**

**Y Cynulliad Cenedlaethol**

Dylai'r Cynulliad Cenedlaethol ddod yn bartner allweddol o ran goruchwylio'r system cyfiawnder gweinyddol. Byddem yn croesawu mesurau i sicrhau proses graffu wedi'i chydgysylltu o'r gwaith o weithredu ein hargymhellion ar draws y llywodraeth.

***Argymhelliad 6:***

**Dylai'r Cynulliad Cenedlaethol graffu ar y ffordd y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gweithredu'r argymhellion yn yr adroddiad hwn, a monitro hynny, gan gynnwys cynnal dadl mewn cyfarfod llawn (t. 30).**

## ARGYMHELLION ERAILL

Mae'r argymhellion canlynol yn amlinellu meysydd ar gyfer gwaith a diwygiadau pellach y dylai'r Cynulliad Cenedlaethol, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Awdurdodau Lleol a barnwriaeth a gweinyddwyr y tribiwnlysoedd ganolbwyntio arnynt yn ein barn ni, o leiaf ar y cychwyn.

**Hygyrchedd**

*Gwybodaeth*

Mae angen gwneud rhagor o waith i ganfod sut yn union y mae gwybodaeth yn cael ei rhoi i ddefnyddwyr tribiwnlysoedd ar hyn o bryd, y dulliau sydd fwyaf defnyddiol i'r defnyddiwr, a'r ffordd y gellid gwella a safoni'r sefyllfa gyfredol lle y bo modd.

***Argymhelliad 7:***

**Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ac arweinwyr barnwrol a gweinyddwyr tribiwnlysoedd yng Nghymru gydweithio i sicrhau bod y wybodaeth a roddir i ddefnyddwyr tribiwnlysoedd yn glir, yn gynhwysfawr ac yn hygyrch.**

*Gweithdrefnau*

Dylai gweithdrefnau tribiwnlysoedd fod yn galluogi ac yn ystyried y ffaith bod arfau anghyfartal yn aml rhwng y llywodraeth a defnyddiwr y tribiwnlys. Dylai tribiwnlysoedd yng Nghymru barhau i weithredu ar y gost leiaf bosibl i ddefnyddwyr tribiwnlysoedd a dylai gwybodaeth am unrhyw ffioedd a chostau fod ar gael yn hawdd i ddefnyddwyr tribiwnlysoedd.

***Argymhelliad 8:***

**Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ac arweinwyr barnwrol a gweinyddwyr tribiwnlysoedd yng Nghymru gydweithio i sicrhau, yn y lle cyntaf, bod ffurflenni a gweithdrefnau tribiwnlysoedd yn glir ac yn syml ac wedi'u cynllunio er hwylustod defnyddwyr tribiwnlysoedd.**

*Cyngor a Chynrychiolaeth*

Nid yw'n sicr a yw'r cyngor a'r cymorth sydd ar gael i ddefnyddwyr tribiwnlysoedd, a defnyddwyr y system cyfiawnder gweinyddol yn fwy cyffredinol, yn ddigonol, yn hygyrch ac yn ddealladwy ledled Cymru. Er bod y mater hwn y tu hwnt i gwmpas yr adroddiad hwn, mae'n fater pwysig sy'n haeddu rhagor o ymchwil sylweddol ac astudiaeth bellach.

***Argymhelliad 9:***

**Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gynnal adolygiad o'r cyngor cyffredinol ac arbenigol sydd ar gael i ddefnyddwyr tribiwnlysoedd, ac a oes unrhyw fylchau yn y cyngor a ddarperir.**

*Ymgysylltu â Defnyddwyr*

Dylai barnwriaeth y tribiwnlysoedd a'r llywodraeth ymgysylltu'n effeithiol â defnyddwyr tribiwnlysoedd a gofyn am adborth, fel y gellir teilwra arferion a gweithdrefnau i ddiwallu anghenion defnyddwyr tribiwnlysoedd.

***Argymhelliad 10:***

**Dylai arweinwyr barnwrol a gweinyddwyr tribiwnlysoedd yng Nghymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru sicrhau bod strategaeth briodol i ymgysylltu â defnyddwyr tribiwnlysoedd ar gyfer pob awdurdodaeth.**

*Polisi a Gweithdrefn Gwyno*

Dylai fod gan bob tribiwnlys bolisi a gweithdrefn gwyno mewn perthynas â pherfformiad aelodau a gweinyddwyr, yn seiliedig ar ganllawiau ar ymdrin â chwynion a roddwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

**_Argymhelliad 11:_**

**Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ac arweinwyr barnwrol tribiwnlysoedd yng Nghymru sefydlu polisi a gweithdrefn gwyno ar gyfer pob tribiwnlys yng Nghymru, yn seiliedig ar ganllawiau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.**

*Yr Iaith Gymraeg*

Dylai fod lefel gyson a digonol o wasanaethau Cymraeg mewn tribiwnlysoedd yng Nghymru. Dylai pob tribiwnlys yng Nghymru fabwysiadu Cynllun Iaith Gymraeg cyffredin. Yn ogystal â sicrhau bod pob tribiwnlys yn gweithredu i'r un safonau, gallai cynllun cyffredin leihau baich gweinyddol pob tribiwnlys o ran creu a chyhoeddi ei gynllun ei hun a rhoi cyfle ar gyfer mentrau hyfforddi iaith Gymraeg ar y cyd.

**_Argymhelliad 12:_**

**Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ac arweinwyr barnwrol a gweinyddwyr tribiwnlysoedd yng Nghymru weithio gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg a'r Gwasanaeth Tribiwnlysoedd i lunio Cynllun Iaith Gymraeg cyffredin ar gyfer pob tribiwnlys yng Nghymru.**

*Lleoliadau Gwrandawiadau*

Wrth drefnu lleoliadau gwrandawiadau, y brif flaenoriaeth ddylai fod hygyrchedd i ddefnyddwyr. Dylai fod polisi cyffredin i dribiwnlysoedd yng Nghymru ar gyfer lleoliadau gwrandawiadau er mwyn hyrwyddo safonau cyson, gan gynnwys safonau ar y pellter mwyaf oddi wrth bartïon, mynediad at gysylltiadau trafnidiaeth, mynediad i bobl anabl, cyfleusterau lluniaeth, ac ystafelloedd aros ar wahân i bartïon.

**_Argymhelliad 13:_**

**Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ac arweinwyr barnwrol a gweinyddwyr tribiwnlysoedd yng Nghymru lunio polisi ynglŷn â safonau lleoliadau gwrandawiadau, gan ganolbwyntio ar anghenion defnyddwyr tribiwnlysoedd.**

*Adroddiadau Blynyddol a Monitro Perfformiad*

Er mwyn sicrhau mwy o atebolrwydd i'r cyhoedd, credwn y dylai pob tribiwnlys yng Nghymru baratoi adroddiad blynyddol o'i weithgareddau. Dylai'r manyldeb a'r wybodaeth sydd eu hangen fod yn gymesur â gweithgarwch y tribiwnlys.

**_Argymhelliad 14:_**

**Dylai barnwriaeth a gweinyddwyr tribiwnlysoedd yng Nghymru sicrhau bod pob tribiwnlys yng Nghymru yn casglu data cyson ar reoli perfformiad ac yn paratoi adroddiad blynyddol o'i weithgareddau.**

## Effeithlonrwydd ac Effeithiolrwydd

### *Adnoddau a Chymorth*

Mae'r adnoddau, y cymorth gweinyddol a mathau eraill o gymorth sydd ar gael i dribiwnlysoedd yng Nghymru yn amrywio'n sylweddol, hyd yn oed o ystyried y gwahanol lwythi achosion a chymhlethdod y pwnc dan sylw. Byddai system symlach a chyfunol yn gallu manteisio ar arbedion maint a dosbarthu adnoddau'n decach ymhlith y tribiwnlysoedd. Er enghraifft, byddai'n fodd i gyfuno staff gweinyddol a chymorth, lleoliadau gwrandawiadau, systemau TG a swyddfeydd yr Ysgrifenyddiaeth.

***Argymhelliad 15:***

**Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ystyried ffyrdd o ddefnyddio adnoddau tribiwnlysoedd yn fwy effeithlon.**

### *Hyfforddi ac Arfarnu*

Mae safon a phrofiad aelodau tribiwnlysoedd yn cael effaith uniongyrchol sylweddol ar brofiad defnyddwyr tribiwnlysoedd a safon penderfyniadau barnwrol. Dylid rhoi hyfforddiant priodol i aelodau a staff tribiwnlysoedd a dylai safonau perfformiad barnwrol gael eu pennu a'u monitro.

Mae llwythi achosion bach rhai tribiwnlysoedd yng Nghymru yn golygu nad yw aelodau'n eistedd yn ddigon aml i barhau i fod yn hyfedr ac mae angen adolygu nifer aelodau tribiwnlysoedd mewn rhai awdurdodaethau. Er mwyn cynyddu'r cyfleoedd i aelodau eistedd, dylid ystyried y posibilrwydd o benodi aelodau i fwy nag un awdurdodaeth.

***Argymhelliad 16:***

**Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru sicrhau bod gan dribiwnlysoedd gyllideb ddigonol ar gyfer hyfforddi, arfarnu a monitro perfformiad aelodau.**

***Argymhelliad 17:***

**Dylai arweinwyr barnwrol a gweinyddwyr tribiwnlysoedd yng Nghymru sicrhau bod gan dribiwnlysoedd systemau hyfforddi, arfarnu a monitro perfformiad priodol ar waith.**

***Argymhelliad 18:***

**Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ac arweinwyr barnwrol a gweinyddwyr tribiwnlysoedd yng Nghymru edrych ar opsiynau i sicrhau bod aelodau tribiwnlysoedd yn cael cyfle i eistedd yn ddigon aml er mwyn iddynt gynnal gwybodaeth a sgiliau.**

## Cydlyniant

*Fframwaith ar gyfer sefydlu tribiwnlysoedd newydd*

Mae angen canllawiau i sicrhau nad yw tribiwnlysoedd yn parhau i ddatblygu mewn ffordd *ad hoc* a digynllun. Dylai'r canllawiau fod yn gymwys i bob un o Adrannau Llywodraeth Cynulliad Cymru a dylid ymgynghori ag Adran y Prif Weinidog a'r Cabinet ynglŷn â sefydlu unrhyw dribiwnlysoedd newydd.

***Argymhelliad 19:***

**Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru sefydlu tribiwnlysoedd newydd mewn ffordd gyson a chydlynol.**

*Apeliadau*

Mae amrywiaeth mawr o ran hawl i apelio a llwybrau apelio o dribiwnlysoedd yng Nghymru. Mewn rhai awdurdodaethau dim ond mewn cysylltiad â phwynt cyfreithiol y gellir cyflwyno apêl, ac mewn eraill caniateir apêl ar sail camgymeriadau honedig o ran y gyfraith a ffeithiau. Gellir cyflwyno apêl i'r Uwch Dribiwnlys, neu'r Uchel Lys ar apêl neu adolygiad barnwrol.

***Argymhelliad 20:***

**Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru sicrhau bod hawliau priodol i apelio o dribiwnlysoedd.**

*Gwella Penderfyniadau Gwreiddiol*

Mae tribiwnlysoedd yn rhan annatod o'r system cyfiawnder gweinyddol. Mae'n bwysig bod y broses o'r penderfyniad gwreiddiol, drwy systemau cwyno mewnol ac allanol, tribiwnlysoedd, llysoedd a'r Ombwdsmon yn gydlynol ac yn ategu ei gilydd. Mae'r un mor bwysig bod gwersi yn cael eu dysgu oddi wrth benderfyniadau tribiwnlysoedd a'u hymgorffori yn y system. Er mwyn i hyn ddigwydd, mae angen sianeli cyfathrebu da rhwng tribiwnlysoedd a'r penderfynwyr gwreiddiol.

***Argymhelliad 21:***

**Dylai arweinwyr barnwrol a gweinyddwyr tribiwnlysoedd yng Nghymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru ac Awdurdodau Lleol gydweithio i sicrhau bod gwersi a ddysgwyd oddi wrth benderfyniadau tribiwnlysoedd yn arwain at welliannau mewn penderfyniadau gwreiddiol, a thrwy hynny at wasanaeth gwell a mwy effeithlon i'r cyhoedd yng Nghymru.**

# Cyflwyniad

## Cefndir

1. Fel Pwyllgor Cymru y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd (AJTC) ein rôl yw adolygu'r system cyfiawnder gweinyddol, tribiwnlysoedd ac ymchwiliadau yng Nghymru. Wrth gyflawni ein rôl mewn perthynas â thribiwnlysoedd, gallwn roi adroddiad ar y canlynol:

    - Cyfansoddiad a dull gweithredu tribiwnlysoedd a restrir[1] sy'n gweithredu yng Nghymru;
    - Unrhyw fater arall sy'n ymwneud â thribiwnlysoedd a restrir sy'n gweithredu yng Nghymru sydd o bwys arbennig yn ein barn ni;
    - Unrhyw fater penodol sy'n ymwneud â thribiwnlysoedd yng Nghymru a gyfeirir atom gan Weinidogion Cymru neu'r Arglwydd Ganghellor[2].

    Cyflwynir yr adroddiad hwn o dan yr ail bŵer o'r pwerau hyn.

2. Dechreuwyd adolygu tribiwnlysoedd datganoledig sy'n gweithredu yng Nghymru ym mis Tachwedd 2008 o ganlyniad i'r canlynol:

    - Ein harsylwadau ar natur gymhleth a darniog tribiwnlysoedd yng Nghymru, gyda gwahaniaethau sylweddol yn y ffordd y mae'r gwahanol dribiwnlysoedd datganoledig yn gweithredu ac yn cael eu gweinyddu;
    - Enghreifftiau o ddiwygiadau i dribiwnlysoedd datganoledig yn cael eu hystyried mewn ffordd *ad hoc* ac anghydgysylltiedig;
    - Diffyg annibyniaeth ymddangosiadol tribiwnlysoedd yng Nghymru, gyda'r cyfrifoldeb am dribiwnlysoedd a'r ffordd y'u gweinyddir yn nwylo'r rhai y mae dyletswydd ar y tribiwnlysoedd i ystyried eu penderfyniadau;
    - Trafodaethau gyda defnyddwyr.

## Proses

3. Wrth gynnal yr adolygiad hwn, rydym wedi:

    - Ymchwilio i dribiwnlysoedd datganoledig a thrawsffiniol, gan gynnwys dosbarthu holiadur i bob tribiwnlys yng Nghymru gyda'r nod o gasglu gwybodaeth fanwl a chyson am nifer o faterion megis llwyth achosion, penodi aelodau, hyfforddiant a gwybodaeth a roddir i ddefnyddwyr tribiwnlysoedd;
    - Sefydlu egwyddorion i'w cymhwyso wrth ddadansoddi'r wybodaeth hon a barnu perfformiad y tribiwnlysoedd hyn;
    - Gwneud argymhellion ar gyfer diwygiadau.

1 "Tribiwnlysoedd a restrir" yw'r Tribiwnlys Haen Gyntaf ac Uwch Dribiwnlys a sefydlwyd gan Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007 a thribiwnlysoedd a restrir drwy orchmynion a wnaed gan yr Arglwydd Ganghellor, Gweinidogion Cymru a Gweinidogion yr Alban.

2 Deddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007, Atodlen 7, para 14.

## Diffiniadau

4. Nid yw'n hawdd diffinio beth yw tribiwnlys. Ar ei ystyr ehangach, 'rhywbeth sy'n penderfynu' yw tribiwnlys. Fodd bynnag, at ddibenion yr Adolygiad hwn, cyfeiria'r term 'tribiwnlys' at y canlynol:
   - Tribiwnlysoedd a restrir o dan Orchymyn Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd (Tribiwnlysoedd a Restrir) (Cymru) 2007;
   - Y Tribiwnlys Haen Gyntaf a'r Uwch Dribiwnlys, lle mae ganddynt awdurdodaeth yng Nghymru;
   - Tribiwnlysoedd a restrir o dan Orchymyn Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd (Tribiwnlysoedd a Restrir) 2007, lle mae ganddynt awdurdodaeth yng Nghymru.

5. Nid yw pob corff a restrir o dan y Gorchmynion hyn yn cael ei alw'n dribiwnlys – gelwir rhai yn awdurdodau, yn gomisiynwyr, yn bwyllgorau, yn baneli neu'n ddyfarnwyr yn ogystal â thribiwnlysoedd. Ceir pob math o dribiwnlys, sy'n cwmpasu amrywiaeth o awdurdodaethau ac sy'n meddu ar amrywiol bwerau ac arbenigedd.

6. Yn y ddogfen hon, ystyr 'tribiwnlys yng Nghymru' yw tribiwnlys a restrir o dan Orchymyn Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd (Tribiwnlysoedd a Restrir) (Cymru) 2007 ('y Gorchymyn')[3] yn ogystal â'r tribiwnlysoedd hynny sy'n ymwneud â phynciau datganoledig. Mae'r tribiwnlysoedd canlynol yn ymddangos yn y Gorchymyn:
   - Panel Dyfarnu Cymru;
   - Bwrdd Canolwyr Meddygol;
   - Pwyllgorau Coedwigaeth Cymru;
   - Paneli Adolygiad Annibynnol o Ddyfarniadau (IRDP) yng Nghymru;
   - Paneli Cwynion Annibynnol y Gwasanaeth Iechyd Gwladol;
   - Dyfarnwyr Parcio yng Nghymru[4];
   - Tribiwnlys Apeliadau Arolygwyr Cofrestredig Addysg Feithrin;
   - Tribiwnlys Apeliadau Arolygwyr Cofrestredig Ysgolion;
   - Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru;
   - Paneli Apêl Derbyniadau Ysgol Cymru;
   - Paneli Apêl Gwaharddiadau Ysgol Cymru;
   - Paneli Cwynion Gwasanaethau Cymdeithasol Annibynnol;

3 Mae'r Gorchymyn yn cynnwys rhestr o dribiwnlysoedd y mae Gweinidogion Cymru yn 'awdurdod cyfrifol' yn eu cylch. Gweinidogion Cymru yw'r 'awdurdod cyfrifol' am restru tribiwnlys:
(a) os yw pob un o swyddogaethau'r tribiwnlys yn arferadwy mewn perthynas â Chymru yn unig;
(b) os bydd o leiaf un o'r pwerau canlynol yn arferadwy gan Weinidogion Cymru:
(i) y pŵer i benodi aelodau'r tribiwnlys; neu
(ii) y pŵer i wneud rheolau gweithdrefnol y tribiwnlys.
(c) Yn achos tribiwnlys sy'n arfer swyddogaethau mewn perthynas â Chymru a hefyd yn arfer y swyddogaethau hynny neu swyddogaethau eraill mewn perthynas â rhywle arall heblaw am Gymru, Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod cyfrifol am y tribiwnlys i'r graddau y mae'n arfer swyddogaethau mewn perthynas â Chymru, os bydd o leiaf un o'r pwerau canlynol yn arferadwy gan Weinidogion Cymru:
(i) y pŵer i benodi aelodau'r tribiwnlys sy'n arfer swyddogaethau'r tribiwnlys mewn perthynas â Chymru;
(ii) y pŵer i wneud rheolau gweithdrefnol i arfer swyddogaethau'r tribiwnlys mewn perthynas â Chymru.

4 Cafodd y Dyfarnwyr Parcio yng Nghymru eu diddymu a'u disodli gan ddyfarnwyr y Tribiwnlys Cosbau Traffig.

- Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (TAAAC);
- Tribiwnlysoedd Prisio yng Nghymru.

7. At ddibenion yr adroddiad hwn, rydym hefyd wedi dosbarthu'r canlynol yn dribiwnlysoedd yng Nghymru:
   - Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru;
   - Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru;
   - Tribiwnlys Cosbau Traffig (wrth gynnal gwrandawiadau yng Nghymru).

   Er nad yw'r tribiwnlysoedd hyn wedi'u rhestru o dan Orchymyn Cymru, maent yn ymdrin â materion datganoledig ac fe'u noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru neu Awdurdodau Lleol Cymru.

8. Mae a wnelo'r adolygiad hwn â thribiwnlysoedd yng Nghymru, yr ydym wedi casglu gwybodaeth fanwl yn eu cylch ac wedi gwneud argymhellion i'w diwygio. Wrth wneud hyn, dim ond y trefniadau cyfredol rydym wedi'u hystyried. Mae materion posibl yn sgîl datganoli pellach y tu hwnt i'n cwmpas. Yn yr un modd, rydym yn ymwybodol o rywfaint o orgyffwrdd rhwng gwaith ombwdsmyn a thribiwnlysoedd. Rydym wedi dewis ystyried y mater hwn yn ddiweddarach.

**Ymgysylltu â Rhanddeiliaid**

9. Ers ein sefydlu rydym wedi cyfarfod â'r rhan fwyaf o Lywyddion a Chadeiryddion Rhanbarthol tribiwnlysoedd sy'n gweithredu yng Nghymru. Lle y bu modd, rydym hefyd wedi arsylwi o leiaf un gwrandawiad ym mhob awdurdodaeth ac wedi mynychu cyfarfodydd grwpiau defnyddwyr tribiwnlysoedd, er mwyn cael profiad uniongyrchol o'r ffordd y mae'r system yn gweithredu. Rydym wedi cyfarfod ag amrywiol swyddogion yn Llywodraeth Cynulliad Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac eraill i drafod yr adolygiad a phrofi ein hargymhellion.

10. Yn ein cynhadledd ym mis Mehefin 2009 yng Nghaerdydd, rhoddodd ein Cadeirydd gyflwyniad ar yr adolygiad hwn, a chafodd rhai o'r cwestiynau allweddol yn yr ymarfer i grwpiau trafod eu hanelu at geisio barn ar y canlynol:
    - Y materion pennaf sy'n effeithio ar dribiwnlysoedd datganoledig a thrawsffiniol yng Nghymru;
    - Y materion pwysicaf y dylai unrhyw broses i ddiwygio tribiwnlysoedd yng Nghymru fynd i'r afael â hwy;
    - Agweddau ar dribiwnlysoedd yng Nghymru na ddylid eu colli mewn unrhyw broses ddiwygio;
    - Cyfleoedd sydd ar gael o ran trefniadau sy'n unigryw i Gymru ar gyfer tribiwnlysoedd datganoledig.

# Rhan 1 – Tribiwnlysoedd yng Nghymru

***'Because tribunals were administered by sponsoring Government Departments, where substantive areas of government have been devolved, the tribunals within those areas have been devolved too.'***

*Ei Anrhydedd y Barnwr Gary Hickinbottom yn annerch Cynhadledd Cymru Cyngor y Tribiwnlysoedd yng Nghaerdydd ar 21 Mehefin 2007*[5].

11. Mae'r sefyllfa o ran tribiwnlysoedd yng Nghymru yn gymhleth, gyda thribiwnlysoedd datganoledig yn cael eu gweinyddu gan amrywiol adrannau o Lywodraeth Cynulliad Cymru neu Awdurdodau Lleol, a thribiwnlysoedd trawsffiniol gan Wasanaeth Tribiwnlysoedd y DU neu adrannau llywodraeth y DU.

**Tribiwnlysoedd yng Nghymru**

12. Cafodd rhai tribiwnlysoedd sy'n gweithredu yng Nghymru eu datganoli yn sgîl Deddf Llywodraeth Cymru 1998, a fu'n creu Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac yn datganoli cyfrifoldeb gweithredol am feysydd polisi allweddol megis addysg, iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a thai iddo. Roedd hyn yn cynnwys trosglwyddo cyfrifoldeb gweithredol am dribiwnlysoedd sy'n ymwneud â'r meysydd polisi hyn fel y maent yn gweithredu yng Nghymru. Yn sgîl datganoli, cafodd y Cynulliad Cenedlaethol y gallu hefyd i greu tribiwnlysoedd newydd a systemau apelio mewn rhai meysydd polisi datganoledig. Yn sgîl Deddf Llywodraeth Cymru 2006, a rhoi swyddogaethau deddfu sylfaenol i'r Cynulliad Cenedlaethol, ceir cyfleoedd pellach ar gyfer gwahaniaeth ac arloesi mewn tribiwnlysoedd yng Nghymru.

13. Fodd bynnag, hyd yma, mae'r tribiwnlysoedd yng Nghymru wedi deillio o gyfreithiau a pholisi San Steffan i raddau helaeth, lle datblygir tribiwnlysoedd mewn ffordd *ad hoc* heb gael eu hategu gan unrhyw fframwaith damcaniaethol. Hynny yw, fe'u sefydlwyd i ddiwallu anghenion penodol ac nid yn ôl patrwm rhesymegol. Dengys ein hymchwil, a amlinellwyd isod, eu bod wedi aros yn ddigyfnewid ers i Syr Andrew Leggatt gynnal adolygiad o dribiwnlysoedd yng Nghymru a Lloegr yn 2002 gan ganfod:

> *...the present collection of tribunals has grown up in an almost entirely haphazard way. Individual tribunals were set up, and usually administered by departments, as they developed new statutory schemes and procedures. The result is a collection of tribunals, mostly administered by departments, with wide variations of practice and approach, and almost no coherence*[6].

14. Yn achos rhai tribiwnlysoedd trawsffiniol sy'n gweithredu yng Nghymru, mae'r sefyllfa hon wedi cael ei hunioni drwy greu Gwasanaeth Tribiwnlysoedd i roi cymorth gweinyddol annibynnol, a thrwy Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007, sy'n rhoi strwythur unedig newydd i lawer o dribiwnlysoedd. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi penderfynu na fydd tribiwnlysoedd datganoledig yn ymuno â'r Gwasanaeth Tribiwnlysoedd na'r strwythur tribiwnlysoedd unedig newydd.

5 'Tribunal reform: the issues for Wales' yn Adjust, Gorffennaf 2007 yn http://www.council-on-tribunals.gov.uk/adjust/item/comment_reformwales.htm (cyrchwyd ar 4 Mehefin 2009)

6 'Tribunals for Users: One System, One Service', Adroddiad yr Adolygiad o Dribiwnlysoedd gan Syr Andrew Leggatt, Mawrth 2001, t.15, para 1.3

## Tribiwnlysoedd Trawsffiniol

15. Er nad yw'n fwriad gan yr adolygiad hwn ystyried yn fanwl y ffordd y mae tribiwnlysoedd trawsffiniol[7] yn gweithredu, maent yn cyfrif am gyfran sylweddol o weinyddu cyfiawnder gweinyddol drwy dribiwnlysoedd yng Nghymru. Oherwydd maint y tribiwnlysoedd hyn maent yn bwysig i'r cyd-destun y mae tribiwnlysoedd yng Nghymru yn gweithredu ynddo. Mae diwygiadau yn cael effeithiau, weithiau'n anfwriadol, ar dribiwnlysoedd yng Nghymru. Ceir rhestr o'r tribiwnlysoedd mwyaf a phwysicaf yn Atodiad B. Hyd yma, ni fu fawr ddim rhyngweithio ffurfiol nac anffurfiol rhwng tribiwnlysoedd trawsffiniol a thribiwnlysoedd datganoledig Cymru.

16. O ganlyniad i argymhellion yr Adolygiad o Dribiwnlysoedd gan Syr Andrew Leggatt yn 2001[8] a'r Papur Gwyn dilynol yn 2004[9] mae llawer o'r tribiwnlysoedd trawsffiniol hyn wedi cael eu diwygio'n sylweddol, proses a ddechreuodd ym mis Ebrill 2006 yn sgîl creu Gwasanaeth Tribiwnlysoedd unedig i roi cymorth gweinyddol. Estynnwyd y broses ddiwygio o dan Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007 ac roedd yn cynnwys:

    - Creu strwythur tribiwnlysoedd unedig;
    - Creu'r Uwch Dribiwnlys, gan arwain at hawliau apelio newydd ac wedi'u rhesymoli;
    - Sefydlu swydd Uwch Lywydd fel uwch swydd farnwrol i gynnig ffocws ac arweiniad i dribiwnlysoedd a gwmpesir gan y Ddeddf;
    - Y gallu i 'gyfnewid' a phenodi barnwyr ac aelodau tribiwnlysoedd ar draws awdurdodaethau gwahanol.

17. Ar 3 Tachwedd 2008 sefydlwyd dau dribiwnlys unedig newydd, sef Tribiwnlys Haen Gyntaf ac Uwch Dribiwnlys. Ar y dechrau, roedd y tribiwnlysoedd hyn yn cynnwys:

    - Y Tair Siambr Haen Gyntaf – Hawl Gymdeithasol; Iechyd, Addysg a Gofal Cymdeithasol; Pensiynau Rhyfel ac Iawndal i Aelodau o'r Lluoedd Arfog;
    - Siambr Apeliadau Gweinyddol yr Uwch Dribiwnlys.

18. Ym mis Ebrill 2009 trosglwyddwyd tribiwnlysoedd pellach i'r strwythur newydd gan arwain at greu Siambr Dreth Tribiwnlys Haen Gyntaf, a Siambr Cyllid a Threth Uwch Dribiwnlys. Ym mis Mehefin 2009 sefydlwyd Siambr Tiroedd yr Uwch Dribiwnlys. Ym mis Medi 2009 dechreuodd Siambr Reoleiddio Gyffredinol y Tribiwnlys Haen Gyntaf (sef apeliadau Gwerthwyr Tai; Tribiwnlys Apeliadau Credyd Defnyddwyr; Tribiwnlysoedd Trafnidiaeth ac Elusennau). Mae'r llywodraeth hefyd wedi cyhoeddi y bydd yr awdurdodaeth Lloches a Mewnfudo yn ymuno â'r strwythur newydd[10]. Y bwriad yw y bydd y rhan fwyaf o awdurdodaethau tribiwnlysoedd a weinyddir gan lywodraeth ganolog yn cael eu hymgorffori yn y strwythur newydd yn y pen draw.

7 Tribiwnlys trawsffiniol yw un sydd ag awdurdodaeth yng Nghymru a Lloegr.

8 'Tribunals for Users: One System, One Service', Adroddiad yr Adolygiad o Dribiwnlysoedd gan Syr Andrew Leggatt, Awst 2001.

9 'Transforming Public Services: Complaints, Redress and Tribunals', Papur Gwyn a baratowyd gan yr Adran Materion Cyfansoddiadol, Cm 6243, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2004.

10 'Immigration Appeals Government Response to Consultation: Fair decisions; faster justice', Asiantaeth Ffiniau'r DU a'r Gwasanaeth Tribiwnlysoedd, a gyhoeddwyd 8 Mai 2009, yn http://www.ukba.homeoffice.gov.uk/sitecontent/documents/aboutus/consultations/closedconsultations/immigrationappeals/. (cyrchwyd ar 20 Hydref 2009)

19. Fel rhan o'r diwygiadau, gweinyddir y Tribiwnlys Cyflogaeth a'r Tribiwnlys Apêl Cyflogaeth gan y Gwasanaeth Tribiwnlysoedd. Er mwyn cydnabod eu gwahanol anghenion a'u rôl wrth ddyfarnu ynghylch anghydfodau rhwng partïon, yn hytrach nag anghydfodau rhwng dinasyddion a'r wladwriaeth, penderfynwyd y byddent yn ffurfio piler ar wahân yn y sefydliad hwnnw ac na fyddent yn ymuno â'r strwythur unedig i dribiwnlysoedd[11].

20. Sefydlwyd cyfleusterau Uwch Dribiwnlys a Llys Gweinyddol ar y cyd yng Nghaerdydd, a nodwyd nifer o leoliadau addas ledled Cymru er mwyn sicrhau hygyrchedd i ddefnyddwyr tribiwnlysoedd yng Nghymru. Mae sefydliad y Gwasanaeth Tribiwnlysoedd yn cynnwys ardal fusnes 'Cymru a De-orllewin Lloegr' a swyddfeydd yng Nghymru. Mae ganddo hefyd nifer o ganolfannau parhaol ar gyfer gwrandawiadau (Casnewydd, Caerdydd, Abertawe, Bae Colwyn a Wrecsam) a lleoliadau dros dro ar gyfer gwrandawiadau (gan gynnwys Caerfyrddin, Hwlffordd, Aberystwyth, y Drenewydd, Caernarfon a Llangefni) yng Nghymru.

21. Mae gan y Gwasanaeth Tribiwnlysoedd ei Gynllun Iaith Gymraeg ei hun, ac mae'n gallu ymdrin â galwadau ffôn a llythyrau yn Gymraeg a threfnu gwrandawiadau apêl yn Gymraeg, ac mae gan bob un o adeiladau'r Gwasanaeth Tribiwnlysoedd yng Nghymru arwyddion, taflenni a hysbysiadau dwyieithog. Mae'n gweithredu un wefan i'r holl dribiwnlysoedd a weinyddir ganddo – www.tribunals.gov.uk – gydag ardaloedd penodol ar gyfer pob awdurdodaeth.

22. Ceir hefyd nifer o dribiwnlysoedd trawsffiniol sy'n parhau i fod y tu allan i'r Gwasanaeth Tribiwnlysoedd ar hyn o bryd. Mae'r rhain yn cynnwys y Tribiwnlys Hawlfraint, y Tribiwnlys Apêl Cystadleuaeth, a'r Comisiynwyr Traffig. Mae Comisiynydd Traffig Cymru a Gorllewin Canolbarth Lloegr wedi codi nifer o faterion yn ei Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2008/09 mewn cysylltiad â gweithrediadau trawsffiniol yn ei awdurdodaeth:

*Although there are eight Traffic Areas for Great Britain, there are seven Traffic Commissioners. I am the Traffic Commissioner with two distinct Traffic Areas... Compliance services for Wales (are) serviced from the Birmingham office. Statistics are compiled separately for Wales, and hearings are heard in Wales; apart from this, the Welsh Traffic Area is treated as an adjunct of the West Midland Traffic Area. By way of illustration, budgets allocated for operator seminars are based on the offices and commissioners... Sadly the result of Wales being treated differently to England is that the standards of regulation in parts of Wales are sometimes lower*[12].

11 'Transforming Tribunals Consultation Paper', Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, CP30/07, a gyhoeddwyd 28 Tachwedd 2007, t.22, para 99.

12 Adroddiad Blynyddol 2008/09 y Comisiynwyr Traffig http://www.dft.gov.uk/pgr/roads/tpm/trafficcommissioners/annualreports/ t. 67. (cyrchwyd ar 20 Hydref 2009)

**Bwrw golwg ar rai ystadegau…**

Mae penderfyniadau tribiwnlysoedd yn effeithio ar ddegau ar filoedd o ddinasyddion Cymru bob blwyddyn.

*Tribiwnlysoedd Trawsffiniol*

Yng **Nghymru** yn 2008/09:

- ymdriniodd awdurdodaeth Nawdd Cymdeithasol a Chynnal Plant y Siambr Hawl Gymdeithasol â 15,291 o apeliadau, penododd 35 o farnwyr (roedd 5 ohonynt yn gyflogedig) a 71 o aelodau
- ymdriniodd y Tribiwnlys Cyflogaeth ag 8,917 o achosion, penododd 12 o farnwyr (roedd 3 ohonynt yn gyflogedig) a 50 o aelodau
- ymdriniodd y Tribiwnlys Lloches a Mewnfudo ag 11,367 o achosion (gan gynnwys achosion yn Lloegr), penododd 36 o farnwyr (roedd 10 ohonynt yn gyflogedig) a 4 o aelodau[13].

Yn **Lloegr** yn 2008/09:

- cyflwynwyd 3,115 o apeliadau i awdurdodaeth Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd y Siambr Iechyd, Addysg a Gofal Cymdeithasol (tynnwyd 2,313 yn ôl), penderfynwyd ar 992 o achosion, a bu 160 o aelodau
- cyflwynwyd 22,964 o achosion i awdurdodaeth Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl y Siambr Iechyd, Addysg a Gofal Cymdeithasol (tynnwyd 10,393 yn ôl), penderfynwyd ar 14,998 o achosion, a bu 999 o aelodau[14] .

Drwy'r DU gyfan yn 2008/09 ymdriniodd y Gwasanaethau Tribiwnlysoedd â **568,153 o achosion**, cyflogwyd **2,737 o staff** ac roedd ganddynt gostau gweithredu net o **£310 miliwn**[15].

*Tribiwnlysoedd yng Nghymru*

Yn 2008/09:

- cofrestrwyd 96 o apeliadau gan Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru a phenderfynwyd ar 37 o achosion, cyflogwyd 5 aelod o staff a bu 13 o aelodau
- cofrestrwyd 1,450 o geisiadau gan Dribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru (tynnwyd 211 yn ôl) a bu 90 o aelodau (mae'r Llywydd yn gyflogedig)
- cyfeiriodd yr Ombwdsmon ddau achos at Banel Dyfarnu Cymru, ac ni fu unrhyw apeliadau yn erbyn penderfyniadau pwyllgorau safonau a bu 8 aelod (gan gynnwys y Llywydd)
- cyflwynwyd 208 o achosion i Dribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru (tynnwyd 11 yn ôl) a bu 42 o aelodau.

Oherwydd gwahaniaethau yn y ffordd y cofnodir gwariant gan dribiwnlysoedd yng Nghymru (neu nas cofnodwyd o gwbl mewn rhai achosion), mae'n amhosibl amcangyfrif cyllideb weithredu gyfun tribiwnlysoedd yng Nghymru.

13 Darparwyd y ffigurau hyn gan y Gwasanaeth Tribiwnlysoedd.

14 Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2008/09 y Gwasanaeth Tribiwnlysoedd, HC599, t.121

15 Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2008/09 y Gwasanaeth Tribiwnlysoedd, HC599, t.8

## Ein Harolwg o Dribiwnlysoedd yng Nghymru

23. Ar ddechrau 2009 dosbarthwyd arolwg gennym i bob tribiwnlys yng Nghymru, er mwyn casglu gwybodaeth fanwl a chyson am nifer o faterion megis llwythi achosion, cyllidebau, gwybodaeth i ddefnyddwyr tribiwnlysoedd a'r iaith Gymraeg. Ceir canlyniadau manwl yr arolwg hwn yn Atodiad C. Mae'r data a gasglwyd gennym yn dangos system dribiwnlysoedd ddarniog sydd wedi datblygu mewn ffordd *ad hoc*. Nid yn unig nid oes unrhyw egwyddorion sylfaenol na chyffredin ond mae'r ffordd y mae'r tribiwnlysoedd hyn yn gweithredu'n amrywio'n sylweddol.

24. Cynrychiolwyr o bob tribiwnlys a ddarparodd y wybodaeth a gasglwyd gennym. Er i ymdrechion gael eu gwneud i gadarnhau ei bod yn gywir, ni allwn warantu hynny. Mewn rhai achosion mae gwahaniaethau hefyd yn y ffordd y mae tribiwnlysoedd yn casglu ystadegau a data.

25. Mae'r tribiwnlysoedd sy'n gweithredu yng Nghymru yn cwmpasu amrywiaeth o awdurdodaethau, fel y'u rhestrir yn Nhabl 1 (t.42), o gyrff penodol megis Bwrdd y Canolwyr Meddygol sy'n dyfarnu apeliadau ynghylch p'un a ddylai ymladdwr tân ymddeol ai peidio; i Dribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru, sy'n adolygu achosion cleifion a gedwir yn gaeth o dan bwerau Deddf Iechyd Meddwl; a'r Paneli Apêl Gwaharddiadau Ysgol sy'n gwrando apeliadau yn erbyn gwahardd myfyrwyr yn barhaol o'r ysgol. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd wedi sefydlu nifer o baneli annibynnol i adolygu penderfyniadau cychwynnol. Mae'r rhain yn cynnwys, er enghraifft, Paneli Cwynion Gwasanaethau Cymdeithasol Annibynnol[16] a Phaneli Adolygiad Annibynnol o Ddyfarniadau[17]. Rhestrir y ddau o dan Orchymyn Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd (Tribiwnlysoedd a Restrir) (Cymru) 2007 ac fe'u cynhwysir yn yr adolygiad hwn.

26. Mae'n ddiddorol nodi hefyd er bod rhai o'r tribiwnlysoedd yng Nghymru wedi gweithredu ers sawl blwyddyn, gyda'r Tribiwnlys Tir Amaethyddol yn dyddio yn ôl i 1947, fod ychwanegiadau llawer mwy diweddar hefyd, gyda Thribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (TAAAC) yn dod i fodolaeth mor ddiweddar â 2003. Mae'r Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, yr Adran Iechyd a Nawdd Cymdeithasol, yr Adran Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol a'r Adran Materion Gwledig oll yn noddi amrywiol dribiwnlysoedd, yn dibynnu ar awdurdodaeth y tribiwnlys.

27. Gofynnwyd i dribiwnlysoedd roi manylion am y ffordd y maent yn cael eu trefnu, gyda'r ymatebion yn awgrymu bod pedwar strwythur, yn gyffredinol:

    a. Un tribiwnlys sy'n cwmpasu Cymru gyfan, gydag un arweinydd barnwrol;

    b. Un tribiwnlys sy'n cwmpasu Cymru gyfan, heb arweinydd barnwrol cyffredinol;

    c. Tribiwnlysoedd a drefnir ar sail ranbarthol, o dan ofal Llywydd ar gyfer pob rhanbarth[18];

    d. Tribiwnlysoedd a drefnir ar sail ranbarthol, gyda phob gwrandawiad panel o dan ofal Cadeirydd ond heb arweinydd cyffredinol.

16 Mae'r paneli hyn yn ymdrin â chwynion ynglŷn â gwasanaethau cymdeithasol lle na ddatryswyd y gŵyn yn gynharach.

17 Mae'r paneli hyn yn cynnig proses adolygu y gall darpar fabwysiadwyr ei defnyddio pan na fyddant yn cytuno â'r penderfyniad cymhwyso a wnaed gan eu hasiantaeth fabwysiadu.

18 Dyma strwythur presennol Tribiwnlysoedd Prisio Cymru. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymgynghori ar gynigion i uno'r pedwar tribiwnlys yn un tribiwnlys.

28. Mae nifer yr aelodau a benodwyd i dribiwnlys ar unrhyw adeg benodol a chyfansoddiad y paneli'n amrywio'n sylweddol ymhlith y tribiwnlysoedd, ffaith nad yw'n syndod o gofio'r gwahanol lwythi gwaith a'r pwnc dan sylw. Ac eithrio'r Tribiwnlysoedd Prisio, sy'n cynnwys aelodau lleyg yn unig, mae'r rhan fwyaf o dribiwnlysoedd yn cynnwys cymysgedd o aelodau cyfreithiol ac aelodau eraill, ac mae angen profiad proffesiynol neu ymarferol yn y maes dan sylw ar y rhan fwyaf o aelodau. Mae tribiwnlysoedd fel arfer yn cynnwys tri aelod, ond mewn rhai tribiwnlysoedd gallent gynnwys hyd at bump o aelodau. Dangosir cyfansoddiad pob tribiwnlys yn Nhabl 2 (t.46).

29. Nodir yr ymatebion a gafwyd o ran cwestiynau am gydnabyddiaeth a lwfansau yn Nhabl 3 (t.48). Mewn tri achos mae Llywydd Tribiwnlys yn cael cyflog (Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru, Tribiwnlys Cosbau Traffig a'r Tribiwnlys Eiddo Preswyl[19]) ond mae aelodau eraill o'r paneli tribiwnlys yn cael ffioedd, a delir, mewn rhai amgylchiadau, ar gyfradd ddyddiol ac mewn eraill yn ôl achos. Mewn rhai sefyllfaoedd, nid yw'r aelodau yn cael cydnabyddiaeth o gwbl heblaw am enillion a gollwyd.

30. Nid yw'r rheolau ynglŷn â dewis aelodau yn unffurf nac yn gyson, gyda rhai penodiadau yn cael eu gwneud gan Weinidogion Cymru a rhai gan yr Arglwydd Ganghellor. At hynny, mewn rhai tribiwnlysoedd, yr Awdurdod Lleol sy'n penderfynu ar benodi aelodau. Dangosir y ffordd y pennir y cyfrifoldeb hwn yn Nhabl 4 (t.49). Yn yr un modd, mae'r cyfrifoldeb am wneud rheolau gweithdrefnol naill ai gan Weinidogion Cymru neu'r Arglwydd Ganghellor, yn dibynnu ar y tribiwnlys.

31. Mae gallu tribiwnlysoedd i benodi cynghorwyr yn dangos y ffordd y gall rheolau gweithdrefnol amrywio'n sylweddol o un tribiwnlys i'r llall. O dan rai rheolau gweithdrefnol caniateir i'r tribiwnlys ymgynghori ag arbenigwr, er enghraifft, Panel Dyfarnu Cymru. Mae Rheolau Paneli Adolygiad Annibynnol o Ddyfarniadau yn darparu bod yn rhaid i'r panel gael ei gynghori gan weithiwr cymdeithasol, a chaiff hefyd gyngor gan gynghorydd cyfreithiol. Ar y llaw arall, nododd sawl tribiwnlys gwahanol nad ydynt yn gallu penodi cynghorwyr ychwanegol o gwbl, sef Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru, y Tribiwnlys Eiddo Preswyl, Tribiwnlysoedd Prisio Cymru, Paneli Apêl Derbyniadau Ysgol a Phaneli Apêl Gwaharddiadau Ysgol. Er na all TAAAC ddefnyddio cynghorwyr ar hyn o bryd, mae'n ceisio diwygio ei reoliadau er mwyn caniatáu'r defnydd o dystion arbenigol.

32. Gofynnwyd sawl cwestiwn am hyfforddi ac arfarnu aelodau tribiwnlysoedd yn ein harolwg. Dangosodd yr ymatebion mai'r pennaeth barnwrol sy'n gyfrifol am hyfforddi aelodau mewn rhai achosion. Weithiau staff cymorth y tribiwnlys sy'n gyfrifol ac mewn achosion eraill yr Awdurdod Lleol sy'n gyfrifol. Yn y rhan fwyaf o achosion daw'r cyllid ar gyfer hyfforddiant o gyllideb gyffredinol y tribiwnlys. Mae'r gwahanol dribiwnlysoedd yn cynnig gwahanol fathau o hyfforddiant i aelodau. Mae llawer yn cynnal digwyddiadau hyfforddi blynyddol rheolaidd (TAAAC, Panel Dyfarnu, Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru, y Tribiwnlys Eiddo Preswyl, Paneli Cwynion Gwasanaethau Cymdeithasol Annibynnol, y Tribiwnlys Cosbau Traffig, Tribiwnlysoedd Prisio Cymru) er bod rhai tribiwnlysoedd yn trefnu hyfforddiant ar sail a benderfynir yn lleol (Paneli Apêl Derbyniadau Ysgol a Phaneli Apêl Gwaharddiadau Ysgol). Ceir dulliau hyfforddi llai

19 Mae Is-Lywydd y Tribiwnlys Eiddo Preswyl hefyd yn cael cyflog.

ffurfiol hefyd, megis cylchlythyrau sy'n tynnu sylw at ddatblygiadau yn y gyfraith ac arfer gorau, ac mae aelodau tribiwnlysoedd eraill yn cael hyfforddiant 'mewn swydd'.

33. Mewn rhai tribiwnlysoedd mae ffordd ffurfiol o arfarnu aelodau. Er enghraifft, mae Llywydd ac aelodau Panel Dyfarnu Cymru yn cael eu harfarnu'n flynyddol, ac mae Llywydd Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru yn mynd drwy broses ffurfiol. Yn yr un modd, mae Cadeiryddion a Dirprwy Gadeiryddion Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru yn cael eu hasesu gan Farnwr Cylchdaith Tribiwnlys Haen Gyntaf, ac maent hwy yn eu tro yn asesu'r aelodau. Mae gan y Tribiwnlys Eiddo Preswyl system o arfarniadau, ond oherwydd y llwyth achosion bach mae'n anodd cynnal yr arsylwadau angenrheidiol. Fel arall, fodd bynnag, ymddengys nad yw'r rhan fwyaf o aelodau tribiwnlysoedd yn cael eu hasesu'n rheolaidd nac yn ffurfiol er bod Tribiwnlysoedd Prisio Cymru yn ceisio sefydlu system arfarnu.

34. Mae cymharu llwythi gwaith tribiwnlysoedd yng Nghymru yn dasg anodd yn y bôn, nid yn unig am fod y tribiwnlysoedd yn dilyn prosesau gwahanol, ond hefyd am nad yw'r ystadegau sydd ar gael o ran llwyth achosion yn adlewyrchu cymhlethdod achosion na faint y maent yn para. Fel y nodwyd yn Nhabl 5 (t.54), mae Tribiwnlysoedd Prisio Cymru yn ymdrin â'r rhan fwyaf o achosion ar sail flynyddol; fodd bynnag, mae wedi nodi y gall restru hyd at 30 o achosion y dydd, ond gall un achos gerbron y Panel Dyfarnu bara am sawl diwrnod.

35. Mae'r gwahaniaeth hwn o ran llwyth achosion a chymhlethdod y gwaith hefyd yn golygu bod gwariant tribiwnlysoedd yn amrywio'n sylweddol, gan ei fod yn effeithio ar y swm a gaiff ei wario ar ffioedd, gwaith gweinyddol a rhent. Mae'r dasg o gymharu gwariant gwahanol dribiwnlysoedd wedi'i chymhlethu ymhellach oherwydd defnyddir cyfrifiadau gwahanol wrth gadarnhau gwariant. Mae'n rhaid nodi hefyd fod gwahanol dribiwnlysoedd yn cael gwahanol lefelau o gymorth gan y llywodraeth, sydd, mewn rhai achosion, yn darparu swyddfeydd a staff i gynorthwyo'r tribiwnlysoedd, fel y'i hamlinellwyd yn Nhabl 7 (t.57)

36. Gofynnwyd sawl cwestiwn am y ffordd y mae gwrandawiadau yn gweithredu yn yr arolwg. Un nodwedd sy'n gyffredin i bob un o'r tribiwnlysoedd yw bod gwrandawiadau yn tueddu i gael eu cynnal mewn lleoliadau anffurfiol sy'n gyfleus i'r defnyddiwr. Mae Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru yn cynnal gwrandawiadau mewn gwestai lleol, sy'n ei alluogi i gynnal ymweliadau safle yn hawdd, ac mae'r Tribiwnlys Cosbau Traffig yn caniatáu i ddefnyddwyr nodi eu dymuniad o ran lleoliad y gwrandawiad. O ran Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru, fel arfer cynhelir y gwrandawiad yn yr ysbyty lle mae'r claf.

37. Dangosodd ymatebion i'r arolwg fod y rhan fwyaf o dribiwnlysoedd yn gallu bod yn hyblyg i ryw raddau o ran natur gwrandawiadau, fel y nodwyd yn Nhabl 8 (t.63). Yn eu hymatebion dywedodd tua hanner y tribiwnlysoedd eu bod fel arfer yn cynnal gwrandawiadau yn breifat, yn bennaf pan fydd y tribiwnlysoedd yn ymdrin â defnyddwyr sy'n agored i niwed neu wybodaeth sensitif. Fodd bynnag, yn achos y rhan fwyaf o'r tribiwnlysoedd hyn, mae'n bosibl o hyd cynnal gwrandawiadau yn gyhoeddus pan fodlonir rhai amodau. Yn yr un modd, mae gan y tribiwnlysoedd sydd fel arfer yn cynnal gwrandawiad yn gyhoeddus ddisgresiwn i gynnal gwrandawiadau yn breifat.

38. Mae dros hanner y tribiwnlysoedd yn cyhoeddi eu penderfyniadau, gyda rhai yn cyhoeddi mewn papurau newydd lleol ac eraill yn anfon penderfyniadau at sefydliadau perthnasol, ond nid yw'r tribiwnlysoedd hynny sy'n ymdrin â materion personol sensitif yn cyhoeddi eu penderfyniadau ar y cyfan. Nododd ychydig o dribiwnlysoedd eu bod yn gwneud trawsgrifiad sain neu ysgrifenedig o'r gwrandawiad y gellir gwrando arno neu ei ddarllen yn y rhan fwyaf o achosion.

39. Er i tua hanner y tribiwnlysoedd nodi eu bod yn gallu dyfarnu costau, yn bennaf mewn achosion lle mae person wedi ymddwyn mewn ffordd wacsaw neu flinderus, nid oedd yr un tribiwnlys wedi nodi eu bod yn gallu gorfodi eu gorchmynion. Mae'r cymorth sydd ar gael gan glerc y tribiwnlys yn amrywio o wneud trefniadau gweinyddol i gynnig cyngor ar y weithdrefn neu bwyntiau cyfreithiol. Yn Nhribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru y clerc yn aml yw'r gweithiwr achos sydd wedi goruchwylio'r gwaith o gasglu adroddiadau a chynnull tystion, ac yn achos Panel Dyfarnu Cymru gall y clerc gynnig cyngor ar y weithdrefn ond nid pwyntiau cyfreithiol.

40. Mae nifer o lwybrau gwahanol i apelio yn erbyn penderfyniadau tribiwnlysoedd. Mewn rhai achosion, mae gan unigolyn yr hawl i apelio i'r Uwch Dribiwnlys, er enghraifft yn erbyn penderfyniad gan Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru. Mewn tribiwnlysoedd megis y Tribiwnlys Cosbau Traffig, nid oes hawl i apelio ac eithrio'r hawl i ofyn am adolygiad barnwrol. Mae'n rhaid apelio yn erbyn penderfyniadau rhai tribiwnlysoedd yn yr Uchel Lys.

41. Fel y gwelwyd yn Nhabl 8 (t.63), ac eithrio TAAAC, dywedodd pob tribiwnlys nad oes unrhyw gyfyngiadau ar y partïon o ran gofyn i gynrychiolydd, naill ai cynrychiolydd cyfreithiol neu fel arall, fod yn bresennol. Yn achos TAAAC, mae cyfyngiad ar ffurf un cynrychiolydd fesul parti. Yr unig dribiwnlys yng Nghymru lle mae cymorth cyfreithiol ar gael i gynrychioli ceisydd yw Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru, ond mewn tribiwnlysoedd eraill efallai y bydd yn bosibl cael cyngor cyfreithiol at ddibenion paratoi.

42. Mae gwybodaeth am y tribiwnlysoedd yn aml ar gael i ddefnyddwyr drwy'r rhyngrwyd, er i lai na hanner y tribiwnlysoedd ddweud bod ganddynt wefannau cynhwysfawr, fel y nodwyd yn Nhabl 10 (t.68). Mae'n bosibl weithiau dod o hyd i wybodaeth am dribiwnlysoedd sydd heb eu gwefan lawn eu hunain ar wefannau eraill, megis gwefan Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae gan TAAAC linell gymorth benodol i ddefnyddwyr, a nododd tribiwnlysoedd eraill fod modd cael gwybodaeth drwy ffonio llinell ffôn y tribiwnlys. Mae tribiwnlysoedd hefyd yn cyhoeddi taflenni a llyfrynnau, er bod y math o wybodaeth a geir yn amrywio o dribiwnlys i dribiwnlys.

43. Mae'r rhan fwyaf o dribiwnlysoedd yn gallu ymdrin ag apeliadau drwy gyfrwng y Gymraeg, fel y dangosir yn Nhabl 11 (t.69), er nad oes galw mawr am wasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg. Nododd TAAAC ei fod wedi cynnal gwrandawiadau drwy gyfrwng y Gymraeg. Er i Banel Dyfarnu Cymru nodi na chynhaliwyd gwrandawiadau drwy gyfrwng y Gymraeg, mae nifer o bobl wedi rhoi tystiolaeth yn Gymraeg. Nid yw ychydig o dribiwnlysoedd yn cadw cofnod o nifer aelodau'r tribiwnlys sy'n medru'r Gymraeg.

44. Cymharol gyfyngedig yw'r rhyngweithio rhwng y tribiwnlysoedd a defnyddwyr, er bod rhai eithriadau. Mae TAAAC a'r Tribiwnlys Cosbau Traffig yn gweithredu grwpiau defnyddwyr tribiwnlysoedd, ac mae cynrychiolwyr Tribiwnlysoedd Prisio Cymru yn cymryd rhan yn Fforwm Trethdalwyr Asiantaeth y Swyddfa Brisio. Nododd TAAAC hefyd y gwahoddir pob parti i lenwi arolwg boddhad ar ôl i'w achos ddod i ben. Mae Cadeirydd Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru yn aelod o nifer o bwyllgorau sy'n cynnwys cynrychiolwyr sy'n ddefnyddwyr.

45. Gofynnwyd i'r tribiwnlysoedd ddarparu gwybodaeth am eu gweithdrefnau cwyno. Ceir yr ymatebion yn Nhabl 12 (t.73). Mae polisi cwyno TAAAC ar gael i'r cyhoedd ar gais ac ar ei wefan, felly hefyd bolisi'r Tribiwnlys Cosbau Traffig. I rai tribiwnlysoedd, gall defnyddwyr hefyd droi at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ['yr Ombwdsmon']. O ran Panel Dyfarnu Cymru, yr Ombwdsmon fydd y pwynt cyswllt cyntaf mewn achosion o gamymddwyn a lle y gwneir cwynion yn erbyn y gwasanaethau cymdeithasol, bydd defnyddwyr yn gallu dewis mynd at yr Ombwdsmon. Gall yr Ombwdsmon ymchwilio i gwynion ynglŷn â chamweinyddu yn erbyn y Paneli Apêl Derbyniadau a Gwaharddiadau Ysgol, ond dim ond pwerau i wneud argymhellion sydd ganddo. Yn yr un modd, gall yr Ombwdsmon ymchwilio i gwynion ynglŷn â chamweinyddu apeliadau gan Wasanaeth Tribiwnlysoedd Prisio Cymru, ond nid yw'r pŵer hwn yn ymestyn i ystyried swyddogaeth gwneud penderfyniadau barnwrol y tribiwnlys.

# Rhan 2 – Egwyddorion i Dribiwnlysoedd

## Cefndir

46. Wrth lunio egwyddorion ar gyfer barnu'r ffordd y mae tribiwnlysoedd yng Nghymru yn gweithredu, rydym wedi ystyried ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddarparu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y dinesydd, egwyddorion hawliau dynol rhyngwladol a mentrau blaenorol i amlinellu egwyddorion a safonau ar gyfer tribiwnlysoedd yn y Deyrnas Unedig.

*Cyd-destun Polisi yng Nghymru*

***'Mae hygrededd ac enw da yn dibynnu ar y deialog parhaus hwn â dinasyddion sydd wedi cael gwybodaeth ddigonol. Dylai hyn gynnwys prosesau syml a chyflym ar gyfer cwyno ac unioni. Rhaid i sefydliadau fod yn ddigon aeddfed i ymddiheuro pan aiff pethau o'u lle, adfer y sefyllfa ac unioni mewn ffordd addas.'***

*Ar Draws Ffiniau: Gwasanaethau Lleol sy'n Canolbwyntio ar y Dinesydd, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2006, t.58*

47. Wrth lunio egwyddorion ystyriwyd sut y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ceisio cynllunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar y dinesydd. Amlinellwyd y fframwaith polisi hwn yn 'Creu'r Cysylltiadau: Cyflawni Ar Draws Ffiniau'[20] ac mae'n gofyn am y canlynol, ymhlith pethau eraill:

- Prosesau ar gyfer gwneud iawn yn gyflym ac yn briodol, sy'n ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau sicrhau bod systemau cwyno a gwneud iawn yn syml, yn hygyrch ac yn gyson ar draws ffiniau sefydliadol a sectoraidd;
- Ymagwedd sy'n canolbwyntio ar y dinesydd ac sy'n ymgorffori anghenion defnyddwyr gwasanaethau fel y brif ystyriaeth;
- Dinasyddion gwybodus sy'n gallu mynegi eu disgwyliadau, eu profiadau a'u hanghenion ym mhob rhan o'r llywodraeth mewn ffordd ystyrlon ac amrywiol.

*Deddfwriaeth Hawliau Dynol*

48. Mae ein hegwyddorion hefyd yn seiliedig ar ystyriaeth o ddeddfwriaeth hawliau dynol, sef Deddf Hawliau Dynol 1998 sy'n ymgorffori'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yng nghyfraith y wlad. Mae cydymffurfiaeth â hawliau'r Confensiwn yn rhan annatod o'r setliad datganoli. Mae adran 81 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn darparu'n benodol na all Gweinidogion Cymru weithredu'n anghydnaws â hawliau'r Confensiwn, ac mae adran 94 yn darparu ei bod y tu hwnt i gymhwysedd y Cynulliad i basio deddfwriaeth sy'n anghydnaws â hawliau'r Confensiwn.

20 'Creu'r Cysylltiadau: Cyflawni Ar Draws Ffiniau: Gweddnewid Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru', Llywodraeth Cynulliad Cymru, Tachwedd 2006, yn http://new.wales.gov.uk/topics/improvingservices/strategy/deliveringbb/?lang=en (cyrchwyd ar 3 Medi 2009).

49. Adlewyrchir egwyddor annibyniaeth yn Erthygl 6 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, sef 'in the determination of his civil rights and obligations... everyone is entitled to a fair and public hearing within a reasonable time by an independent and impartial tribunal established by law.' Nid yw Erthygl 6 yn gymwys i bob tribiwnlys sy'n gweithredu yng Nghymru gan mai 'its central focus is not administrative law... but criminal law and private law (that is, rights that arise between individuals such as contractual rights).'[21].

50. Fodd bynnag, fel y dadleuodd Syr Andrew Leggatt, y gofynnwyd iddo ystyried a yw'r trefniadau gweinyddol ac ymarferol ar gyfer cynnal tribiwnlysoedd yn bodloni gofynion y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol o ran annibyniaeth a didueddrwydd:

*A narrowly ECHR-based approach would, we think, lead to an absurd result. It would be possible for a government to argue that it is acceptable for there to be an inferior standard of fairness, or of independence and impartiality, in a tribunal case because it involved not a dispute in private law between individual citizens to which the ECHR applied, but a dispute between the citizen and the state itself in an area to which the ECHR did not apply. That is an untenable position…*[22].

51. Mewn sawl achos tribiwnlysoedd yw'r unig rwymedi realistig neu ymarferol sydd gan ddinesydd rhag penderfyniad gan y llywodraeth. Yn y DU o leiaf, derbyniwyd yn gryf mai dewis amgen yn lle mynd i'r llys ydynt, ac nid prosesau gweinyddol[23]. Felly byddai mynnu safon annibyniaeth is i dribiwnlysoedd na safon llys yn afresymegol ar y gorau, ac yn anghyfiawn o bosibl.

*Adroddiad Franks*

52. Yn 1957 amlinellwyd tair egwyddor i'r system dribiwnlysoedd yn Adroddiad y Pwyllgor ar Dribiwnlysoedd ac Ymchwiliadau Gweinyddol ('Adroddiad Franks'), sef **bod yn agored, tegwch** a **didueddrwydd** – dylai gweithdrefnau fod yn agored i graffu er mwyn i'r cyhoedd barhau i ymddiried ynddynt; dylent roi gwrandawiad teg lle dylai dinasyddion gyflwyno eu hachos a chael gwybod yr holl dystiolaeth; a dylai tribiwnlysoedd wneud eu penderfyniadau yn amlwg yn rhydd o bob buddiant a gogwydd personol. Pwysleisiodd yr adroddiad fod didueddrwydd yn y system yn golygu 'the freedom of tribunals from the influence, real or apparent, of Departments concerned with the subject matter of their decisions'[24].

21 Tribunals for Users, One System, One Service, HMSO 2001, t.26, para 2.14.

22 Tribunals for Users: One System, One Service, HMSO 2001, t.27, para 2.17.

23 Tribunals for Users: One System, One Service, HMSO 2001, t.27, para 2.18.

24 Adroddiad y Pwyllgor ar Dribiwnlysoedd ac Ymchwiliadau Gweinyddol, 1957 (Ailargraffwyd gan HMSO 1993), t.5, para 25.

*Adroddiad Leggatt*

53. Yn 2000 gofynnwyd i Syr Andrew Leggatt edrych ar dribiwnlysoedd ledled y Deyrnas Unedig ac argymell system **sy'n annibynnol, yn gydlynol, yn broffesiynol, yn gosteffeithiol** ac **yn gyfleus i ddefnyddwyr**[25]. Yn ogystal â'r egwyddorion a amlinellwyd yn Adroddiad Franks, newidiodd pwyslais yr adolygiad hwn i hygyrchedd a diwallu anghenion defnyddwyr tribiwnlysoedd. Fel y nodwyd yn adroddiad yr adolygiad o'r enw 'Tribunals for Users: One System, One Service' ('Adroddiad Leggatt'):

*It is important to remember that tribunals exist to serve the users, not the other way around. They need to be accessible by the variety of users they are intended to help. In order to make the tribunal experience a positive one for users they need advice and support at all stages of the appeal process*[26].

54. O ganlyniad, ystyriodd Adolygiad Leggatt y cymorth a roddwyd i ddefnyddwyr tribiwnlysoedd i baratoi a chyflwyno eu hachosion, y wybodaeth a roddwyd iddynt gan y tribiwnlys, a'r graddau y mae tribiwnlysoedd yn ymwneud â defnyddwyr, gan gynnwys grwpiau defnyddwyr tribiwnlysoedd.

55. Yn ogystal â'r angen am systemau penodi annibynnol a thryloyw ar gyfer aelodau tribiwnlysoedd (er mwyn cydymffurfio â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol a Deddf Hawliau Dynol 1998, ymhlith pethau eraill), dadleuodd yr adroddiad hefyd dros arweiniad barnwrol cadarn, prosesau penodi modern ar sail teilyngdod a system hyfforddi ac arfarnu ar sail cymhwysedd.

56. Un o gynseiliau canolog Adolygiad Leggatt oedd dymunoldeb cydlyniant a chreu 'system' dribiwnlysoedd, yn ogystal â'r cynsail y dylai tribiwnlysoedd fod yn effeithlon a sicrhau gwerth gorau yn y defnydd o adnoddau'r llywodraeth ac arian trethdalwyr.

*Fframwaith Safonau i Dribiwnlysoedd*

57. Yn 2002 cyhoeddodd y Cyngor Tribiwnlysoedd (sefydliad a ragflaenodd yr AJTC) ei Fframwaith Safonau i Dribiwnlysoedd. Diben y fframwaith hwn yw 'provide advice [to tribunals], to promote good practice and to highlight problems' a hefyd '...provide tribunals with clear guidance on the Council's expectations and priorities'[27]. Roedd y ddogfen hon yn seiliedig ar ei waith o oruchwylio ac arsylwi tribiwnlysoedd ledled Prydain Fawr dros ddeugain mlynedd. Y tair egwyddor a amlinellwyd yn y fframwaith yw:

    1) **Dylai tribiwnlysoedd fod yn annibynnol a rhoi gwrandawiadau agored, teg a diduedd**
    2) **Dylai tribiwnlysoedd fod yn hygyrch i ddefnyddwyr a chanolbwyntio ar anghenion defnyddwyr**
    3) **Dylai tribiwnlysoedd gynnig gweithdrefnau costeffeithiol a chael adnoddau priodol a chael eu trefnu'n briodol**

25 Tribunals for Users: One System, One Service, HMSO 2001, t.5, para 1.

26 Tribunals for Users: One System, One Service, HMSO 2001, t.43, para 4.1.

27 Framework of Standards for Tribunals, Cyngor Tribiwnlysoedd, Tachwedd 2002, t.2 yn http://www.council-on-tribunals.gov.uk/standards/framework.htm (cyrchwyd ar 3 Medi 2009).

**Egwyddorion i Dribiwnlysoedd yng Nghymru**

*Egwyddor 1: Annibyniaeth a Diduedddrwydd*

58. Dylai tribiwnlysoedd fod yn annibynnol a diduedd, a chael eu canfod i fod yn annibynnol a diduedd. Dylai tribiwnlys allu gwneud penderfyniadau yn unol â'r gyfraith heb bwysau, nac amheuaeth o bwysau, gan y corff neu'r unigolyn yr apelir yn erbyn ei benderfyniad, gan unrhyw barti yn yr anghydfod na neb arall.

59. Dylai aelodau tribiwnlysoedd fod yn annibynnol a dylai'r gweithdrefnau ar gyfer eu dewis a'u penodi fod yn deg, yn agored ac yn seiliedig ar deilyngdod.

*Egwyddor 2: Hygyrchedd i Ddefnyddwyr*

60. Mae ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i wasanaethau cyhoeddus sy'n canolbwyntio ar y dinesydd yn ei gwneud yn ofynnol i dribiwnlysoedd gael eu cynllunio a'u trefnu gan roi sylw i anghenion y dinesydd.

61. Er mwyn i dribiwnlysoedd fod yn hygyrch:

- Mae'n rhaid i ddefnyddwyr fod yn ymwybodol o'u hawl i gael iawn am gamweddau;
- Mae'n rhaid rhoi gwybodaeth am brosesau a gweithdrefnau tribiwnlysoedd i ddefnyddwyr;
- Dylai defnyddwyr gael cyngor, cymorth ac, mewn rhai achosion, gynrychiolaeth ddigonol;
- Rhaid bod yr un hawl i gael cyfiawnder yn y Gymraeg;
- Dylai gweithdrefnau fod yn anffurfiol ac yn galluogi;
- Dylai lleoliadau gwrandawiadau fod yn gyfleus i ddefnyddwyr tribiwnlysoedd ac wedi'u trefnu ar eu cyfer, ac yn hygyrch i bobl ag anableddau;
- Dylai costau a ffioedd fod mor isel â phosibl;
- Dylid gwneud pob ymdrech i ymgysylltu â defnyddwyr tribiwnlysoedd;
- Dylai fod polisïau ar waith i ddefnyddwyr wneud cwyn am y gwasanaeth a ddarperir;
- Dylai tribiwnlysoedd baratoi adroddiad blynyddol o'u gweithgareddau er mwyn sicrhau atebolrwydd cyhoeddus.

*Egwyddor 3: Effeithlonrwydd ac Effeithiolrwydd*

62. Mae'n rhaid i dribiwnlysoedd ddarparu gwasanaethau costeffeithlon er mwyn sicrhau gwerth da am arian i drethdalwyr. Mae hyn yn arbennig o wir yn yr hinsawdd economaidd ac ariannu sydd ohoni. Rhai arwyddion o effeithlonrwydd yw:

- Bod gweithrediadau yn gymesur â'r materion dan sylw;
- Y caiff achosion eu penderfynu mewn ffordd gyflym a threfnus;
- Bod cymorth gweinyddol priodol ar gael;
- Bod adnoddau tribiwnlysoedd, gan gynnwys amser barnwyr, swyddfeydd a lleoliadau gwrandawiadau yn cael eu defnyddio'n briodol.

63. Mae effeithiolrwydd yn ymwneud â sicrhau canlyniadau dymunol o ansawdd da ac mae'n dibynnu ar y canlynol:

- Arweiniad barnwrol a strwythur trefnus a chlir i'r tribiwnlys;
- Aelodau tribiwnlysoedd yn cael hyfforddiant sefydlu, hyfforddiant arall ac arfarniadau priodol;
- Niferoedd a mathau priodol o aelodau tribiwnlysoedd.

*Egwyddor 4: Cydlyniant*

64. Mae agenda Llywodraeth Cynulliad Cymru yn 'Creu'r Cysylltiadau' yn ei gwneud yn ofynnol bod systemau gwneud iawn am gamweddau megis tribiwnlysoedd, yn 'congruent across organisational and sectoral boundaries'. Mae hyn yn gymwys ar sawl lefel wahanol:

- Dylai fod gan dribiwnlysoedd yn gyffredinol strwythur cydlynol;
- Dylai fod fframwaith neu egwyddorion cyffredin i lywio'r ffordd y caiff tribiwnlysoedd newydd eu sefydlu;
- Dylai fod llwybrau priodol a chyson ar gyfer apelio neu adolygu penderfyniadau tribiwnlysoedd.

65. Mae tribiwnlysoedd yn rhan annatod o'r system cyfiawnder gweinyddol. Mae'n bwysig bod y broses o'r penderfyniad gwreiddiol, drwy systemau cwyno mewnol a/neu allanol, tribiwnlysoedd, llysoedd ac ombwdsmyn yn gydlynol ac yn ategu ei gilydd. Mae'r un mor bwysig bod gwersi yn cael eu dysgu oddi wrth benderfyniadau tribiwnlysoedd a'u hymgorffori yn y system, er mwyn gwella prosesau gwneud penderfyniadau ar y rheng flaen a gwella'r gwasanaeth i'r cyhoedd.

# Rhan 3 – Argymhellion

66. Nod ein hargymhellion yw hyrwyddo system fwy integredig sy'n canolbwyntio'n well ar ddefnyddwyr, lle mae tribiwnlysoedd yng Nghymru yn cydymffurfio â'r egwyddorion a amlinellir yn Rhan 2 o'r adroddiad hwn. Maent wedi'u rhannu'n ddau gategori. Mae'r argymhellion craidd wedi'u hanelu at sefydlu'r systemau a'r sefydliadau craffu sydd eu hangen i ddiwygio'r system tribiwnlysoedd a chyfiawnder gweinyddol yng Nghymru. Mae'r argymhellion eraill yn amlinellu'r hyn a ddylai fod yn flaenoriaethau cynnar ar gyfer diwygio yn ein barn ni.

## ARGYMHELLION CRAIDD

### Llywodraeth Cynulliad Cymru

***'The challenge for the Assembly is to create an administrative justice system in Wales which delivers to the Welsh public a service as good as, if not better than, that being proposed in England [notwithstanding that] there are functions being carried out in Wales over which it has no control.'***

*'Public Service or Pale Shadow? Issues for the Future of the Tribunals Service in Wales' Carolyn Kirby, Cadeirydd Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru, t.106*

*Annibyniaeth a Diduedddrwydd Tribiwnlysoedd*

67. Nid yw'r rhan fwyaf o dribiwnlysoedd yng Nghymru yn ddigon annibynnol ar yr adrannau na'r asiantaethau y mae'r tribiwnlysoedd yn ystyried eu penderfyniadau. Mae angen i Lywodraeth Cynulliad Cymru unioni hyn ar fyrder. O ran tribiwnlysoedd trawsffiniol unionwyd y sefyllfa hon drwy greu Gwasanaeth Tribiwnlysoedd fel asiantaeth weithredol yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder fel y'i hargymhellwyd yn Adolygiad Leggatt.

68. Fodd bynnag, yn ein barn ni nid yw'n briodol i'r tribiwnlysoedd yng Nghymru ymuno â Gwasanaeth Tribiwnlysoedd y DU. Mae pwerau cynyddol Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Cynulliad Cenedlaethol o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn caniatáu i bolisi ac arferion yng Nghymru a Lloegr fod yn gynyddol wahanol. Hefyd, gallai maint bach tribiwnlysoedd yng Nghymru olygu y gallai materion Cymreig fynd ar goll o bosibl mewn sefydliad mor fawr.

69. Mae awdurdodaethau eraill yn y DU hefyd wedi cydnabod yr angen am ddiwygio. Yn yr Alban, mae'r llywodraeth wedi cyhoeddi y bydd yn creu Gwasanaeth Tribiwnlysoedd ar wahân i'r Alban ar gyfer tribiwnlysoedd datganoledig yn yr Alban. Yng Ngogledd Iwerddon, mae cytundeb asiantaeth[28] sy'n trosglwyddo, fesul cam, y cyfrifoldeb am weinyddu tribiwnlysoedd yng Ngogledd Iwerddon i Wasanaeth Llys Gogledd Iwerddon, sydd ar hyn o bryd yn asiantaeth yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Pan gaiff pwerau plismona a chyfiawnder eu datganoli, byddai Gwasanaeth Llys Gogledd Iwerddon yn cael ei drosglwyddo i Adran Gyfiawnder newydd yng Ngogledd Iwerddon. Fodd bynnag, nid yw'r naill opsiwn na'r llall yn briodol nac yn ymarferol i Gymru, o ystyried y gwahaniaethau o ran graddfa a'r gwahaniaethau yn y setliadau datganoli priodol.



28 Gwnaed y cytundeb asiantaeth hwn o dan adran 28 o Ddeddf Gogledd Iwerddon 1998.

70. O ystyried maint a chwmpas cymharol fach y tribiwnlysoedd yng Nghymru, nid yw asiantaeth weithredol ar wahân yn ateb effeithlon na darbodus. Yn hytrach na hynny, dylai'r cyfrifoldeb dros bolisïau a gweinyddiaeth pob tribiwnlys yng Nghymru gael ei drosglwyddo i ran o Lywodraeth Cynulliad Cymru lle nad oes unrhyw gyfrifoldeb penodol am unrhyw un o benderfyniadau'r llywodraeth y mae anghydfod yn ei gylch. Byddai hefyd yn esgor ar y fantais o sicrhau mwy o gosteffeithiolrwydd drwy greu arbedion maint a dosbarthu adnoddau'n decach ymhlith y tribiwnlysoedd yng Nghymru.

71. Dylai fod prosesau recriwtio agored, annibynnol a diduedd ar gyfer pob aelod tribiwnlys, naill ai drwy broses barnwrol neu broses penodiadau cyhoeddus Llywodraeth Cynulliad Cymru. Ar hyn o bryd, mae'r prosesau ar gyfer penodi aelodau tribiwnlysoedd yn amrywio, ond maent yn aml yn cael eu gweinyddu gan adrannau'r llywodraeth neu'r Awdurdodau Lleol y mae eu penderfyniadau yn cael eu hadolygu ac mewn rhai achosion ni ddefnyddir proses ddewis ar sail teilyngdod. Os na chaiff y sefyllfa hon ei hunioni, credwn y bydd y llywodraeth yn agored i her gyfreithiol. Er mwyn sicrhau annibyniaeth amlwg dylai penodiadau gael eu gwneud gan Weinidogion Cymru (y mae ganddynt uned penodiadau cyhoeddus eisoes) neu'r Arglwydd Ganghellor.

*Canolbwynt i Gyfiawnder Gweinyddol*

72. Mae angen mynd ati i ddiwygio'r tribiwnlysoedd ond ni ddylai hynny ddigwydd ar ei ben ei hun. Yr hyn sy'n bwysig i ddinasyddion yw ansawdd y system yn ei chyfanrwydd, a'r ffordd y cânt eu trin o ddechrau'r broses (y penderfyniad gwreiddiol gan y llywodraeth, a'r rhesymau am roi'r penderfyniad) i'r diwedd (apêl o bosibl i'r Uchel Lys neu'r Uwch Dribiwnlys). Wrth lunio polisi i dribiwnlysoedd, mae'n rhaid ystyried y cyd-destun cyfiawnder gweinyddol ehangach hwn. Mae angen arweiniad cadarn a gwybodus i sicrhau bod y system yn ei chyfanrwydd yn canolbwyntio ar anghenion dinasyddion, ac y caiff anghydfodau eu datrys mewn ffordd sy'n gymesur â'r materion dan sylw.

73. Mae cyfle i Lywodraeth Cynulliad Cymru arwain y ffordd drwy sefydlu un canolbwynt i gyfiawnder gweinyddol, gan gynnwys polisïau a gweinyddiaeth tribiwnlysoedd, er mwyn ystyried datblygiad y system cyfiawnder gweinyddol gyfan o safbwynt defnyddwyr. Dylai'r canolbwynt hwn:

- Fod ar wahân i'r adrannau polisi ar bynciau penodol, nid yn unig er mwyn sicrhau annibyniaeth tribiwnlysoedd, ond hefyd er mwyn cael barn gyffredinol, i gysylltu gwahanol rannau o'r system, ac i hyrwyddo arfer gorau ym mhob rhan o lywodraeth leol a chenedlaethol;
- Cynnig arbenigedd mewn cyfiawnder gweinyddol a rhoi arweiniad ar gyfiawnder gweinyddol a datblygiad polisi a gweinyddol tribiwnlysoedd, diwygiadau ac ymchwil;
- Cydgysylltu mentrau a datblygiadau amrywiol ar draws Llywodraeth Cynulliad Cymru;
- Bod yn bwynt cyswllt i randdeiliaid mewnol ac allanol, gan gynnwys y sector cynghori a grwpiau eiriolaeth, aelodau tribiwnlysoedd a'r farnwriaeth a'r Ombwdsmon.

74. Ar y cychwyn ystyriwyd y posibilrwydd mai swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol fyddai'r man mwyaf addas i gynnwys y canolbwynt hwn. Fodd bynnag, fe'n cynghorir nad yw'r trefniadau cyfansoddiadol yn caniatáu i'r Cwnsler Cyffredinol ymgymryd â'r rôl hon. Sut bynnag, o ystyried yr angen am gydweithio llywodraeth gyfan, Adran y Prif Weinidog a'r Cabinet yw'r man mwyaf addas i leoli polisïau a gweinyddiaeth tribiwnlysoedd a chyfiawnder gweinyddol, yn ein barn ni.

***Argymhelliad 1:***

**Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru sefydlu canolbwynt i gyfiawnder gweinyddol yn Adran y Prif Weinidog a'r Cabinet.**

***Argymhelliad 2:***

**Er mwyn sicrhau bod tribiwnlysoedd yn cael eu gweld yn hollol annibynnol ac yn ddiduedd, dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru drosglwyddo'r cyfrifoldeb dros bolisïau a gweinyddiaeth tribiwnlysoedd i'r canolbwynt hwn yn Adran y Prif Weinidog a'r Cabinet, nad oes arni gyfrifoldeb penodol am unrhyw un o benderfyniadau'r llywodraeth y mae anghydfod yn ei gylch.**

***Argymhelliad 3:***

**Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru sicrhau bod y gweithdrefnau ar gyfer dewis aelodau tribiwnlysoedd yn agored, yn deg ac yn seiliedig ar deilyngdod a bod pob penodiad yn cael ei wneud gan Weinidogion Cymru neu'r Arglwydd Ganghellor.**

*Ad-drefnu*

75. Ystyriwyd uno ac ad-drefnu tribiwnlysoedd fel rhan o'r prosesau o adolygu tribiwnlysoedd mewn nifer o awdurdodaethau – gan gynnwys y DU, yr Alban[29], Canada[30], Awstralia[31] a Seland Newydd[32]. Fel y trafodir yn Rhan 1 o'r adroddiad hwn, gweithredwyd strwythur unedig newydd i dribiwnlysoedd ar gyfer tribiwnlysoedd trawsffiniol y DU, gan gynnwys y rhai sy'n gweithredu yng Nghymru[33]. Fodd bynnag, o ystyried graddfa tribiwnlysoedd yng Nghymru a'u hawdurdodaethau amrywiol, ynghyd â'r setliad datganoli presennol, nid ydym yn argyhoeddedig o rinweddau system unedig debyg yng

29 'Future of the Administration and Supervision of Tribunals in Scotland', Grŵp Llywio Cyfiawnder Gweinyddol, 6 Hydref 2008, yn http://www.ajtc.gov.uk/news/227.htm (cyrchwyd ar 20 Hydref 2009)

30 Yn 1996 sefydlodd talaith Quebec Dribiwnlys Gweinyddol Quebec (QAT) ac yn sgîl hynny cyfunwyd nifer o awdurdodaethau tribiwnlysoedd yn Quebec http://www.taq.gouv.qc.ca/english/index.jsp. (cyrchwyd ar 20 Hydref 2009).

31 Ym mis Mawrth 2008 cyhoeddodd llywodraeth Queensland ei bwriad i sefydlu tribiwnlys sifil a gweinyddol cyfunol ac mae'n bwriadu ei roi ar waith erbyn diwedd 2009. Yn Victoria ceir Tribiwnlys Sifil a Gweinyddol cyfun Victoria (VCAT) ac yn Ne Cymru Newydd ceir Tribiwnlys Penderfyniadau Gweinyddol (ADT). Yn 1998 bu ymgais i sefydlu tribiwnlys cyfun ar lefel y Gymanwlad, ond trechwyd hynny yn y Senedd. Yng Ngorllewin Awstralia, Tasglu Adolygu'r Tribiwnlys Adolygu Gweinyddol, Western Australian Civil and Administrative Review Tribunal Taskforce report on the establishment of the State Administrative Tribunal, Perth, Mai 2002.

32 Tribunals in New Zealand: Issues Paper, Comisiwn Cyfraith Seland Newydd, Wellington, Seland Newydd, Ionawr 2008.

33 Daeth y system newydd hon i fodolaeth ym mis Tachwedd 2007 o dan Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007 ac mae diwygiadau yn mynd rhagddynt o hyd, gydag awdurdodaethau yn cael eu hychwanegu'n raddol.

Nghymru. Eto i gyd, o ystyried y llwythi achosion bach yng Nghymru, yn ein barn ni, gellid cyfuno awdurdodaethau rhai tribiwnlysoedd yn ôl pwnc er mwyn sicrhau arbedion maint, effeithlonrwydd gweinyddol a gwella cyfleoedd i aelodau eistedd yn rheolaidd. Dylai hyn arwain at well profiad i ddefnyddwyr tribiwnlysoedd yn y pen draw, a gwell gwerth am arian i drethdalwyr.

76. Posibilrwydd amlwg yw creu 'Tribiwnlys Addysg', sy'n cyfuno awdurdodaethau'r Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig, y Paneli Apêl Derbyniadau Ysgol a'r Paneli Apêl Gwaharddiadau Ysgol. Ni ellir gor-ddweud pwysigrwydd mynediad at addysg, ac mae tribiwnlys annibynnol o safon dda yn y maes hwn o bwys arbennig. Yn enwedig o ystyried y penderfyniad diweddar i roi hawl i apelio i TAAAC i blant a'r ddarpariaeth bresennol i apelio i'r Paneli Apêl Gwaharddiadau Ysgol i rai plant.

77. Ar hyn o bryd, gweinyddir Paneli Apêl Derbyniadau a Gwaharddiadau gan Awdurdodau Lleol unigol heb fawr ddim rhyngweithio. Ni chaiff data ei gasglu'n ganolog ac nid oes cofnod o ganlyniadau ychwaith ac yn bwysicaf fyth, nid ydynt yn gwbl annibynnol. Ar y llaw arall, dengys canlyniadau ein harolwg a'n hymweliadau i wrandawiadau fod TAAAC yn cael ei weinyddu'n dda, ei fod yn gweithredu grwpiau defnyddwyr effeithiol, a'i fod yn cynnwys aelodau arbenigol a rhai â chymwysterau cyfreithiol. Ymddengys ei fod mewn sefyllfa dda i ymdopi ag awdurdodaeth addysg estynedig, o gael yr adnoddau ychwanegol priodol. Byddai'r trefniant hwn yn unigryw i Gymru, a chredwn y byddai nifer yr achosion a safon y farnwriaeth a'r staff cymorth yn fodd i greu canolfan ragoriaeth ac arfer gorau.

78. Ymhlith yr awdurdodaethau posibl eraill a allai elwa drwy gyfuno mae'r Tribiwnlysoedd Prisio, y Tribiwnlys Eiddo Preswyl a Thribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru i ffurfio 'Tribiwnlys Tir a Threthiant Lleol'. Cyfyd rhai anawsterau sylweddol mewn cysylltiad â hyn, yn bennaf y ffaith bod yr Arglwydd Ganghellor yn gyfrifol am y rheolau gweithdrefnol a'r penodiadau mewn rhai o'r awdurdodaethau hyn a Gweinidogion Cymru yn gyfrifol am eraill. Hefyd, nodwyd nifer o broblemau o ran gweithredu'r Tribiwnlysoedd Prisio mewn adolygiad gan Martin Rolph a noddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, ac nid yw'r rhain wedi cael eu datrys eto[34]. Fodd bynnag, os gellir datrys y problemau hyn, credwn fod manteision sylweddol yn deillio o greu tribiwnlys tir a threth.

***Argymhelliad 4:***

**Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ac Awdurdodau Lleol ystyried uno awdurdodaethau tribiwnlysoedd yng Nghymru yn briodol yn ôl pwnc.**

34 Adolygiad o Dribiwnlysoedd Prisio Cymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Mawrth 2007, yn http://new.wales.gov.uk/dsjlg/publications/localgov/valuation/item?lang=en&ts=1 (cyrchwyd ar 6 Hydref 2009).

**Barnwriaeth y Tribiwnlysoedd**

79. Er bod ymdrechion yn y gorffennol, nid oes rhyngweithio strwythuredig rhwng arweinwyr barnwrol pob tribiwnlys yng Nghymru ar hyn o bryd, ac nid oes fawr ddim rhyngweithio anffurfiol. Mae gwell cyfathrebu a chydweithio rhwng barnwriaeth y tribiwnlysoedd yng Nghymru yn gam pwysig tuag at sefydlu system dribiwnlysoedd fwy integredig a chydgysylltiedig. Er mwyn diwygio'r tribiwnlysoedd mae angen arweiniad cadarn nid yn unig gan y Cynulliad Cenedlaethol a'r llywodraeth ond hefyd gan farnwriaeth y tribiwnlysoedd, eu haelodau a'u staff cymorth, a fydd yn hanfodol i weithredu diwygiadau yn llwyddiannus. Credwn hefyd y dylai cyfathrebu a chydweithredu rhwng tribiwnlysoedd yng Nghymru â thribiwnlysoedd trawsffiniol gael eu gwella. Mae lle i greu fforwm ar gyfer tribiwnlysoedd yng Nghymru a thribiwnlysoedd trawsffiniol i rannu arfer gorau a thrafod materion cyffredin.

80. Dylid sefydlu grŵp sy'n cynnwys arweinwyr pob tribiwnlys yng Nghymru i rannu arfer gorau, trafod problemau a materion cyffredin, a hyrwyddo cysondeb o ran arfer ym mhob tribiwnlys lle y bo modd. Byddai'r grŵp hwn yn chwarae rhan annatod o ran gweithredu llawer o'r argymhellion yn yr adroddiad hwn a hyrwyddo barn gyfannol o'r ffordd y gweinyddir cyfiawnder gweinyddol yng Nghymru.

***Argymhelliad 5:***

**Dylai arweinwyr barnwrol a gweinyddwyr pob tribiwnlys yng Nghymru gydweithio ar faterion o ddiddordeb cyffredin a thuag at weithredu'r argymhellion yn yr adroddiad hwn.**

**Y Cynulliad Cenedlaethol**

81. Credwn y dylai'r Cynulliad Cenedlaethol ddod yn bartner allweddol o ran goruchwylio'r system cyfiawnder gweinyddol. Mae'r materion a amlinellwyd yn yr adroddiad hwn, megis diffyg annibyniaeth tribiwnlysoedd, cyfleoedd ar gyfer arferion mwy effeithiol, effeithlon a darbodus, a phrinder gwybodaeth hawdd ei defnyddio, yn awgrymu bod angen i'r Cynulliad Cenedlaethol graffu ar gyfiawnder gweinyddol a pholisi a gweinyddiaeth tribiwnlysoedd.

82. Nid yw strwythur Pwyllgorau cyfredol y Cynulliad Cenedlaethol yn gweithio'n dda o ran goruchwylio cyfiawnder gweinyddol yn ei gyfanrwydd. Mae'r pedwar Pwyllgor craffu, er eu bod yn drawsadrannol, yn cael eu trefnu ar sail: Cymunedau a Diwylliant; Menter a Dysgu; Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol; a Chynaliadwyedd. Er y gall y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc a'r Pwyllgor Deddfwriaeth ystyried agweddau ar gyfiawnder gweinyddol, nid yw eu cylch gwaith yn ymestyn i bob rhan o'r system cyfiawnder gweinyddol. Byddem yn croesawu mesurau i sicrhau proses graffu wedi'i chydgysylltu o'r gwaith o weithredu ein hargymhellion ar draws y llywodraeth.

***Argymhelliad 6:***

**Dylai'r Cynulliad Cenedlaethol graffu ar y ffordd y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gweithredu'r argymhellion yn yr adroddiad hwn, a monitro hynny, gan gynnwys cynnal dadl mewn cyfarfod llawn.**

## ARGYMHELLION ERAILL

Mae'r argymhellion canlynol yn amlinellu meysydd ar gyfer gwaith a diwygiadau pellach y dylai'r Cynulliad Cenedlaethol, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Awdurdodau Lleol a barnwriaeth a gweinyddwyr y tribiwnlysoedd ganolbwyntio arnynt yn ein barn ni, o leiaf ar y cychwyn.

### Hygyrchedd

*Gwybodaeth*

83. Mae unigolion yn cael gwybod am eu hawl i apelio neu wneud cais i dribiwnlys mewn sawl ffordd wahanol – er enghraifft, gallant gael y wybodaeth hon mewn llythyr sy'n cynnwys y penderfyniad gwreiddiol, gallant fynd i wefan tribiwnlys, neu gallant gael eu cynghori gan eiriolwr neu ddarparwr cyngor. Yn yr un modd, gallant gael gwybod am weithdrefnau a ffurflenni tribiwnlysoedd mewn sawl ffordd wahanol – gan gynnwys cael llyfrynnau a thaflenni gan y tribiwnlys, cyngor gan staff gweinyddol tribiwnlys neu gyngor gan eiriolwr. Rhoddir DVD i rieni sy'n ymddangos gerbron TAAAC, sy'n manylu ar yr hyn y gellir ei ddisgwyl yn y gwrandawiad. Dengys canlyniadau ein harolwg hefyd fod tribiwnlysoedd yn cofnodi penderfyniadau a'u cyfleu i ddefnyddwyr mewn amryw ffyrdd.

84. Bydd dulliau cyfathrebu gwahanol yn briodol i gynulleidfaoedd a thribiwnlysoedd gwahanol, a bydd llawer yn dibynnu ar y pwnc a chymhlethdod y materion dan sylw. Dylai unrhyw wybodaeth gael ei llunio gan roi sylw i anghenion defnyddwyr tribiwnlysoedd a dylai ffurflenni a rheolau gweithdrefnol tribiwnlysoedd fod mor fyr, clir, syml a chyfoes â phosibl. Dylai gwybodaeth bob amser fod ar gael yn Gymraeg, ac mewn ieithoedd eraill lle y bo'n briodol.

85. Credwn fod angen gwneud rhagor o waith i ganfod sut yn union y mae gwybodaeth yn cael ei rhoi i ddefnyddwyr tribiwnlysoedd ar hyn o bryd, y dulliau sydd fwyaf defnyddiol i'r defnyddiwr, a'r ffordd y gellid gwella a safoni'r sefyllfa gyfredol lle y bo modd. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, nodi'r strategaethau mwyaf effeithiol drwy gynnal arolygon neu gyfweld defnyddwyr tribiwnlysoedd.

***Argymhelliad 7:***

**Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ac arweinwyr barnwrol a gweinyddwyr tribiwnlysoedd yng Nghymru gydweithio i sicrhau bod y wybodaeth a roddir i ddefnyddwyr tribiwnlysoedd yn glir, yn gynhwysfawr ac yn hygyrch.**

*Gweithdrefnau*

86. Dylai gweithdrefnau tribiwnlysoedd fod yn galluogi ac yn ystyried y ffaith bod arfau anghyfartal yn aml rhwng y llywodraeth a defnyddiwr y tribiwnlys. Mewn sawl achos ni fydd unigolyn sy'n ymddangos gerbron tribiwnlys yn cael ei gynrychioli, a dylai gweithdrefnau tribiwnlysoedd gydnabod hynny a darparu ar ei gyfer, fel y dylai hyfforddiant i aelodau tribiwnlysoedd wrth gynnal gwrandawiadau.

87. Ffactor pwysig arall o safbwynt defnyddiwr tribiwnlys yw unrhyw ffioedd neu gostau sy'n gysylltiedig â'r gwrandawiad. Credwn y dylai tribiwnlysoedd yng Nghymru barhau i weithredu ar y gost leiaf bosibl i ddefnyddwyr tribiwnlysoedd a dylai gwybodaeth am unrhyw ffioedd a chostau fod ar gael yn hawdd i ddefnyddwyr tribiwnlysoedd.

***Argymhelliad 8:***

**Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ac arweinwyr barnwrol a gweinyddwyr tribiwnlysoedd yng Nghymru gydweithio i sicrhau yn y lle cyntaf, bod ffurflenni a gweithdrefnau tribiwnlysoedd yn glir ac yn syml ac wedi'u cynllunio er hwylustod defnyddwyr tribiwnlysoedd.**

*Cyngor a Chynrychiolaeth*

88. Mae anghysondeb o ran y gwasanaethau cynghori sydd ar gael i ddefnyddwyr tribiwnlysoedd, a'r cymorth a roddir iddynt, o ran tribiwnlysoedd yng Nghymru a thribiwnlysoedd trawsffiniol. Er enghraifft, mae rhieni a phobl ifanc sydd am apelio i TAAAC yn cael cymorth arbenigol gan sefydliadau megis SNAP Cymru, sydd, mewn rhai achosion, yn cynnwys eiriolwr i'w cynrychioli yn y gwrandawiad. Efallai y bydd unigolyn sydd am apelio yn erbyn penderfyniad o ran gwasanaethau cymdeithasol a'r hawl i gael budd-daliadau yn cael cyngor arbenigol a chynrychiolaeth gan sefydliadau megis asiantaeth gynghori annibynnol neu Uned Hawliau Lles Awdurdod Lleol.

89. Dim ond mewn achosion sy'n ymwneud â lloches ac adolygu iechyd meddwl y mae cynrychiolaeth â chymorth cyfreithiol ar gael, fel hawl. Efallai y bydd gwasanaethau cymorth cyfreithiol a noddir gan y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol neu Awdurdodau Lleol ar gael mewn nifer o achosion eraill (megis ar gyfer cyflogaeth, budd-daliadau, tai ac anghydfodau eraill) ond ni fydd hyn fel arfer yn cynnwys cynrychiolaeth gerbron tribiwnlys. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyflwyno gwasanaethau eiriolaeth i blant a phobl ifanc a grwpiau eraill sy'n agored i niwed.

90. Ceir nifer o fentrau gwahanol gan y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol, Llywodraeth Cynulliad Cymru, y sector nid er elw ac Awdurdodau Lleol. Fodd bynnag, nid yw'n sicr a yw'r cyngor a'r cymorth sydd ar gael i ddefnyddwyr tribiwnlysoedd, a defnyddwyr y system cyfiawnder gweinyddol yn fwy cyffredinol, yn ddigonol, yn hygyrch ac yn ddealladwy ledled Cymru. Er bod y mater hwn y tu hwnt i gwmpas yr adroddiad hwn, mae'n fater pwysig sy'n haeddu rhagor o ymchwil sylweddol ac astudiaeth bellach. Byddai angen i unrhyw brosiect yn y maes hwn ystyried y gwaith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd gan sefydliadau eraill, gan gynnwys Llywodraeth Cynulliad Cymru, ar ariannu gwasanaethau cynghori yng Nghymru[35] a'r Ganolfan Ymchwil Gwasanaethau Cyfreithiol[36].

***Argymhelliad 9:***

**Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gynnal adolygiad o'r cyngor cyffredinol ac arbenigol sydd ar gael i ddefnyddwyr tribiwnlysoedd, ac a oes unrhyw fylchau yn y cyngor a ddarperir.**

35 Gweler Ymgynghoriad ar Sefydlu Model Comisiynu Gwasanaethau Cynghori Amgen ar gyfer Arian Awdurdodau Lleol a Llywodraeth y Cynulliad yng Nghymru, http://www.dglegal.co.uk/consultations.html (cyrchwyd ar 8 Hydref 2009).



36 Am brosiectau cyfredol y Ganolfan Ymchwil Gwasanaethau Cyfreithiol, gweler http://www.lsrc.org.uk/projects.htm

*Ymgysylltu â Defnyddwyr*

91. Er mwyn hyrwyddo ymagwedd sy'n canolbwyntio ar y dinesydd tuag at wasanaethau tribiwnlysoedd, mae'n bwysig bod barnwriaeth y tribiwnlysoedd a'r llywodraeth yn ymgysylltu'n effeithiol â defnyddwyr tribiwnlysoedd ac yn gofyn am adborth ganddynt, fel y gellir teilwra arferion a gweithdrefnau i ddiwallu eu hanghenion.

92. Efallai y bydd angen strategaethau gwahanol ar gyfer awdurdodaethau gwahanol. Lle mae llwythi achosion a niferoedd defnyddwyr yn eithaf bach, mae lle o leiaf i gynnig cyfle i ddefnyddwyr gwblhau arolwg o gwsmeriaid ar ddiwedd y gweithrediadau. Dylid hefyd ddefnyddio grwpiau defnyddwyr tribiwnlysoedd mewn rhai o'r tribiwnlysoedd mwyaf.

***Argymhelliad 10:***

**Dylai arweinwyr barnwrol a gweinyddwyr tribiwnlysoedd yng Nghymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru sicrhau bod strategaeth briodol i ymgysylltu â defnyddwyr tribiwnlysoedd ar gyfer pob awdurdodaeth.**

*Polisi a Gweithdrefn Gwyno*

93. Dangosodd ein harolwg nad oes gan lawer o dribiwnlysoedd bolisïau cwyno ac nad ydynt yn casglu gwybodaeth am nifer y cwynion a'r math o gwynion a gyflwynwyd iddynt, nac yn gofyn am adborth gan y rhai sy'n bresennol mewn gwrandawiadau neu sydd fel arall wedi ymwneud â thribiwnlysoedd. Dylid unioni'r sefyllfa hon, gan fod monitro cwynion yn effeithiol yn ffynhonnell werthfawr o adborth o ran amlygu meysydd lle mae angen gwelliant.

94. Dylai fod gan bob tribiwnlys bolisi a gweithdrefnau cwyno mewn perthynas â pherfformiad aelodau a gweinyddwyr, yn seiliedig ar ganllawiau ar ymdrin â chwynion a roddwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru[37]. Yn sgîl sefydlu gweinyddiaeth ganolog i dribiwnlysoedd, efallai y bydd yn fwy effeithiol o ran adnoddau i gyflwyno polisi cwyno cyffredin i bob tribiwnlys. Byddai hyn hefyd yn sicrhau bod gwersi a ddysgwyd oddi wrth gwynion yn arwain at welliant mewn arferion ym mhob tribiwnlys yng Nghymru yn y dyfodol.

***Argymhelliad 11:***

**Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ac arweinwyr barnwrol tribiwnlysoedd yng Nghymru sefydlu polisi a gweithdrefn gwyno ar gyfer pob tribiwnlys yng Nghymru, yn seiliedig ar ganllawiau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.**

*Yr Iaith Gymraeg*

95. Dylai defnyddwyr tribiwnlysoedd sydd am gynnal gweithrediadau yn Gymraeg fod yn gallu disgwyl gwasanaeth cyson a digonol ym mhob tribiwnlys yng Nghymru. Awgryma canlyniadau ein harolwg er bod y rhan fwyaf o dribiwnlysoedd yn gallu ymdrin ag apeliadau yn Gymraeg, mae rhai tribiwnlysoedd yn fwy parod ac yn meddu ar fwy o adnoddau yn y maes hwn nag eraill.

37 Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi cyhoeddi nifer o ganllawiau i gyrff cyhoeddus ar ymdrin â chwynion, unioni a gweinyddu da. Mae'r rhain ar gael ar wefan yr Ombwdsmon yn http://www.ombudsman-wales.org.uk/en/guidance-to-public-bodies/.

96. Credwn y dylai pob tribiwnlys yng Nghymru fabwysiadu Cynllun Iaith Gymraeg cyffredin, sy'n amlinellu'r ffordd y byddant yn gweithredu'r egwyddor a sefydlwyd gan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 y dylai'r Gymraeg a'r Saesneg gael eu trin ar y sail eu bod yn gyfartal wrth gynnal busnes cyhoeddus a gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru. Yn ogystal â sicrhau bod pob tribiwnlys yn gweithredu i'r un safonau, gallai cynllun cyffredin leihau baich gweinyddol pob tribiwnlys o ran creu a chyhoeddi ei gynllun ei hun a rhoi cyfle ar gyfer mentrau hyfforddi iaith Gymraeg ar y cyd.

97. Dylai hefyd fod cysondeb o ran hyfforddiant iaith Gymraeg i aelodau tribiwnlysoedd. Wrth lunio'r cynllun hyfforddiant hwn, dylid rhoi sylw i waith Pwyllgor Sefydlog yr Arglwydd Ganghellor ar yr iaith Gymraeg. Dylai'r Protocol Hyfforddi i Asiantaethau Cyfiawnder yng Nghymru a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Sefydlog ym mis Gorffennaf 2008 gael ei roi ar waith mewn tribiwnlysoedd yng Nghymru.

***Argymhelliad 12:***

**Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ac arweinwyr barnwrol a gweinyddwyr tribiwnlysoedd yng Nghymru weithio gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg a'r Gwasanaeth Tribiwnlysoedd i lunio Cynllun Iaith Gymraeg cyffredin ar gyfer pob tribiwnlys yng Nghymru.**

*Lleoliadau Gwrandawiadau*

98. Dangosodd ein harolwg fod y rhan fwyaf o dribiwnlysoedd yng Nghymru yn defnyddio gwestai a lleoliadau dros dro eraill ar gyfer gwrandawiadau tribiwnlysoedd. Deallwn yr arfer hwn, o ystyried llwythi achosion bach y rhan fwyaf o dribiwnlysoedd sy'n golygu nad yw'n ddichonadwy nac yn ddarbodus i dribiwnlysoedd yng Nghymru brydlesu canolfannau parhaol ar gyfer gwrandawiadau. Cydnabyddwn hefyd nad yw cyfleusterau ffurfiol llysoedd yn aml yn briodol ar gyfer gwrandawiadau tribiwnlysoedd, yn enwedig lle mae angen anffurfioldeb megis yn achosion TAAAC a Gwaharddiadau Ysgol. Fodd bynnag, mewn rhai achosion efallai fod lle i ddefnyddio lleoliadau gwrandawiadau'r Gwasanaeth Tribiwnlysoedd a chyfleusterau llai ffurfiol y gwasanaeth llys.

99. Wrth drefnu lleoliadau gwrandawiadau, y brif flaenoriaeth ddylai fod hygyrchedd i ddefnyddwyr. Fe'n calonogwyd gan y ffaith i'r rhan fwyaf o dribiwnlysoedd yng Nghymru ymateb i'n harolwg drwy nodi bod lleoliadau gwrandawiadau yn cael eu dewis er cyfleuster y partïon. Credwn y dylai fod polisi cyffredin i dribiwnlysoedd yng Nghymru ar gyfer lleoliadau gwrandawiadau er mwyn hyrwyddo safonau cyson. Gallai hyn gynnwys safonau ar y pellter mwyaf oddi wrth bartïon, mynediad at gysylltiadau trafnidiaeth, mynediad i bobl anabl, cyfleusterau lluniaeth, ac ystafelloedd aros ar wahân i bartïon.

***Argymhelliad 13:***

**Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ac arweinwyr barnwrol a gweinyddwyr tribiwnlysoedd yng Nghymru lunio polisi ynglŷn â safonau lleoliadau gwrandawiadau, gan ganolbwyntio ar anghenion defnyddwyr tribiwnlysoedd.**

*Adroddiadau Blynyddol a Monitro Perfformiad*

100. Roeddem yn pryderu nad yw'r rhan fwyaf o dribiwnlysoedd yng Nghymru yn paratoi adroddiadau blynyddol. At hynny, nid yw pob tribiwnlys yng Nghymru yn casglu nac yn coladu data cywir ar faterion megis llwyth achosion, canlyniadau achosion a gwariant tribiwnlysoedd. Mae'r ffordd y cesglir data ymhlith tribiwnlysoedd hefyd yn anghyson. Er enghraifft, mae rhai tribiwnlysoedd yn mesur llwyth achosion yn ôl y flwyddyn ariannol, ac eraill yn ôl y flwyddyn galendr.

101. Er mwyn sicrhau mwy o atebolrwydd i'r cyhoedd, credwn y dylai pob tribiwnlys yng Nghymru baratoi adroddiad blynyddol o'i weithgareddau, gan gynnwys gwybodaeth megis: nifer yr apeliadau a'r math o apeliadau ac unrhyw dueddiadau; nifer aelodau a staff; manylion am hyfforddiant i aelodau a staff a gwybodaeth am gwynion. Dylai hefyd gynnwys, lle y bo modd, adborth i benderfynwyr gwreiddiol.

102. Dylai'r manyldeb a'r wybodaeth sydd eu hangen fod yn gymesur â gweithgarwch y tribiwnlys ac efallai na fydd angen adroddiad llawn mewn rhai achosion. Er enghraifft, mae Panel Dyfarnu Cymru fel arfer yn paratoi Adroddiad Blynyddol. Fodd bynnag, oherwydd y nifer fach o achosion gerbron y tribiwnlys yn 2008/09, yn lle adroddiad penderfynodd gyhoeddi llythyr at randdeiliaid â diddordeb, yn crynhoi gweithgareddau'r tribiwnlys ar gyfer y flwyddyn.

***Argymhelliad 14:***

**Dylai barnwriaeth a gweinyddwyr tribiwnlysoedd yng Nghymru sicrhau bod pob tribiwnlys yng Nghymru yn casglu data cyson ar reoli perfformiad ac yn paratoi adroddiad blynyddol o'i weithgareddau.**

## Effeithlonrwydd ac Effeithiolrwydd

*Adnoddau a Chymorth*

103. Mae'r adnoddau, y cymorth gweinyddol a mathau eraill o gymorth sydd ar gael i dribiwnlysoedd yng Nghymru yn amrywio'n sylweddol, hyd yn oed o ystyried y gwahanol lwythi achosion a chymhlethdod y pwnc dan sylw. Byddai system symlach a chyfunol yn gallu manteisio ar arbedion maint a dosbarthu adnoddau'n decach ymhlith y tribiwnlysoedd. Er enghraifft, byddai'n fodd i gyfuno staff gweinyddol a chymorth, lleoliadau gwrandawiadau, systemau TG, a swyddfeydd yr Ysgrifenyddiaeth.

104. Mae cymorth gweinyddol cyfun hefyd yn golygu bod lle i rannu staff ac adnoddau rhwng tribiwnlysoedd er mwyn ymdopi â chyfnodau prysur a thawel o ran galw a llwythi gwaith sy'n amrywio'n fawr. Yna gallai'r arbedion a ddeuai yn sgîl y system newydd hon gael eu hailfuddsoddi ar gyfer prosiectau i wella'r system dribiwnlysoedd, er enghraifft, gwella'r cymorth a'r wybodaeth sydd ar gael i ddefnyddwyr tribiwnlysoedd.

***Argymhelliad 15:***

**Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ystyried ffyrdd o ddefnyddio adnoddau tribiwnlysoedd yn fwy effeithlon.**

*Hyfforddi ac Arfarnu*

105. Mae'r math o systemau hyfforddi, arfarnu a rheoli perfformiad i aelodau tribiwnlysoedd, eu hamlder a'u hansawdd yn amrywio'n fawr iawn. Rydym yn pryderu am y sefyllfa hon, gan fod safon a phrofiad aelodau tribiwnlysoedd yn cael effaith uniongyrchol sylweddol ar brofiad defnyddwyr tribiwnlysoedd a safon penderfyniadau barnwrol.

106. Credwn y dylid, o leiaf, ddarparu rhaglenni sefydlu a hyfforddi ar gyfer cadeiryddion, aelodau a staff tribiwnlysoedd. Dylai cadeiryddion tribiwnlysoedd gael hyfforddiant arbennig mewn sgiliau cadeirio, a dylid rhoi canllawiau'n rheolaidd i aelodau ynglŷn â materion cyfreithiol ac arfer. Mae hyfforddiant ym maes amrywiaeth a thriniaeth gyfartal hefyd yn bwysig.

107. Dylid pennu a monitro safonau perfformiad barnwrol. Dylai pob cadeirydd ac aelod gymryd rhan mewn adolygiad o'u perfformiad o bryd i'w gilydd fel y bo'n briodol er mwyn nodi meysydd o berfformiad da a meysydd ar gyfer gwella. Dylai'r adolygiadau hyn gael eu cynnal gan gydweithwyr sy'n meddu ar brofiad addas ac sydd wedi cael hyfforddiant addas i roi adborth adeiladol. Wrth lunio cynlluniau hyfforddi ac arfarnu, dylid ystyried gwaith y Bwrdd Astudiaethau Barnwrol.

108. Rydym hefyd yn pryderu bod llwythi achosion bach rhai tribiwnlysoedd yng Nghymru yn golygu nad yw aelodau'n eistedd yn ddigon aml i barhau i fod yn hyfedr ac mae angen adolygu nifer aelodau tribiwnlysoedd mewn rhai awdurdodaethau. Er mwyn cynyddu'r cyfleoedd i aelodau eistedd, dylid ystyried y posibilrwydd o benodi aelodau i fwy nag un awdurdodaeth.

***Argymhelliad 16:***

**Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru sicrhau bod gan dribiwnlysoedd gyllideb ddigonol ar gyfer hyfforddi, arfarnu a monitro perfformiad aelodau.**

***Argymhelliad 17:***

**Dylai arweinwyr barnwrol a gweinyddwyr tribiwnlysoedd yng Nghymru sicrhau bod gan dribiwnlysoedd systemau hyfforddi, arfarnu a monitro perfformiad priodol ar waith.**

***Argymhelliad 18:***

**Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ac arweinwyr barnwrol a gweinyddwyr tribiwnlysoedd yng Nghymru edrych ar opsiynau i sicrhau bod aelodau tribiwnlysoedd yn cael cyfle i eistedd yn ddigon aml er mwyn iddynt gynnal gwybodaeth a sgiliau.**

**Cydlyniant**

*Fframwaith ar gyfer sefydlu tribiwnlysoedd newydd*

109. Mae llawer o'r problemau a nodwyd gennym yn deillio o'r ffordd mae tribiwnlysoedd wedi datblygu mewn modd *ad hoc* a digynllun. Credwn fod angen canllawiau i sicrhau nad yw tribiwnlysoedd yn parhau i ddatblygu yn y modd hwn. Dylai'r canllawiau hyn nodi, ymhlith pethau eraill, y canlynol:

- Cyn i dribiwnlys newydd gael ei sefydlu, dylid ystyried ai tribiwnlys yw'r dull gwneud iawn mwyaf addas yn hytrach nag adolygiad mewnol neu allanol, yr Ombwdsmon neu'r llysoedd;
- A ddylid rhoi awdurdodaeth i dribiwnlys sy'n bodoli eisoes, neu a ddylid creu tribiwnlys newydd;
- Dylai unrhyw dribiwnlysoedd newydd gydymffurfio â'r egwyddorion a amlinellir yn Rhan 2 o'r adroddiad hwn.

110. Dylai'r canllawiau fod yn gymwys i bob un o Adrannau Llywodraeth Cynulliad Cymru a dylid ymgynghori ag Adran y Prif Weinidog a'r Cabinet ynglŷn â sefydlu unrhyw dribiwnlysoedd newydd.

***Argymhelliad 19:***

**Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru sefydlu tribiwnlysoedd newydd mewn ffordd gyson a chydlynol.**

*Apeliadau*

111. Mae canlyniadau ein harolwg yn dangos bod amrywiaeth mawr o ran hawl i apelio a llwybrau apelio o dribiwnlysoedd yng Nghymru. Mewn rhai awdurdodaethau dim ond mewn cysylltiad â phwynt cyfreithiol y gellir cyflwyno apêl, ac mewn eraill caniateir apêl ar sail camgymeriadau honedig o ran y gyfraith a ffeithiau. Gellir cyflwyno apêl i'r Uwch Dribiwnlys, neu'r Uchel Lys ar apêl neu adolygiad barnwrol.

***Argymhelliad 20:***

**Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru sicrhau bod hawliau priodol i apelio o dribiwnlysoedd.**

*Gwella Penderfyniadau Gwreiddiol*

112. Mae tribiwnlysoedd yn rhan annatod o'r system cyfiawnder gweinyddol. Mae'n bwysig bod y broses o'r penderfyniad gwreiddiol, drwy systemau cwyno mewnol ac allanol, tribiwnlysoedd, llysoedd a'r Ombwdsmon yn gydlynol ac yn ategu ei gilydd. Mae'r un mor bwysig bod gwersi yn cael eu dysgu oddi wrth benderfyniadau tribiwnlysoedd a'u hymgorffori yn y system. Er mwyn i hyn ddigwydd, mae angen sianeli cyfathrebu da rhwng tribiwnlysoedd a'r penderfynwyr gwreiddiol.

113. Mae grwpiau defnyddwyr TAAAC yn enghraifft dda o adborth effeithiol o dribiwnlys i benderfynwyr gwreiddiol. Cynhelir cyfarfodydd ddwywaith y flwyddyn mewn tri lleoliad ledled Cymru ac mae penderfynwyr gwreiddiol Awdurdodau Lleol, ymhlith eraill, yn bresennol. Maent yn rhoi cyfle i Lywydd y tribiwnlys dynnu sylw at feysydd lle na fu penderfyniadau gwreiddiol yn dderbyniol ac i drafod penderfyniadau pwysig gan y tribiwnlys a all effeithio ar waith Awdurdodau Lleol[38].

***Argymhelliad 21:***

**Dylai arweinwyr barnwrol a gweinyddwyr tribiwnlysoedd yng Nghymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru ac Awdurdodau Lleol gydweithio i sicrhau bod gwersi a ddysgwyd oddi wrth benderfyniadau tribiwnlysoedd yn arwain at welliannau mewn penderfyniadau gwreiddiol, a thrwy hynny at wasanaeth gwell a mwy effeithlon i'r cyhoedd yng Nghymru.**



38 Mills, S. 'SENTW Tribunal User Group Meetings – The Tribunal's Perspective', *Adjust*, Mawrth 2009.

# Atodiad A: Aelodaeth o Bwyllgor Cymru y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd



**Yr Athro Syr Adrian Webb (Cadeirydd):** Cadeirydd Ymddiriedolaeth GIG Pontypridd a Rhondda hyd at ddiwedd mis Mawrth 2008. Bu hefyd yn aelod anweithredol o Fwrdd Gweithredol Llywodraeth Cynulliad Cymru tan yn ddiweddar. Bu'n Is-Ganghellor Prifysgol Morgannwg hyd at fis Rhagfyr 2005. Bu gynt yn academydd yn Ysgol Economeg Llundain ac yn Athro Polisi Cymdeithasol ym Mhrifysgol Loughborough. Mae wedi bod yn aelod o sawl pwyllgor ac wedi ymgymryd â sawl rôl cynghori yn Whitehall ac yng Nghymru gan gynnwys Panel Cynhyrchiant Gwasanaethau Cyhoeddus Trysorlys EM, ac mae wedi cadeirio sawl ymchwiliad cenedlaethol. Bu'n aelod o'r Tîm Adolygu a gyflwynodd adroddiad i Lywodraeth Cynulliad Cymru yn 2006 ar Ddarparu Gwasanaethau Lleol ("Adolygiad Beecham") ac yn Gadeirydd yr adolygiad o Addysg Ôl-14 yng Nghymru (Adolygiad Webb, a gyhoeddwyd fel "Addewid a Chyflawniad" ym mis Rhagfyr 2007). Cafodd ei fagu yn Ne Cymru lle mae'n byw ar hyn o bryd.



**Bob Chapman:** Ymgynghorydd rheoli rhan-amser sy'n gweithio'n bennaf yn y sector cyfreithiol, ac Aelod o Fwrdd Llais Defnyddwyr Cymru. Ar ôl gweithio am 25 mlynedd ym maes gwaith cyngor mewn Canolfannau Cyngor ar Bopeth ac Unedau Hawliau Lles awdurdodau lleol ymunodd â'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol lle daeth yn Gyfarwyddwr Cymru dros dro cyn ymddeol yn gynnar yn 2007. Mae'n llywodraethwr ysgol, a than yn ddiweddar bu'n aelod o Fwrdd Ymddiriedolwyr Shelter Cymru (Welsh Housing Aid Ltd.)



**Gareth Lewis:** Aelod o'r Tribiwnlys Apêl Cyflogaeth ac Aelod o Gyngor Prifysgol Cymru. Bu gynt yn Gyfarwyddwr rhan-amser Swyddfa Dyfarnwr Annibynnol Addysg Uwch, Ysgrifennydd Coleg Prifysgol Caerdydd a Dirprwy Brifathro a Chlerc Bwrdd Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru.



**Rhian Williams-Flew:** Nyrs iechyd meddwl gymwysedig a gweithiwr cymdeithasol cofrestredig. Mae'n Gomisiynydd Deddf Iechyd Meddwl i'r Comisiwn Ansawdd Gofal, Adolygwr Deddf Iechyd Meddwl i Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ac aelod o'r Tribiwnlys Haen Gyntaf (Iechyd Meddwl) yn Lloegr. Bu gynt yn ymchwilydd llawrydd i gwynion a wnaed gan ddefnyddwyr gwasanaethau cymdeithasol a gofalwyr ac yn Arolygydd Rheoliadol dros y Comisiwn Arolygu Gofal Cymdeithasol.



**Peter Tyndall:** Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Aelod *ex officio* o Bwyllgor Cymru y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd. Ef oedd Prif Weithredwr Cyngor Celfyddydau Cymru o 2001 hyd at 2008 a chyn hynny bu'n Bennaeth Addysg a Materion Diwylliannol yng Nghymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.



**Ann Abraham:** Ombwdsmon Senedd y DU ac Ombwdsmon Gwasanaeth Iechyd Lloegr. Aelod *ex officio* o'r Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd a'i Bwyllgor Cymreig a'i Bwyllgor yn yr Alban. Aelod *ex officio* o'r Comisiwn dros Weinyddu Lleol yn Lloegr. Cadeirydd Cymdeithas Ombwdsmyn Prydain ac Iwerddon 2004-2006 ac yn aelod o'i Phwyllgor Dilysu ar hyn o bryd.


**Robert Grindrod**
Secretary to the Welsh Committee
81 Chancery Lane
London WC2A 1BQ

020 7855 5200
enquiries@ajtc.gsi.gov.uk

# Atodiad B: Tribiwnlysoedd Trawsffiniol sy'n Gweithredu yng Nghymru

- Tribiwnlys Haen Gyntaf
  - Siambr Hawl Gymdeithasol
  - Siambr Iechyd, Addysg a Gofal Cymdeithasol (heb gynnwys awdurdodaethau Anghenion Addysgol Arbennig ac Iechyd Meddwl)
  - Siambr Pensiynau Rhyfel ac Iawndal i Aelodau o'r Lluoedd Arfog
  - Siambr Dreth
  - Siambr Rheoleiddio Cyffredinol
- Uwch Dribiwnlys
  - Siambr Apeliadau Gweinyddol
  - Siambr Treth a Siawnsri
  - Siambr Tiroedd
- Dyfarnwr Cofrestrfa Tir EM
- Tribiwnlys Lloches a Mewnfudo
- Tribiwnlys Apêl Cystadleuaeth
- Tribiwnlys Hawlfraint
- Tribiwnlys Cyflogaeth
- Tribiwnlys Apêl Cyflogaeth
- Awdurdod Apêl Gwasanaethau Iechyd Teuluol
- Panel Cydnabod Rhywedd
- Tribiwnlys Gwasanaethau Mewnfudo
- Comisiynydd Gwybodaeth
- Tribiwnlys Gwybodaeth
- Comisiwn Apeliadau Mewnfudo Arbennig

# Atodiad C: Canlyniadau'r Arolwg o Dribiwnlysoedd yng Nghymru

1. Ar ddechrau 2009 dosbarthwyd arolwg i bob tribiwnlys yng Nghymru gyda'r nod o gasglu gwybodaeth fanwl a chyson am nifer o faterion megis llwyth achosion, penodi aelodau, hyfforddiant a gwybodaeth a roddir i ddefnyddwyr tribiwnlysoedd. Ceir isod y wybodaeth a ddarparwyd gan gynrychiolwyr pob tribiwnlys. Er i ymdrechion gael eu gwneud i gadarnhau ei bod yn gywir, ni allwn warantu hynny. Mewn rhai achosion mae gwahaniaethau hefyd yn y ffordd y mae tribiwnlysoedd yn casglu ystadegau a data, yn enwedig o ran llwythi achosion.

2. Yn gyffredinol, mae'r data a gasglwyd yn dangos bod tribiwnlysoedd yng Nghymru wedi datblygu mewn ffordd *ad hoc*, sydd wedi arwain at system dribiwnlysoedd ddarniog. Ymddengys nad oes unrhyw egwyddorion sylfaenol na chyffredin ar gyfer gweithredu'r tribiwnlysoedd presennol, na sefydlu rhai newydd. Mae'r cymorth a'r wybodaeth sydd ar gael i ddefnyddwyr tribiwnlysoedd yn amrywio'n fawr ac mae lefelau gwahanol o adnoddau barnwrol a gweinyddol a llwybrau apelio gwahanol. Mewn rhai achosion gellir cyfiawnhau hyn oherwydd gwahanol bynciau a llwythi achosion (galw); mewn rhai eraill ymddengys nad oes unrhyw reswm ar sail egwyddor am yr amrywiadau.

### Awdurdodaethau

3. Mae tribiwnlysoedd 'Cymreig' sy'n gweithredu yng Nghymru yn cynnwys amryw awdurdodaethau gwahanol. Dyma grynodeb o'r diffiniad a roddir gan bob tribiwnlys:

**Tabl 1: Tribiwnlysoedd 'Cymreig' sy'n gweithredu yng Nghymru**

| Tribiwnlys | Disgrifiad byr o awdurdodaeth |
|---|---|
| Panel Dyfarnu Cymru (sefydlwyd 1 Hydref 2002) | Ystyried a yw aelodau etholedig neu gyfetholedig o gynghorau sir, cynghorau bwrdeistref sirol a chynghorau cymuned a thref, awdurdodau'r heddlu, awdurdodau tân ac achub ac awdurdodau parciau cenedlaethol yng Nghymru wedi torri cod ymddygiad statudol yr awdurdod. |
| Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru (sefydlwyd 1947) | Dyfarnu mewn anghydfodau rhwng landlordiaid amaethyddol a thenantiaid o dan Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986 ac anghydfodau ynglŷn â draenio mewn perthynas â chloddiau o dan Ddeddf Draenio Tir 1991. |
| Bwrdd Canolwyr Meddygol* | Dyfarnu apeliadau i ganolwyr meddygol o dan Gynllun Pensiwn Diffoddwyr Tân, Cynllun Pensiwn Diffoddwyr Tân Newydd a Chynllun Iawndal Diffoddwyr Tân[39]. |
| Pwyllgorau Coedwigaeth Cymru (sefydlwyd 2006)* | Adolygu'r penderfyniad i wrthod trwydded cwympo coed neu amodau'r drwydded honno, apelio yn erbyn hysbysiad ailstocio, adolygu cyfarwyddiadau i gwympo coed. |
| Paneli Adolygiad Annibynnol o Ddyfarniadau (IRDP) (sefydlwyd 2005) | Cynnig proses adolygu y gall darpar fabwysiadwyr ei defnyddio pan na fyddant yn cytuno â'r penderfyniad cymhwyso a wnaed gan eu hasiantaeth fabwysiadu. |



39 Bydd dyfarnu, er enghraifft, ynghylch a ddylai diffoddwr tan ymddeol am resymau meddygol ai peidio, a achoswyd anabledd diffoddwr tân gan anaf cymwys a gafwyd wrth gyflawni dyletswyddau, neu faint anabledd diffoddwr tân at ddibenion budd-daliadau anaf.

| Tribiwnlys | Disgrifiad byr o awdurdodaeth |
|---|---|
| Paneli Cwynion Gwasanaethau Cymdeithasol Annibynnol (sefydlwyd 1 Ebrill 2006) | Ystyried ymhellach gŵyn ynglŷn â gwasanaethau cymdeithasol (lle bodlonir meini prawf penodol). |
| Byrddau Iechyd Lleol yng Nghymru mewn perthynas â'u swyddogaethau o dan Reoliadau Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Pwyllgorau Gwasanaethau a'r Tribiwnlys) 1992* | Adolygu penderfyniadau Byrddau Iechyd Lleol mewn perthynas â'u swyddogaethau disgyblu o dan Reoliadau Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Pwyllgorau Gwasanaethau a'r Tribiwnlys) 1992[40]. |
| Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru (sefydlwyd 1959) | Adolygu achosion cleifion a gedwir yn gaeth o dan y Deddfau Iechyd Meddwl a chyfarwyddo rhyddhau unrhyw gleifion lle bodlonwyd y meini prawf statudol ar gyfer rhyddhau. |
| Paneli Apeliadau Arolygwyr Cofrestredig Addysg Feithrin (sefydlwyd 1999)* | Gwrando apeliadau gan Arolygwyr Cofrestredig Meithrinfeydd yn erbyn penderfyniad i dynnu eu henw oddi ar y Rhestr o Arolygwyr neu newid amodau eu cofrestriad. |
| Paneli Apeliadau Arolygwyr Cofrestredig Ysgolion (sefydlwyd 1999)* | Gwrando apeliadau gan Arolygwyr Ysgolion Cofrestredig yn erbyn penderfyniad i dynnu eu henw oddi ar y Rhestr o Arolygwyr neu newid amodau eu cofrestriad. |
| Y Tribiwnlys Eiddo Preswyl (sefydlwyd 1977) | Penderfynu ar apeliadau yn erbyn dyfarniadau ar rent teg, dyfarnu mewn anghydfodau ynglŷn â rhyddfreinio rhydd-ddaliadau a lesddaliadau a adnewyddir, ac ymdrin â nifer fawr o faterion tai eraill. |
| Paneli Apêl Derbyniadau Ysgol (sefydlwyd 1998) | Ystyried apeliadau yn erbyn penderfyniad gan awdurdod derbyn neu gyrff llywodraethu i wrthod derbyn plentyn. |
| Paneli Apêl Gwaharddiadau Ysgol (sefydlwyd 1996) | Gwrando apeliadau yn erbyn gwaharddiadau parhaol. |
| Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (sefydlwyd 1 Medi 2003) | Gwrando apeliadau gan rieni yn erbyn penderfyniadau gan Awdurdodau Addysg Lleol Cymru ynglŷn ag anghenion addysgol arbennig plant a phenderfynu arnynt a gwrando honiadau rhieni o wahaniaethu ar sail anabledd mewn ysgolion yng Nghymru a phenderfynu arnynt. |
| Tribiwnlys Cosbau Traffig (sefydlwyd Gorffennaf 1999) | Gwrando apeliadau yn erbyn Hysbysiadau Taliadau Cosb gan awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr (y tu allan i Lundain) sy'n gweithredu gorfodi parcio sifil a phenderfynu arnynt. |
| Tribiwnlysoedd Prisio Cymru | Ymdrin ag apeliadau sy'n deillio o Brisio Ardrethi Annomestig a bandiau'r Dreth Gyngor, atebolrwydd i dalu'r Dreth Gyngor ac ardrethi draenio. |

* *Llwythi achosion bach iawn sydd gan y tribiwnlysoedd hyn (ar gyfartaledd, llai na 2 achos y flwyddyn) ac nid ydynt wedi'u cynnwys yn y wybodaeth fanwl isod.*

40 Diddymwyd Rheoliadau Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Pwyllgorau Gwasanaethau a'r Tribiwnlys) 1992 ar 1 Ebrill 2004, wrth i'r contract ar gyfer Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol gychwyn. Daeth Rheoliadau Trosiannol i rym ar 1 Ebrill 2004 i ymdrin ag achosion a oedd heb eu penderfynu. Mae materion a gwmpaswyd o dan y Rheoliadau bellach wedi'u cynnwys yn y Rheoliadau contract ar gyfer Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol, a'r Byrddau Iechyd Lleol sy'n penderfynu ar faterion disgyblu o dan y contract.

**Strwythur ac Arweiniad**

4. Gofynnwyd i dribiwnlysoedd roi manylion am strwythur tribiwnlysoedd a threfniadau arwain. Ymddengys bod yr ymatebion yn dod o dan bedwar categori cyffredinol:

   a. Un tribiwnlys ar gyfer Cymru gyfan, gydag un arweinydd barnwrol (TAAAC, Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru, Panel Dyfarnu Cymru, Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru, y Tribiwnlys Eiddo Preswyl, y Tribiwnlys Cosbau Traffig);

   b. Un tribiwnlys ar gyfer Cymru gyfan, heb arweiniad barnwrol cyffredinol (Panel Cwynion Gwasanaethau Cymdeithasol Annibynnol, Paneli Adolygiad Annibynnol o Ddyfarniadau);

   c. Tribiwnlys a drefnir ar sail ranbarthol arfaethedig, o dan ofal Llywydd ar gyfer pob rhanbarth (Tribiwnlysoedd Prisio Cymru[41]);

   d. Tribiwnlys a drefnir ar sail ranbarthol, gyda phob gwrandawiad panel o dan ofal cadeirydd, ond heb arweinydd cyffredinol (Paneli Apêl Derbyniadau Ysgol, Panel Apêl Gwaharddiadau Ysgol).

5. Cyfeirir at bennaeth barnwrol y tribiwnlys fel Llywydd y Tribiwnlys gan amlaf. Fodd bynnag, defnyddir y term Cadeirydd yn Nhribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru a Thribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru[42]. Mae'r Tribiwnlys Cosbau Traffig yn achos arbennig, yn yr ystyr ei fod yn gweithredu fel un tribiwnlys i awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr, ac yn cael ei arwain gan Brif Ddyfarnwr.

**Cydberthnasau ag Adrannau**

6. Noddir y tribiwnlysoedd gwahanol gan amryw Adrannau yn Llywodraeth Cynulliad Cymru.

7. Mae'r Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau yn noddi TAAAC, Paneli Apêl Arolygwyr Cofrestredig Ysgolion a Phaneli Apêl Arolygwyr Cofrestredig Addysg Feithrin yn uniongyrchol. Mae'r Adran hon hefyd yn gyfrifol am bolisi a rheolau Apeliadau Derbyn ac Apeliadau Gwahardd, ond nid am ariannu a gweinyddu'r paneli hyn, sef cyfrifoldeb Awdurdodau Lleol ac Awdurdodau Derbyn.

8. Mae'r Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn noddi Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru, y Paneli Cwynion Gwasanaethau Cymdeithasol Annibynnol, Paneli Adolygiad Annibynnol o Ddyfarniadau a Byrddau Iechyd Lleol yng Nghymru o ran eu swyddogaethau o dan Reoliadau Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Pwyllgorau Gwasanaethau a'r Tribiwnlys) 1992.

9. Mae'r Adran Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol yn noddi Panel Dyfarnu Cymru, Tribiwnlysoedd Prisio Cymru a'r Bwrdd Canolwyr Meddygol a sefydlwyd o dan Orchymyn Cynllun Pensiwn Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007.

41 Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymgynghori ynghylch a ddylai fod un tribiwnlys i Gymru gyfan yn ddiweddar.

42 Nodir bod hyn yn achosi dryswch o fewn Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru. Mae Deddf Iechyd Meddwl 2007 yn darparu bod yn rhaid i Lywydd fod yn ben ar Dribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru, ond nid yw'r adran hon wedi'i chychwyn eto. Gelwir yr aelod cyfreithiol sy'n cadeirio pob panel yn Llywydd y panel a gelwir yr arweinydd barnwrol ar y tribiwnlys cyfan yn Gadeirydd.

10. Mae'r Adran Materion Gwledig yn noddi Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru a Phwyllgorau Coedwigaeth Cymru. Mae Adran yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai yn noddi'r Tribiwnlys Eiddo Preswyl.

11. Mae'r trefniant ar gyfer noddi'r Tribiwnlys Cosbau Traffig yn eithaf cymhleth. Mae Adran yr Economi a Thrafnidiaeth yn gyfrifol am bolisi rheoli traffig yng Nghymru. Awdurdodau Lleol unigol sy'n gyfrifol am benderfynu p'un a ddylid gweithredu system rheoli traffig droseddol neu sifil, ac yng Nghymru, mae wyth Awdurdod Lleol wedi cytuno ar y system sifil (wedi'i dad-droseddoli). Lle mae Awdurdod Lleol yn dewis y system rheoli traffig sifil, mae'n rhaid iddo ddarparu ar gyfer dyfarnu anghydfodau. Yn ymarferol, mae awdurdodau gorfodi sifil (Awdurdodau Lleol) wedi dod yn aelodau o Gyd-bwyllgor PATROL, sy'n cynnwys pob awdurdod gorfodi sifil ledled Cymru a Lloegr gan gynnwys Is-bwyllgor Gweithredol (Cymru) a sefydlwyd yn ddiweddar. Ei swyddogaethau yw penodi dyfarnwyr i'r Tribiwnlys Cosbau Traffig a darparu staff gweinyddol a swyddfeydd a lleoliadau gwrandawiadau ar gyfer dyfarnwyr. Gan nad oes i'r Cyd-bwyllgor statws corfforaethol ac na all felly gynnig contractau, penodwyd un o'r Cynghorau sy'n aelod i fod yn Awdurdod Arweiniol i'w gwneud yn bosibl i nwyddau a gwasanaethau gael eu darparu ar ran y Cyd-bwyllgor. Ar y cychwyn cafodd awdurdod Manceinion ei benodi'n Awdurdod Arweiniol.

**Aelodau Tribiwnlysoedd**

12. Fel rhan o'r arolwg, gofynnwyd i dribiwnlysoedd roi gwybodaeth am y canlynol:

- Niferoedd a mathau o aelodau tribiwnlysoedd;
- Cymwysterau a/neu brofiad aelodau;
- Cyfansoddiad y tribiwnlys.

13. Dangosodd ymatebion i'r arolwg amrywiaeth mawr o ran nifer yr aelodau a benodir i bob tribiwnlys. Nid yw hyn yn syndod o gofio'r gwahaniaethau yn llwythi achosion y tribiwnlysoedd (a drafodir isod). Trefnir rhai tribiwnlysoedd megis y Paneli Apêl Derbyniadau Ysgol a'r Paneli Apêl Gwaharddiadau Ysgol gan awdurdodau lleol unigol ar sail *ad hoc*, ac nid oes cofnod o nifer y bobl sy'n aelodau rheolaidd o'r paneli hyn. Mae Tabl 2 yn cynnwys cyfanswm yr aelodau ar gyfer pob tribiwnlys ar adeg cwblhau'r arolwg, fel y'i darparwyd gan y tribiwnlysoedd[43].

14. Mae cyfansoddiad pob tribiwnlys a'r mathau o aelodau yn amrywio. Mae'r rhan fwyaf o dribiwnlysoedd yn cynnwys cymysgedd o aelodau cyfreithiol ac aelodau eraill. Yr eithriad yw'r Tribiwnlysoedd Prisio, sy'n cynnwys aelodau 'lleyg' yn unig, er bod yr aelodau hyn yn cael eu hyfforddi ac yn cael cymorth Clerc Statudol. Er bod tribiwnlysoedd eraill yn cyfeirio at aelodau 'lleyg', mae gofyniad statudol neu ofyniad arall fel arfer bod gan yr aelodau hyn brofiad ymarferol mewn maes penodol neu gymwysterau proffesiynol.

43 Nid yw rhai tribiwnlysoedd wedi'u cynnwys am nad ydynt yn penodi aelodau, maent yn eistedd yn anaml iawn ac ati.

15. Mae llawer o'r tribiwnlysoedd (Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru, Panel Dyfarnu Cymru, TAAAC, Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru, y Tribiwnlys Eiddo Preswyl) yn cynnwys Cadeirydd cyfreithiol, y mae'n ofynnol iddo feddu ar saith mlynedd o brofiad o leiaf fel bargyfreithiwr neu gyfreithiwr. Mae rhai tribiwnlysoedd yn gofyn am arbenigedd proffesiynol, megis Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru, sy'n cynnwys aelod meddygol, a'r Tribiwnlys Eiddo Preswyl, sy'n cynnwys syrfëwr. Mae eraill yn gofyn am aelodau sy'n meddu ar brofiad ymarferol mewn maes penodol, megis y Paneli Cwynion Gwasanaethau Cymdeithasol Annibynnol, lle mae'n rhaid i aelodau arbenigol feddu ar brofiad ym maes darparu gwasanaethau cymdeithasol. Mae'n rhaid i Baneli Apêl Gwaharddiadau gynnwys pennaeth neu unigolyn arall sydd ar hyn o bryd yn gweithio ym maes rheoli addysg, a llywodraethwr ysgol sy'n meddu ar y profiad angenrheidiol.

16. Mae'r rhan fwyaf o dribiwnlysoedd yn cynnwys tri aelod, ond ceir nifer o eithriadau. Er enghraifft, gwrandewir achosion gerbron y Tribiwnlys Cosbau Traffig gan un dyfarnwr, mae Paneli Apêl Gwaharddiadau a Phaneli Apêl Derbyniadau yn cynnwys naill ai tri neu bump o aelodau, a gall y Paneli Adolygiad Annibynnol o Ddyfarniadau gynnwys pedwar neu bump o aelodau.

**Tabl 2: Cyfansoddiad tribiwnlysoedd**

| Tribiwnlys | Cyfanswm yr aelodau | Cyfansoddiad y tribiwnlys |
|---|---|---|
| Panel Dyfarnu Cymru | 8 | Cadeirydd cyfreithiol<br>Dau aelod |
| Tribiwnlys Tir Amaethyddol (Cymru) | 26 | Cadeirydd cyfreithiol<br>1 aelod o 'Panel y Ffermwyr'<br>1 aelod o 'Panel y Tirfeddianwyr' |
| Paneli Adolygiad Annibynnol o Ddyfarniadau | 28 | 4 neu 5 o aelodau panel a ystyrir yn addas gan Weinidogion Cymru, oherwydd eu sgiliau, eu cymwysterau neu eu profiad. Mae'n rhaid i'r panel gynnwys gweithwyr cymdeithasol sy'n meddu ar o leiaf bum mlynedd o brofiad ôl-gymhwyso ym maes mabwysiadu a lleoliadau â theuluoedd; a lle y bo'n ymarferol, unigolion sydd wedi cael profiad personol o fabwysiadu. |
| Paneli Cwynion Gwasanaethau Cymdeithasol Annibynnol | 41 | Cadeirydd lleyg<br>Aelod lleyg<br>Aelod arbenigol |
| Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru | 90 (amcangyfrif) | Cadeirydd cyfreithiol<br>Aelod meddygol<br>1 Aelod |
| Y Tribiwnlys Eiddo Preswyl | 42 | Cadeirydd cyfreithiol<br>Aelod proffesiynol (syrfëwr)<br>Aelod lleyg |

| Tribiwnlys | Cyfanswm yr aelodau | Cyfansoddiad y tribiwnlys |
|---|---|---|
| Paneli Apêl Derbyniadau Ysgol[44] | – | 3 neu 5 o aelodau<br>1 neu 2 o aelodau addysg<br>1 neu 2 o aelodau lleyg |
| Paneli Apêl Gwaharddiadau Ysgol[45] | – | Cadeirydd lleyg<br>1 neu 2 o ymarferwyr addysgol<br>1 neu 2 o lywodraethwyr ysgol |
| Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru | 12 | Cadeirydd cyfreithiol<br>2 o aelodau |
| Tribiwnlys Cosbau Traffig | 31 (Cymru a Lloegr) | Dyfarnwr cyfreithiol |
| Tribiwnlysoedd Prisio Cymru | 238 | Cadeirydd lleyg<br>2 o aelodau lleyg[46] |

**Cydnabyddiaeth a Lwfansau**

17. Dangosodd canlyniadau'r arolwg fod aelodau pob tribiwnlys yn cael eu digolledu am dreuliau teithio a chynhaliaeth fel arfer[47]. Fodd bynnag, wedi hynny nid oes cysondeb, fel y dangosir yn Nhabl 3.

18. Ni chaiff aelodau o Dribiwnlysoedd Prisio Cymru, y Paneli Apêl Gwaharddiadau, y Paneli Apêl Derbyniadau ac aelodau nad ydynt yn aelodau cyfreithiol o Dribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru gydnabyddiaeth, heblaw am enillion a gollwyd o dan rai amgylchiadau. Mae aelodau pob tribiwnlys arall yn cael rhyw fath o gydnabyddiaeth, er bod hyn yn amrywio'n sylweddol.

19. Mae penaethiaid barnwrol Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru a'r Tribiwnlys Cosbau Traffig yn cael cyflog, a hefyd Lywyddion ac Is-Lywyddion y Tribiwnlys Eiddo Preswyl. Telir ffi i bob aelod arall am wasanaeth, a fesurir yn ôl oriau mewn rhai achosion ac yn ôl diwrnodau mewn achosion eraill. Mae'r ffioedd i aelodau cyfreithiol yn amrywio o £360 i Gadeirydd gwrandawiad gan Dribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru, i £575 i aelodau cyfreithiol sy'n gwrando achosion cyfyngedig gerbron Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru. Mae'r ffioedd i aelodau eraill yn amrywio o £153.75 i Baneli Cwynion Gwasanaethau Cymdeithasol Annibynnol i £240 i Banel Dyfarnu Cymru. Mae rhai tribiwnlysoedd yn talu aelodau am baratoi ar gyfer gwrandawiadau ac am amser darllen (Panel Dyfarnu Cymru, Cadeiryddion Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru, Paneli Adolygiad Annibynnol o Ddyfarniadau), ond nid yw eraill yn gwneud hynny (Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru, TAAAC). Efallai fod hyn, i ryw raddau, yn esbonio'r gwahaniaeth o ran lefelau ffioedd.

44 Sefydlir paneli ar sail *ad hoc*, ac nid oes cofnod canolog o nifer yr aelodau.

45 Sefydlir paneli ar sail *ad hoc*, ac nid oes cofnod canolog o nifer yr aelodau.

46 Ond ceir darpariaeth bod y tribiwnlys yn gallu cynnwys dau aelod yn unig gyda chytundeb y ddau barti.

47 Paneli Apêl Gwaharddiadau – caiff unrhyw gostau sy'n gysylltiedig ag aelodaeth o'r panel eu talu gan yr Awdurdod Lleol. Paneli Apêl Derbyniadau – o dan rai amgylchiadau.

**Tabl 3: Cydnabyddiaeth a lwfansau tribiwnlysoedd**

| Tribiwnlys | Ffioedd | Gan gynnwys amser paratoi a darllen? |
|---|---|---|
| Panel Dyfarnu Cymru | Llywydd, £467 y dydd<br>Aelod cyfreithiol, £392 y dydd<br>Aelod, £240 y dydd | Ffi un diwrnod am ddarllen a pharatoi, gydag amser ychwanegol am achosion mwy cymhleth |
| Tribiwnlys Tir Amaethyddol (Cymru) | Cadeirydd a Dirprwy Gadeiryddion, £365 am 7 awr[48]<br>Aelodau, ni thelir ffi ond telir lwfans am golled ariannol o £30.40 am lai na 4 awr a £60.80 am fwy na 4 awr | Telir cadeiryddion am amser darllen a pharatoi, ond nid yr aelodau |
| Paneli Adolygiad Annibynnol o Ddyfarniadau | Cyd-drafodir ffioedd cyn gwrandawiad panel | Ie |
| Paneli Cwynion Gwasanaethau Cymdeithasol Annibynnol | Cadeirydd lleyg, £307.50 y gwrandawiad<br>Aelod lleyg, £153.75 y gwrandawiad<br>Aelod arbenigol, £205 y gwrandawiad | Mae'r ffi a delir yn cwmpasu'r elfennau hyn o'r broses |
| Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru | Cyfreithiol (cyfyngedig), £575 y dydd<br>Cyfreithiol (anghyfyngedig), £447 y dydd<br>Aelod meddygol, £447 y dydd, £174 fesul archwiliad<br>Aelod, £209 y dydd<br>Ffi Arfarnu, £370<br>Cyflog Cadeirydd Tribiwnlys y flwyddyn (3 diwrnod yr wythnos) £71,400 | Na |
| Y Tribiwnlys Eiddo Preswyl | Cadeirydd, £405 y dydd<br>Aelodau proffesiynol (syrfëwr), £288 y dydd<br>Aelodau lleyg, £187 y dydd | Na, ond os yw mater yn gymhleth gall Llywydd tribiwnlys arfer ei ddisgresiwn a chaniatáu diwrnod neu hanner diwrnod arall, yn dibynnu ar yr amgylchiadau |
| Paneli Apêl Derbyniadau Ysgol | Na, heblaw am enillion a gollwyd | – |
| Paneli Apêl Gwaharddiadau Ysgol | Na, heblaw am enillion a gollwyd | – |
| Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru | Llywydd, £571.25 am 8 awr o waith<br>Cadeiryddion (aelodau cyfreithiol), £459 am rhwng 6 a 12 awr o waith | Na |

48 Mae hyn yn cynnwys amser teithio, darllen a pharatoi a chyngor ar bwyntiau cyfreithiol i ysgrifennydd y tribiwnlys a hyfforddiant.

| Tribiwnlys | Ffioedd | Gan gynnwys amser paratoi a darllen? |
|---|---|---|
| Tribiwnlys Cosbau Traffig | Prif Ddyfarnwr (amser llawn/cyflogedig) £101,400<br>Dyfarnwr Cyflogedig Rhan-amser (cyflogedig) £54,756<br>Dyfarnwyr Rhan-amser a delir drwy ffi, £415 y diwrnod | Dim ond o dan amgylchiadau eithriadol a thrwy gytundeb ymlaen llaw gyda'r Prif Ddyfarnwr y telid am amser paratoi a darllen |
| Tribiwnlysoedd Prisio Cymru | Na, heblaw am enillion a gollwyd | – |

**Penodiadau**

20. Dangosodd canlyniadau'r arolwg fod y weithdrefn ar gyfer penodi aelodau tribiwnlysoedd yn wahanol iawn ymhlith tribiwnlysoedd fel y dangosir yn Nhabl 4. Mewn rhai achosion, Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod sy'n gyfrifol am benodi, a'r Arglwydd Ganghellor sy'n gyfrifol mewn achosion eraill. Mewn rhai achosion, mae Gweinidogion Cymru a'r Arglwydd Ganghellor yn rhannu cyfrifoldeb, gyda'r Arglwydd Ganghellor yn gyfrifol am benodiadau cyfreithiol, a Gweinidogion Cymru yn gyfrifol am aelodau eraill. Mae awdurdodau lleol hefyd yn chwarae rhan sylweddol yn y prosesau penodi ar gyfer rhai tribiwnlysoedd. Mae penodiad yn parhau am bedair neu bum mlynedd fel arfer, gyda'r opsiwn ar gyfer ailbenodi.

21. Penodir y rhan fwyaf o aelodau tribiwnlysoedd yn dilyn proses dewis yn ôl teilyngdod, ond nid felly y mae bob tro. Er enghraifft, mae aelodau tribiwnlysoedd yn ethol Llywyddion a Chadeiryddion y Tribiwnlysoedd Prisio[49] a phenodir aelodau paneli Derbyniadau a Gwaharddiadau yn ôl disgresiwn Awdurdodau Addysg Lleol.

**Tabl 4: Penodi aelodau tribiwnlysoedd**

| Tribiwnlys | Awdurdod sy'n Gyfrifol am Benodi Aelodau | Hyd y Penodiad |
|---|---|---|
| Panel Dyfarnu Cymru | Gweinidogion Cymru | 5 mlynedd gyda darpariaeth ar gyfer ailbenodi, yn amodol ar arfarniad boddhaol o berfformiad, hyd at uchafswm o 10 mlynedd |
| Tribiwnlys Tir Amaethyddol (Cymru) | Yr Arglwydd Ganghellor | 5 mlynedd a chaiff ei adnewyddu yn amodol ar berfformiad boddhaol, hyd at 70 mlwydd oed |
| Paneli Adolygiad Annibynnol o Ddyfarniadau | Gweinidogion Cymru | Ni phenodir aelodau panel am gyfnod â therfyn amser. Maent yn parhau i fod ar y rhestr gymeradwy nes iddynt ofyn am i'w henwau gael eu tynnu oddi ar y rhestr |

49 Oni fydd y tribiwnlys yn methu â phenodi ar ôl cyfnod penodedig, mae dyletswydd ar Weinidogion Cymru i benodi llywyddion a chadeiryddion tribiwnlysoedd ar ôl cynnal yr ymgynghoriad angenrheidiol.

| Tribiwnlys | Awdurdod sy'n Gyfrifol am Benodi Aelodau | Hyd y Penodiad |
|---|---|---|
| Paneli Cwynion Gwasanaethau Cymdeithasol Annibynnol | Gweinidogion Cymru | 4 mlynedd, gellir ailbenodi am hyd at uchafswm o 10 mlynedd |
| Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru | Yr Arglwydd Ganghellor | Gan ei fod yn gyflogedig mae'r Cadeirydd yn benodiad parhaol. Penodir pob aelod arall am gyfnodau o 4 mlynedd ond dim ond am resymau penodol y gellir eu diswyddo, penodiadau parhaol ydynt i bob diben |
| Y Tribiwnlys Eiddo Preswyl | Mae'r Arglwydd Ganghellor yn penodi aelodau cyfreithiol. Mae Gweinidogion Cymru yn penodi aelodau arbenigol a lleyg | 5 mlynedd, a gellir ei adnewyddu fesul 5 mlynedd, oni bai bod rheswm dros beidio â gwneud hynny neu os na ddymuna'r aelod adnewyddu'r penodiad |
| Paneli Apêl Derbyniadau Ysgol | Mae Awdurdodau Addysg Lleol yn penodi aelodau paneli ar gyfer ysgolion cymunedol ac ysgolion gwirfoddol a reolir. Mae Cyrff Llywodraethu yn gyfrifol am ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig. Gellir gwneud trefniadau ar y cyd | Dim cyfyngiad[50] |
| Paneli Apêl Gwaharddiadau Ysgol | Awdurdodau Addysg Lleol | Dim cyfyngiad[51] |
| Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru | Mae'r Arglwydd Ganghellor yn penodi'r Llywydd a'r Cadeiryddion, mae Gweinidogion Cymru yn penodi aelodau tribiwnlysoedd | 5 mlynedd, y gellir ei adnewyddu |
| Tribiwnlys Cosbau Traffig | Mae'r Cyd-bwyllgor PATROL wedi dirprwyo'r broses benodi i'r Prif Ddyfarnwr ac adran penodiadau barnwrol yr Arglwydd Ganghellor. Gwneir penodiadau gyda chaniatâd yr Arglwydd Ganghellor | Penodir dyfarnwyr am gyfnod nad yw'n fwy na 5 mlynedd, a gellir eu hailbenodi am gyfnod arall |
| Tribiwnlysoedd Prisio Cymru | Dirprwyir hyn i'r awdurdodau lleol yn eu hawdurdodaeth a Llywydd Tribiwnlysoedd Prisio ar y cyd, neu gan Weinidogion Cymru. Nid yw'r Awdurdod Lleol yn chwarae unrhyw rôl arall | 6 mlynedd, gyda'r opsiwn o ailgeisio am gyfnod arall |

50 Nid yw'r gyfraith yn cyfyngu ar y cyfnod y gall aelodau paneli wasanaethu ond dylai'r awdurdod derbyn adolygu aelodaeth paneli'n rheolaidd. Mae'n arfer da newid aelodau'n rheolaidd ee bob tair blynedd, yn gysylltiedig â'r ddyletswydd i hysbysebu am aelodau lleyg.

51 Nid oes unrhyw gyfyngiadau cyfreithiol a'r awdurdod cyfrifol sy'n pennu hyd y penodiad.

## Rheolau Gweithdrefnol

22. Dangosodd yr arolwg fod awdurdodau amrywiol yn gyfrifol am greu rheolau gweithdrefnol i dribiwnlysoedd yng Nghymru. Gweinidogion Cymru sy'n gyfrifol am gyhoeddi rheolau gweithdrefnol ar gyfer: Panel Dyfarnu Cymru[52]; y Tribiwnlys Eiddo Preswyl; Paneli Adolygiad Annibynnol o Ddyfarniadau; Paneli Cwynion Gwasanaethau Cymdeithasol Annibynnol; Tribiwnlysoedd Prisio Cymru; TAAAC; Paneli Apêl Derbyniadau Ysgol a Phaneli Apêl Gwaharddiadau Ysgol. Mae'r Arglwydd Ganghellor yn gwneud rheolau gweithdrefnol Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru, Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru a'r Tribiwnlys Cosbau Traffig.

## Cynghorwyr

23. Gall rhai tribiwnlysoedd benodi cynghorwyr arbenigol i'w cynorthwyo wrth wneud penderfyniadau, ond ni all eraill wneud hynny.

24. Dywedodd Panel Dyfarnu Cymru y gall wneud trefniadau i unigolyn cymwys addas i ymchwilio i fater a rhoi adroddiad arno ac, os oes angen, dod i'r gwrandawiad a rhoi tystiolaeth lle cyfyd cwestiwn yr hoffai gael cymorth arbenigwr yn ei gylch. Rhoddir copi o adroddiad yr arbenigwr i bob parti cyn y gwrandawiad neu cyn ailddechrau unrhyw wrandawiad.

25. Mae deddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i'r Panel Adolygiad Annibynnol o Ddyfarniadau gael ei gynghori gan weithiwr cymdeithasol[53]. Gall y Panel hefyd, lle y cred ei bod yn briodol, gael ei gynghori gan gynghorydd cyfreithiol sy'n meddu ar wybodaeth ac arbenigedd mewn deddfwriaeth fabwysiadu ac unrhyw berson arall sy'n meddu ar arbenigedd perthnasol mewn perthynas â'r penderfyniad dan sylw, ym marn y Panel.

26. Mae gan Gadeirydd Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru ddisgresiwn, a arferir yn anfynych, i enwebu dau Aseswr o banel o arbenigwyr proffesiynol a enwebwyd gan Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig. Mewn achosion sy'n ymwneud â draenio gofynnir am Adroddiad Technegol a baratoir gan beiriannydd draenio cymwysedig. Rhoddir copi o Adroddiad yr arbenigwr i bob parti ac mae'r arbenigwr yn bresennol yn y gwrandawiad i roi tystiolaeth.

27. Nododd y Tribiwnlys Cosbau Traffig fod modd i'r Prif Ddyfarnwr benodi cynghorydd arbennig pan fo angen, er nad yw'r rheoliadau yn darparu'n benodol ar gyfer hynny.

28. Nododd y Paneli Cwynion Gwasanaethau Cymdeithasol Annibynnol, Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru, y Tribiwnlys Eiddo Preswyl, TAAAC[54], y Paneli Apêl Derbyniadau a'r Paneli Apêl Gwaharddiadau na allant benodi cynghorwyr.

52 Mae gan Lywydd y Panel Dyfarnu bwerau statudol i roi cyfarwyddiadau ynglŷn ag arfer a gweithdrefn i'w dilyn gan dribiwnlysoedd a ddaw o'r Panel. Mae'n rhaid i gyfarwyddiadau o'r fath adlewyrchu darpariaethau rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â thribiwnlysoedd. Hefyd, mae'n swyddogaeth statudol gan Lywydd y Panel Dyfarnu i roi canllawiau ar y ffordd y dylai tribiwnlysoedd wneud penderfyniadau.

53 O fewn ystyr Rhan IV o Ddeddf Safonau Gofal 2000 gyda chymwysterau, sgiliau a phrofiad priodol.

54 Fodd bynnag, nododd TAAAC ei fod yn ystyried diwygio ei Reoliadau i roi pŵer i'r tribiwnlys alw ar dystion, gan gynnwys tystion arbenigol.

**Hyfforddi ac Arfarnu**

29. Gofynnwyd i dribiwnlysoedd roi manylion am hyfforddiant i aelodau tribiwnlysoedd, yn benodol:
    - Pwy sy'n gyfrifol am hyfforddi aelodau tribiwnlysoedd?
    - Sut y caiff hyfforddiant tribiwnlys ei ariannu?
    - Sut y pennir y gyllideb ar gyfer hyfforddiant?
    - Pa mor aml y cynhelir digwyddiadau hyfforddi?

30. Dangosodd ymatebion i'r arolwg fod amrywiadau sylweddol o ran yr hyfforddiant a ddarperir. Mewn rhai achosion, y pennaeth barnwrol sy'n gyfrifol am hyfforddiant (Panel Dyfarnu, Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru, y Tribiwnlys Eiddo Preswyl, y Tribiwnlys Cosbau Traffig, Tribiwnlysoedd Prisio), neu staff cymorth tribiwnlysoedd (TAAAC, Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru), ac mewn achosion eraill yr adran noddi neu'r Awdurdod Lleol sy'n gyfrifol (Paneli Apêl Derbyniadau, Paneli Apêl Gwaharddiadau, Paneli Cwynion Gwasanaethau Cymdeithasol Annibynnol).

31. Yn y rhan fwyaf o achosion, dyrennir cyllid hyfforddiant i aelodau tribiwnlys o gyllideb gyffredinol y tribiwnlys, a ddarperir naill ai gan Lywodraeth Cynulliad Cymru neu Awdurdodau Lleol. Yn achos Paneli Apêl Derbyniadau Ysgol, lle mae'n ofynnol i Awdurdod Lleol ddyrannu cyllid rhesymol i gyrff llywodraethu ysgolion sy'n awdurdodau derbyn, yr Awdurdod Lleol sy'n penderfynu a ddylid dyrannu'r cyllid hwn i ysgolion fel dyraniadau wedi'u clustnodi'n benodol sy'n ychwanegol at eu cyfran o'r gyllideb ac ar wahân iddi. Felly yn achos Paneli Apêl Derbyniadau, mae modd cael cyllideb hyfforddiant ar wahân, ond mae hyn yn dibynnu ar benderfyniad yr Awdurdod Lleol.

32. Yn ôl y disgwyl, mae amlder digwyddiadau hyfforddi a mathau o ddigwyddiadau hyfforddi yn amrywio'n fawr rhwng tribiwnlysoedd. Er enghraifft, mae rhai tribiwnlysoedd yn cynnal digwyddiadau hyfforddi blynyddol rheolaidd (TAAAC, Panel Dyfarnu Cymru, Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru, y Tribiwnlys Eiddo Preswyl, Paneli Cwynion Gwasanaethau Cymdeithasol Annibynnol, y Tribiwnlys Cosbau Traffig, Tribiwnlysoedd Prisio Cymru) neu ddigwyddiadau bob dwy flynedd (Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru). Mae eraill yn trefnu hyfforddiant ar sail galw lleol (Paneli Derbyniadau Ysgol a Phaneli Gwaharddiadau Ysgol). Nododd rhai tribiwnlysoedd eu bod yn rhoi hyfforddiant penodol i Gadeiryddion tribiwnlysoedd (Paneli Derbyniadau Ysgol a Thribiwnlysoedd Prisio). Mae mathau eraill o hyfforddiant yn cynnwys cylchlythyrau i aelodau yn eu hysbysu am ddatblygiadau o ran y gyfraith ac arfer gorau (Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru) a 'hyfforddiant mewn swydd' lle gofynnir i aelodau newydd fod yn sylwedyddion ar fathau gwahanol o wrandawiadau tribiwnlysoedd er mwyn cael profiad (Tribiwnlysoedd Prisio Cymru).

33. Dangosodd ymatebion i'r arolwg fod digwyddiadau ac adnoddau hyfforddi yn mynd yn llai integredig o gymharu â thribiwnlysoedd cyfatebol yn Lloegr. Er enghraifft, cymerodd Panel Dyfarnu Cymru ran mewn digwyddiad hyfforddi blynyddol ar y cyd â Phanel Dyfarnu Lloegr o'r blaen. Fodd bynnag, dywedodd y tribiwnlys ei bod yn annhebygol y byddai digwyddiad o'r fath yn cael ei gynnal yn 2009 o ganlyniad i ddiwygiadau i dribiwnlysoedd yn Lloegr. Dywedodd Tribiwnlysoedd Prisio Cymru eu bod wedi cymryd rhan mewn hyfforddiant modiwlar gan Dribiwnlysoedd Prisio Lloegr yn y gorffennol ac maent hefyd wedi rhannu sesiynau hyfforddiant ar y cyd i Lywyddion a Chadeiryddion. Fodd bynnag, mae'r trefniant hwn wedi cael ei atal dros dro. Mae Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru yn rhan o ddigwyddiad hyfforddi ar y cyd â Thribiwnlys Tir Amaethyddol Lloegr yn 2010.

34. Gofynnwyd i dribiwnlysoedd roi manylion am eu trefniadau arfarnu. Dangosodd ymatebion i'r arolwg nad yw aelodau tribiwnlysoedd, heblaw am ychydig o eithriadau, yn cael eu hadolygu na'u harfarnu, neu fod hynny'n digwydd yn anfynych. Ac eithrio'r canlynol, nododd y tribiwnlysoedd a fu'n rhan o'r arolwg nad oes ganddynt broses arfarnu nac adolygu ffurfiol.

35. Caiff Llywydd ac aelodau Panel Dyfarnu Cymru eu harfarnu'n flynyddol (yn dibynnu ar argaeledd gwrandawiadau addas). Mae proses arfarnu i Gadeiryddion a Dirprwy Gadeiryddion Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru, ond nid oes unrhyw broses adolygu nac arfarnu ffurfiol i aelodau eraill. Mae system arfarnu i aelodau'r Pwyllgor Asesu Rhenti, ond mae'n anodd ei gweithredu oherwydd llwyth achosion bach y tribiwnlys. Mae Tribiwnlysoedd Prisio Cymru a TAAAC wrthi'n sefydlu systemau arfarnu.

36. Caiff Cadeirydd Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru a dau ddirprwy eu harfarnu gan Farnwr Cylchdaith o Dribiwnlys Haen Gyntaf (Iechyd Meddwl) yn Lloegr. Yna maent yn arfarnu'r aelodau eraill yn gylchredol dros ddwy flynedd. Credir bod hyn yn gyfle defnyddiol i adolygu perfformiad a thrafod materion, ond mae'n gyfyngedig am na chaiff unrhyw anghenion hyfforddi adferol a nodir mewn arfarniadau eu diwallu oherwydd pwysau cyllidebol.

**Llwyth achosion**

37. Dangosodd gwybodaeth o'r arolwg fod llwythi achosion tribiwnlysoedd yng Nghymru yn amrywio'n sylweddol, fel y dangosir yn Nhabl 5 isod. Er bod y data yn awgrymu amrywiad sylweddol rhwng llwythi achosion, dim ond i ryw raddau mae'n ddefnyddiol o ran deall llwythi gwaith y tribiwnlysoedd, am fod cymhlethdod a hyd achosion yn amrywio'n sylweddol rhwng tribiwnlysoedd. Er enghraifft, bydd Tribiwnlysoedd Prisio Cymru yn aml yn rhestru sawl achos y dydd, gyda'r rhan fwyaf o'r achosion yn cael eu setlo cyn y gwrandawiad, tra bydd rhai o achosion y Panel Dyfarnu yn ymdrin â materion cyfreithiol cymhleth ac yn parhau am sawl diwrnod.

**Tabl 5: Llwythi achosion tribiwnlysoedd**

| Tribiwnlys | Blwyddyn | Apeliadau a gyflwynwyd | Apeliadau a gofrestrwyd | Achosion a benderfynwyd | Achosion a dynnwyd yn ôl | Achosion a ildiwyd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Panel Dyfarnu Cymru[55] | 2005/06<br>2006/07<br>2007/08 | 13<br>6<br>4 | –<br>–<br>– | 4<br>8<br>8 | 2<br>0<br>1 | –<br>–<br>– |
| Tribiwnlys Tir Amaethyddol (Cymru)[56] | 2005/06<br>2006/07<br>2007/08 | 12<br>16<br>12 | –<br>–<br>– | 3<br>1<br>1 | 12<br>5<br>8 | 3<br>9<br>2 |
| Paneli Adolygiad Annibynnol o Ddyfarniadau | 2007/08 | 2 | – | 1 | 1 | – |
| Paneli Cwynion Gwasanaethau Cymdeithasol Annibynnol | 2006/07<br>2007/08 | 61<br>48 | –<br>– | 38<br>35 | 23*<br>13* | –<br>– |
| Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru[57] | 2006<br>2007<br>2008 | 1,296<br>1,370<br>1,450 | –<br>–<br>– | 1,036<br>1,090<br>1,139 | 195<br>203<br>211 | –<br>–<br>– |
| Y Tribiwnlys Eiddo Preswyl | 2006<br>2007<br>2008 | 123<br>103<br>108 | –<br>–<br>– | –<br>–<br>– | 8<br>anhysbys<br>11 | –<br>–<br>– |
| Paneli Apêl Derbyniadau Ysgol[58] | Dd/G | Dd/G | Dd/G | Dd/G | Dd/G | Dd/G |
| Paneli Apêl Gwaharddiadau Ysgol[59] | Dd/G | Dd/G | Dd/G | Dd/G | Dd/G | Dd/G |
| Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru | 2005/06<br>2006/07<br>2007/08 | 157<br>138<br>98 | 150<br>118<br>94 | 48<br>36<br>28 | 79<br>58<br>46 | 35<br>31<br>18 |
| Tribiwnlys Cosbau Traffig | 2006<br>2007<br>2008 | 146<br>209<br>152 | 142<br>205<br>149 | 79<br>136<br>85 | 1<br>3<br>0 | 59<br>61<br>54 |
| Tribiwnlysoedd Prisio Cymru | 2005/06<br>2006/07<br>2007/08 | 25,484<br>11,607<br>6,556 | 25,484<br>11,607<br>6,556 | 1,258<br>1,537<br>1,061 | 16,100<br>13,518<br>8,017 | –<br>–<br>– |

* *Mae'r ffigur hwn yn cynnwys achos a derfynwyd*

55 Mae'n cynnwys achosion a drosglwyddwyd gan yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus i'w penderfynu ac apeliadau yn erbyn penderfyniadau Pwyllgorau Safonau awdurdodau lleol.

56 Mae Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru yn ymdrin â cheisiadau ac apeliadau.

57 Mae Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru yn ymdrin â cheisiadau yn hytrach nag apeliadau. Mae gan y claf yr hawl i ofyn am dynnu cais yn ôl, a chaiff cais ei ddileu'n awtomatig os caiff y claf ei ryddhau o'r ysbyty cyn y gwrandewir ar y cais.

58 Er nad yw'r wybodaeth hon ar gael ar hyn o bryd, mae'r cod newydd ar apeliadau derbyn i ysgolion yn darparu bod yn rhaid i fforymau derbyn gyflwyno adroddiad blynyddol i Lywodraeth Cynulliad Cymru sy'n nodi faint o apeliadau a gyflwynwyd, a faint oedd yn llwyddiannus.

59 Ni chaiff y wybodaeth hon ei chasglu yng Nghymru ar hyn o bryd, ond bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn dechrau casglu peth ohoni yn 2008/09.

**Canlyniadau**

38. Gofynnwyd i dribiwnlysoedd roi ffigurau ar gyfer nifer yr apeliadau a gadarnhawyd neu a wrthodwyd yn ystod y tair blynedd diwethaf. Nid yw pob un o'r tribiwnlysoedd yn cofnodi'r ffigurau hyn, ond cyflwynir canlyniadau'r rhai sy'n cadw cofnodion isod yn Nhabl 6.

**Tabl 6: Canlyniadau tribiwnlysoedd**

| Tribiwnlys | Blwyddyn | Cadarnhawyd | Gwrthodwyd |
|---|---|---|---|
| Panel Dyfarnu Cymru | 2005/06<br>2006/07<br>2007/08 | 4<br>5<br>7 | 0<br>3[60]<br>1 |
| Tribiwnlys Tir Amaethyddol (Cymru) | 2005/06<br>2006/07<br>2007/08 | 0<br>1<br>1 | 3<br>0<br>1 |
| Paneli Adolygiad Annibynnol o Ddyfarniadau[61] | 2007/08 | 0 | 1 |
| Paneli Cwynion Gwasanaethau Cymdeithasol Annibynnol[62] | – | – | – |
| Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru[63] | 2006<br>2007<br>2008 | 41<br>79<br>83 | 995<br>1,011<br>1,056 |
| Y Tribiwnlys Eiddo Preswyl | Dd/G | Dd/G | Dd/G |
| Paneli Apêl Derbyniadau Ysgol | Dd/G | Dd/G | Dd/G |
| Paneli Apêl Gwaharddiadau Ysgol | Dd/G | Dd/G | Dd/G |
| Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru | 2005/06<br>2006/07<br>2007/08 | 41<br>28<br>23 | 7<br>8<br>5 |
| Tribiwnlys Cosbau Traffig | 2006<br>2007<br>2008 | 41<br>54<br>31 | 38<br>82<br>54 |
| Tribiwnlysoedd Prisio Cymru | 2006/07<br>2007/08 | 708<br>209 | 829<br>852 |

60 Diddymwyd un o'r achosion hyn gan fod yr hysbysiad gan y Pwyllgor Safonau yn annigonol ac nid oedd gan y tribiwnlys bwerau i'w ddiwygio.

61 Mae'r Panel Adolygiad Annibynnol o Ddyfarniadau yn gwneud argymhellion ac mae'r ffigurau hyn yn nodi faint o weithiau y mae'r panel wedi argymell y dylai asiantaeth fabwysiadu ailystyried ei phenderfyniad ai peidio.

62 Mae'r Comisiwn Cwynion Gwasanaethau Cymdeithasol Annibynnol yn gwneud argymhellion ac nid yw'n cofnodi'r wybodaeth hon.

63 Mae Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru yn ymdrin â cheisiadau yn hytrach nag apeliadau. Caiff cleifion eu rhyddhau (a nodir yn y tabl uchod fel 'cadarnhawyd') neu eu cadw'n gaeth (a nodir yn y tabl uchod fel 'gwrthodwyd')

**Cymorth ac Adnoddau**

39. Dangosodd canlyniadau'r arolwg fod nifer o dribiwnlysoedd yng Nghymru yn gweithredu'n weinyddol yn adeiladau Llywodraeth Cynulliad Cymru, gyda staff cymorth yn cael eu darparu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru hefyd (Panel Dyfarnu Cymru, Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru, Paneli Adolygiad Annibynnol o Ddyfarniadau, Paneli Cwynion Gwasanaethau Cymdeithasol Annibynnol, Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru, y Tribiwnlys Eiddo Preswyl a TAAAC). Mewn rhai o'r tribiwnlysoedd hyn, mae gan staff cymorth a ddarperir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru gyfrifoldebau eraill hefyd nad ydynt yn gysylltiedig â'u rôl o ran rhoi cymorth i'r tribiwnlys.

40. Mae'r pedwar Tribiwnlys Prisio statudol yng Nghymru yn gweithio o dan fantell weinyddol Gwasanaeth Tribiwnlysoedd Prisio Cymru. Nid oes gan y Paneli Apêl Derbyniadau Ysgol na'r Paneli Apêl Gwaharddiadau Ysgol weinyddiaeth ganolog. Mae Awdurdodau Lleol yn rhoi cymorth gweinyddol a mathau eraill o gymorth yn ôl yr angen. Mae'r Tribiwnlys Cosbau Traffig yn cael ei gynorthwyo o Fanceinion, gyda staff a swyddfeydd yn cael eu darparu gan PATROL, grŵp o Awdurdodau Lleol sydd wedi mabwysiadu system rheoli traffig sifil.

41. Mae'r dymuniad i weithredu mor anffurfiol â phosibl yn golygu nad yw llysoedd na chanolfannau gwrandawiadau ffurfiol eraill yn cael eu defnyddio fel arfer ar gyfer gwrandawiadau, a gynhelir mewn lleoliadau sy'n gyfleus i ddefnyddwyr ar y cyfan. Er enghraifft, nododd TAAAC na chynhelir gwrandawiadau fwy na thaith o 90 munud oddi wrth gartref y rhieni fel arfer. Mae Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru yn cynnal gwrandawiadau mewn gwestai wrth ymyl y tir dan sylw, gan fod y tribiwnlys yn cynnal ymweliadau â safleoedd. Mae'r Tribiwnlys Cosbau Traffig yn gofyn i apelyddion nodi ble yr hoffent gael gwrandawiad ar y ffurflen Hysbysiad o Apêl, gan roi dewis cyntaf, ail ddewis a thrydydd dewis.

42. Yn Nhribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru mae lleoliad y gwrandawiad yn dibynnu ar leoliad y claf. Pan fydd claf mewn ysbyty, cynhelir y gwrandawiad yn yr ysbyty hwnnw. Pan fydd claf yn y gymuned, gellir cynnal y gwrandawiad mewn amryw leoliadau, megis ysbytai, swyddfeydd timau iechyd meddwl cymunedol neu gartrefi preswyl/gofal. Mewn ychydig o ysbytai mae ystafelloedd penodol at ddefnydd y tribiwnlys. Ym mhob achos mae'r tribiwnlys yn gofyn am ystafell breifat gyda bwrdd mawr ac o leiaf deg cadair ynghyd ag ystafell ar wahân i'w defnyddio fel ystafell aros i dystion a'r rhai fydd yn bresennol (ond nid yw bob amser yn cael hynny). Anaml iawn mae'r tribiwnlys hwn yn talu am leoliad i gynnal gwrandawiad.

43. Yn ôl y disgwyl, oherwydd yr amrywiadau o ran llwythi achosion a chymhlethdod achosion, mae cyfanswm y gwariant yn amrywio'n sylweddol rhwng tribiwnlysoedd – gweler Tabl 7 am fanylion. Ymddengys nad oes dull cyffredin o gyfrifo cyfanswm y gwariant ac nid yw rhai ffigurau a ddarparwyd gan dribiwnlysoedd yn cynnwys pob gwariant, er enghraifft, lle na ellir cyfrif am gymorth gweinyddol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar wahân.

**Tabl 7: Gwariant tribiwnlysoedd**

| Tribiwnlys | Swyddfeydd | Staff Cymorth | Cyfanswm y Gwariant |
|---|---|---|---|
| Panel Dyfarnu Cymru | Lleolir y staff cymorth yn swyddfeydd Llywodraeth Cynulliad Cymru ym Mharc Cathays, Caerdydd. Fel arfer cynhelir gwrandawiadau mewn gwesty sy'n agos i'r atebydd/apelydd. Pan benderfynir ar achos drwy gynrychioliadau ysgrifenedig yn unig, llogir ystafell gyfarfod mewn lleoliad sy'n gyfleus i aelodau'r Panel. Gwariant ar leoliadau gwrandawiadau: £2,480 (05/06) £4,000 (06/07) £4,705 (07/08) | Mae'r Panel Dyfarnu (a'i dribiwnlysoedd) yn cael cymorth pedwar aelod o Dîm Partneriaeth a Moeseg Is-adran Polisi Llywodraeth Leol Llywodraeth y Cynulliad. Yn ymarferol, mae gan bob aelod o staff dan sylw gyfrifoldebau a dyletswyddau eraill nad ydynt yn ymwneud â gwaith y Panel Dyfarnu. Mae'r amser a dreulir ar waith y Panel Dyfarnu yn amrywio yn ôl y llwythi achosion. Mae Pennaeth y Tîm Partneriaeth a Moeseg yn cyflawni swyddogaethau statudol Cofrestrydd y Panel ar hyn o bryd. | £69,928* (05/06) £79,691* (06/07) £79,713* (07/08) * Brasamcan yn unig. Ni phriodolir rhai costau cymorth gweinyddol ar wahân i waith y Panel Dyfarnu yng nghyllideb Costau Gweithredu Adrannol Llywodraeth y Cynulliad. |
| Tribiwnlys Tir Amaethyddol (Cymru) | Mae'r tribiwnlys yn gweithredu o safle o eiddo Llywodraeth Cynulliad Cymru yn Llandrindod. Cynhelir gwrandawiadau mewn gwestai ledled Cymru. | Ysgrifennydd, a ddarperir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. | £36,891 (05/06) £53,222 (06/07) £47,931 (07/08) |
| Paneli Adolygiad Annibynnol o Ddyfarniadau | Cynhelir gwrandawiadau paneli mewn swyddfeydd a rentir dros dro. Gwariant ar leoliadau gwrandawiadau: £862 (08/09) | Gweinyddir y panel gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, y mae'n rhaid iddi wneud trefniadau addas ar gyfer clercio'r paneli. | £14,000 (07/08) £3,500 (08/09) |

| Tribiwnlys | Swyddfeydd | Staff Cymorth | Cyfanswm y Gwariant |
|---|---|---|---|
| Paneli Cwynion Gwasanaethau Cymdeithasol Annibynnol | Mae staff cymorth yn gweithredu o'r Ganolfan Gwasanaethau Busnes, Mamhilad, Pont-y-pŵl. Cynhelir gwrandawiadau mewn gwahanol adeiladau ledled Cymru fel y bo'n briodol, defnyddir adeiladau cyhoeddus lle bynnag y bo modd. Gwariant ar leoliadau gwrandawiadau: £2,998.61 (06/07) £4,451.86 (07/08) | Rheolwr: 0.5 Swyddogion yr Ysgrifenyddiaeth: 2 Mae staff Gwasanaethau Cymdeithasol yn gweinyddu'r paneli o dan fantell Ysgrifenyddiaeth Cwynion Annibynnol, sydd hefyd yn gyfrifol am Baneli'r GIG (ond fel swyddogaeth ar wahân). | £397,000 yn ystod y tair blynedd diwethaf |
| Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru | Mae'r ysgrifenyddiaeth yn defnyddio swyddfeydd yn adeilad Llywodraeth Cynulliad Cymru ym Mharc Cathays. Pan fydd claf mewn ysbyty, cynhelir y gwrandawiad yn yr ysbyty hwnnw. Pan fydd claf yn y gymuned, gellir cynnal y gwrandawiad mewn amryw leoliadau, megis ysbytai, swyddfeydd timau iechyd meddwl cymunedol neu gartrefi preswyl/gofal. | 1 Uwch Swyddog Gweithredol (rheolwr cangen / clerc y tribiwnlys). 6 Swyddog Gweithredol sy'n gweithredu fel gweithwyr achos a hefyd yn gweithredu fel clercod mewn gwrandawiadau. 5 Aelod Staff Cymorth Tîm. Goruchwylir y gangen gan uwch reolwyr yn Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cynulliad Cymru. | £1,147,000 (06/07) £1,309,000 (07/08) £1,340,000 (08/09) DS. Nid yw hyn yn cynnwys costau ysgrifenyddiaeth |
| Y Tribiwnlys Eiddo Preswyl | Dwy swyddfa ac ystafell wrandawiad yn Nhŷ Southgate yng Nghaerdydd. Fel arall, mae'r tribiwnlys yn defnyddio gwestai, canolfannau cymunedol ac ati | 2 Glerc a leolir yng Nghaerdydd | £132,021 (2006) £124,707 (2007) £197,000 (2008) (amcangyfrif oherwydd cynnydd mewn hyfforddiant) |
| Paneli Apêl Derbyniadau Ysgol[64] | – | – | – |
| Paneli Apêl Gwaharddiadau Ysgol[65] | – | – | – |

64 Trefnir lleoliadau'n lleol ac ar sail dros dro, nid oes staff cymorth parhaol, ac nid yw cyfanswm y gwariant ar gael yn ganolog.

65 Trefnir lleoliadau'n lleol ac ar sail dros dro, nid oes staff cymorth parhaol, ac nid yw cyfanswm y gwariant ar gael yn ganolog.

| Tribiwnlys | Swyddfeydd | Staff Cymorth | Cyfanswm y Gwariant |
|---|---|---|---|
| Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru | Mae'r tribiwnlys yn gweithredu o safle a brydlesir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn Llandrindod. Cynhelir gwrandawiadau mewn gwestai ledled Cymru. | 1 Rheolwr Tribiwnlys (Ysgrifennydd)<br>2 Rheolwr Tîm Apeliadau<br>2 Cymorth Tîm | £363,353 (05/06)<br>£345,118 (06/07)<br>£316,960 (07/08)<br>DS – Mae'r ffigur hwn yn cynnwys costau ysgrifenyddiaeth |
| Tribiwnlys Cosbau Traffig | Mae ysgrifenyddiaeth y tribiwnlys a'r swyddogaethau cymorth yn gweithredu o safle ym Manceinion.<br>Gwrandawiadau yn y lleoliadau canlynol yng Nghymru:<br>Caernarfon (Y Galeri)<br>Dinbych (Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych)<br>Llandudno (Gwesty St George)<br>Abertawe (Express by Holiday Inn) | Ni chyfrifir am staff cymorth i Gymru ar wahân.<br>Staff Cymorth Cymru a Lloegr:<br>1 Rheolwr Tribiwnlys<br>1 Rheolwr Apeliadau<br>1 Rheolwr Technoleg<br>1 Swyddog Technoleg<br>1 Swyddog Cyfathrebu<br>1 Swyddog Gwybodaeth<br>4 Cydgysylltydd Apeliadau<br>4 Gweinyddwr Apeliadau<br>1 Ysgrifennydd i'r Prif Ddyfarnwr | Ni chyfrifir am wariant mewn perthynas â Chymru ar wahân.<br>Gwariant Cymru a Lloegr:<br>£2,150,346 (05/06)<br>£2,149,580 (06/07)<br>£2,255,506 (07/08) |
| Tribiwnlysoedd Prisio Cymru | Cydleolir Tribiwnlysoedd Prisio Dwyrain a De Cymru yn yr un safle yn Gold Tops, Casnewydd, ond maent yn gweithredu'n annibynnol ar ei gilydd. Lleolir Tribiwnlys Prisio Gorllewin Cymru yng Nghaerfyrddin, yn eiddo Llywodraeth Cynulliad Cymru. Lleolir Swyddfa Tribiwnlys Prisio Gogledd Cymru yn Llandrillo-yn-Rhos, Bae Colwyn ac mae'n rhan o gyfadail o eiddo'r Llywodraeth[66]. | Mae Gwasanaeth Tribiwnlysoedd Prisio Cymru yn darparu fframwaith cymorth gweinyddol, staff a hyfforddiant i aelodau.<br>Mae'r 20 o staff llawn amser yn cynnwys 4 Clerc Statudol a 7 Swyddog Tribiwnlys | £1.092m (05/06)<br>£1.264m (06/07)<br>£1.01m (07/08) |

66 Caiff lleoliad Tribiwnlys Prisio Gogledd Cymru ei adolygu cyn i Lywodraeth Cynulliad Cymru symud i adeilad newydd arfaethedig sy'n cael ei godi'n benodol i'r Cynulliad yng Nghyffordd Llandudno.

**Gwrandawiadau**

44. Gofynnwyd i'r tribiwnlysoedd yng Nghymru a fu'n rhan o'r arolwg roi gwybodaeth am y canlynol:

- Ai yn gyhoeddus neu'n breifat y cynhelir gwrandawiadau fel arfer;
- A oes gan y tribiwnlys y pŵer i ddyfarnu costau;
- A oes gan y tribiwnlys y pŵer i orfodi ei orchmynion;
- A gyhoeddir penderfyniadau;
- A oes gan y tribiwnlys glerc ac, os felly, rôl y clerc;
- A recordir y gwrandawiad (sain neu drawsgrifiad) ac, os felly, a oes copi ar gael i'r partïon.

Ceir crynodeb o'r ymatebion yn Nhabl 8.

*Preifat neu gyhoeddus*

45. Dywedodd tua hanner y tribiwnlysoedd yn yr arolwg eu bod fel arfer yn cynnal gwrandawiadau yn breifat, yn bennaf y rhai sy'n ymdrin â grwpiau sy'n agored i niwed a/neu faterion sensitif. Mewn rhai achosion, er y cynhelir gwrandawiadau yn breifat fel arfer, mae gan y tribiwnlys ddisgresiwn i benderfynu a gaiff ei gynnal yn gyhoeddus. Er enghraifft, er bod gwrandawiadau gerbron Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru fel arfer yn breifat, gellir newid hyn lle mae claf yn gofyn am i'r gwrandawiad fod yn gyhoeddus a lle mae'r Tribiwnlys yn fodlon y byddai hynny er budd y claf. Cynhelir gwrandawiadau TAAAC yn breifat fel arfer, oni bai bod y ddau barti yn gofyn fel arall a bod y Llywydd yn gorchymyn y dylid cynnal y gwrandawiad yn gyhoeddus[67].

46. O blith y tribiwnlysoedd sydd fel arfer yn cynnal gwrandawiadau'n gyhoeddus, yn aml mae gan y tribiwnlys ddisgresiwn i benderfynu bod y gweithrediadau, neu ran o'r gweithrediadau, yn cael eu cynnal yn breifat. Er enghraifft, caiff gwrandawiadau Panel Dyfarnu Cymru eu cynnal yn gyhoeddus fel arfer ac eithrio pan fo'r tribiwnlys o'r farn y byddai cyhoeddusrwydd yn effeithio ar gyfiawnder, neu lle mae'r atebydd neu'r apelydd yn cytuno y gellir ymdrin â'r honiadau drwy gynrychioliadau ysgrifenedig.

*Costau*

47. Nododd tua hanner y tribiwnlysoedd yn yr arolwg eu bod yn gallu dyfarnu costau. Yn y rhan fwyaf o achosion, dim ond pan fydd person wedi ymddwyn mewn ffordd wacsaw neu flinderus neu lle bu ei ymddygiad yn gwbl afresymol y bydd y pŵer hwn yn arferadwy (Panel Dyfarnu Cymru, Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru, TAAAC a'r Tribiwnlys Cosbau Traffig).

*Gorfodi*

48. Nid oes gan yr un tribiwnlys yn yr arolwg bwerau i orfodi eu gorchmynion. Gellir dweud bod y Paneli Cwynion Gwasanaethau Cymdeithasol Annibynnol a'r Paneli Adolygiad Annibynnol o Ddyfarniadau yn wahanol yn yr ystyr eu bod yn gwneud argymhellion i'r penderfynwyr gwreiddiol, yn hytrach na phenderfyniadau cyfrwymol.



67 Hyd yma, ni fu cais o'r fath.

*Penderfyniadau cyhoeddedig*

49. Mae ychydig dros hanner y tribiwnlysoedd yn cyhoeddi eu penderfyniadau, ac mae'r graddau y mae penderfyniadau ar gael yn fwy cyffredinol yn amrywio'n sylweddol. Er enghraifft, mae Panel Dyfarnu Cymru yn cyhoeddi ei benderfyniadau yn un neu fwy o bapurau newydd sy'n cael eu dosbarthu yn ardal yr awdurdod perthnasol a chyhoeddir copi o'r penderfyniad llawn ar wefan y Panel[68]. Anfonir copïau at bartïon perthnasol hefyd. Anfonir copïau o benderfyniadau Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru at sawl sefydliad, ac maent ar gael gan Ysgrifennydd y tribiwnlys ar gais. Er nad yw TAAAC yn cyhoeddi ei benderfyniadau, mae wrthi'n paratoi crynodeb o benderfyniadau lle mae manylion personol yn anhysbys, crynodeb a fydd ar gael ar wefan y tribiwnlys. Fel arfer nid yw'r tribiwnlysoedd hynny sy'n ymdrin â materion personol sensitif neu grwpiau sy'n agored i niwed yn cyhoeddi eu penderfyniadau.

*Rôl y Clerc*

50. Mae rôl a chymwysterau clerc y tribiwnlys yn amrywio ymhlith tribiwnlysoedd. Mewn rhai tribiwnlysoedd, mae'r clerc yn chwarae rhan weithredol yn y gwaith o gynghori'r tribiwnlys ar, ymhlith pethau arall, bwyntiau cyfreithiol, er enghraifft, Paneli Apêl Derbyniadau Ysgol, Paneli Apêl Gwaharddiadau Ysgol a Thribiwnlysoedd Prisio. Mewn tribiwnlysoedd eraill, mae'r clerc yn gwneud trefniadau gweinyddol ar gyfer y gwrandawiad a/neu mae'n drafftio cofnodion y gweithrediadau, er enghraifft Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru, Paneli Adolygiad Annibynnol o Ddyfarniadau, y Tribiwnlys Eiddo Preswyl, TAAAC a'r Tribiwnlys Cosbau Traffig. Mae Ysgrifennydd Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru yn bresennol ym mhob gwrandawiad ac mae'n ymgymryd â rôl y clerc, gan gynnwys sicrhau y caiff rheolau bioddiogelwch eu dilyn mewn archwiliadau safle.

51. Yn Nhribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru, y clerc yn aml yw'r gweithiwr achos sydd wedi goruchwylio'r gwaith o gasglu adroddiadau a chynnull tystion cyn y gwrandawiad. Ar ddiwrnod y gwrandawiad mae'r clerc yn sicrhau bod lleoliad addas ar gael i'r tribiwnlys ac mae'n cydgysylltu â'r rhai a fydd yn bresennol er mwyn sicrhau bod pawb yno. Y clerc sy'n gyfrifol am gael cofnodion meddygol claf at ddefnydd y tribiwnlys ac am hwyluso'r broses o gydgysylltu rhwng y tribiwnlys a'r ysbyty yn ystod y gwrandawiad. Mae'n sicrhau bod pob ffurflen gywir yn cael ei chwblhau ar ôl y penderfyniad, ac mae'n gyfrifol am drawsysgrifio ffurflenni yn ôl yn y swyddfa ac am ddosbarthu ffurflenni penderfyniadau i'r partïon priodol. Bydd hefyd yn hysbysu Cofnodion Meddygol a/neu ward ysbyty am statws y claf yn dilyn y gwrandawiad a chyn gadael safle'r ysbyty.

52. O ran Panel Dyfarnu Cymru, rôl y clerc yw sicrhau bod gwrandawiad y tribiwnlys yn mynd rhagddo'n ddidrafferth a chynghori'r tribiwnlys ar faterion gweithdrefnol. Nid yw'r clerc yn gymwysedig yn gyfreithiol ac felly ni all gynghori'r tribiwnlys ynglŷn â phwyntiau cyfreithiol. Mae'r clerc hefyd yn gweinyddu'r broses o dyngu llw/gwneud datganiad ac yn cofnodi gweithrediadau'r tribiwnlys. Mae'r clerc yn aelod o Uned Gymorth y Panel Dyfarnu yn Llywodraeth y Cynulliad.

68 Lle mae Panel yn gwrando ar dystiolaeth yn breifat, gellir diwygio testun adroddiad ysgrifenedig y penderfyniad er mwyn sicrhau cyfrinachedd.

53. Mae'r clerc yn chwarae rhan weithredol mewn Paneli Apêl Derbyniadau Ysgol, ac yn gwneud y trefniadau gweinyddol angenrheidiol ar gyfer gwrandawiadau, yn esbonio'r gweithdrefnau sylfaenol i apelyddion, ac yn sicrhau bod y ffeithiau perthnasol, fel y'u rhoddwyd gan yr apelydd a'r awdurdod derbyn, yn cael eu cyflwyno a'u cofnodi yn y gwrandawiad. Mae'r clerc hefyd yn ffynhonnell annibynnol o gyngor ar y weithdrefn, y Codau a'r gyfraith a bydd yn ymyrryd yn dawel i roi cymorth i'r panel ar y weithdrefn, os oes angen. Mae cyfrifoldebau eraill yn cynnwys cofnodi gweithrediadau, presenoldeb, penderfyniadau, canlyniadau pleidleisiau a rhesymau a hysbysu pob parti o benderfyniad y panel yn ysgrifenedig.

*Recordio gwrandawiadau*

54. Nododd nifer o dribiwnlysoedd eu bod yn gwneud tâp sain neu drawsgrifiad o'r gwrandawiad. Recordir gwrandawiadau'r Panel Dyfarnu (sain) ac mae copi o'r recordiad ar gael ar gais. Nid yw trawsgrifiadau ar gael fel mater o reol, ond byddai cais am drawsgrifiad at ddibenion apêl i'r Uchel Lys yn cael ei ystyried gyda chydymdeimlad. Gwneir trawsgrifiad o wrandawiadau Paneli Adolygiad Annibynnol o Ddyfarniadau. Recordir gwrandawiadau'r Tribiwnlys Cosbau Traffig, ond rhyddheir recordiad yn amodol ar gytundeb y Dyfarnwr ac, oni bai bod yr angen yn gysylltiedig â mater anabledd, mae ar gael am gost gwneud y trawsgrifiad. Gwneir tapiau sain o wrandawiadau TAAAC a rhoddir copi i bartïon ar gais.

**Tabl 8: Trefniadau gwrandawiadau tribiwnlysoedd**

| Tribiwnlys | Cyfyngiadau ar gynrychiolaeth gyfreithiol? | Cymorth cyfreithiol ar gael? | Gwrandawiadau cyhoeddus neu breifat fel arfer? | Pŵer i ddyfarnu costau? | Pŵer i orfodi gorchmynion? | Cyhoeddwyd penderfyniadau? | Cymorth clerc? |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Panel Dyfarnu Cymru | Na | Na | Cyhoeddus | Ie | Na | Ie | Ie |
| Tribiwnlys Tir Amaethyddol (Cymru) | Na | Na | Cyhoeddus | Ie | Na | Ie | Ie |
| Paneli Adolygiad Annibynnol o Ddyfarniadau | Na | Na | Preifat | Ie | Na | Na | Ie |
| Paneli Cwynion Gwasanaethau Cymdeithasol Annibynnol | Na | Na | Preifat | Na | Na | Na | Na |
| Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru | Na | Ie | Preifat | Na | Na | Na | Ie |
| Y Tribiwnlys Eiddo Preswyl | Na | Na | Cyhoeddus | Ie | Na | Ie | Ie |
| Paneli Apêl Derbyniadau Ysgol | Na | Na | Preifat[69] | Na | Na | Na | Ie |
| Paneli Apêl Gwaharddiadau Ysgol | Na | Na | Preifat | Na | Na | Na | Ie |
| Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru | Ie | Na | Preifat | Ie | Na | Na | Ie |
| Tribiwnlys Cosbau Traffig | Na | Na | Cyhoeddus | Ie | Na | Penderfyniadau pwysig yn unig | Ie |
| Tribiwnlysoedd Prisio Cymru | Na | Na | Cyhoeddus | Na | Na | Ie | Ie |

69 Oni chânt eu grwpio ar gyfer gwrandawiadau lluosog.

**Apeliadau**

55. Mae nifer o lwybrau gwahanol i apelio yn erbyn penderfyniadau tribiwnlysoedd, fel y nodwyd yn Nhabl 9 isod. O ran tribiwnlysoedd trawsffiniol sy'n gweithredu yng Nghymru, sydd wedi ymuno â'r system dribiwnlysoedd dwy haen newydd, rhaid apelio i'r Uwch Dribiwnlys, gyda chaniatâd, ar bwynt cyfreithiol erbyn hyn. Sefydlwyd canolfan gwrandawiadau Uwch Dribiwnlys a chyfleusterau gweinyddol yng Nghaerdydd ochr yn ochr â chyfleusterau'r Llys Gweinyddol, i ymdrin â'r apeliadau hyn. Mae lle hefyd i gynnal gwrandawiadau mewn nifer o leoliadau gwahanol ledled Cymru er hwylustod y partïon.

56. Fel rhan o'r arolwg, gofynnwyd i'r tribiwnlysoedd a oes hawl i apelio yn erbyn eu penderfyniadau, boed ar sail y ffeithiau neu bwynt cyfreithiol, ac os felly, i ba le y gellid apelio? Mae hawl i apelio i'r Uwch Dribiwnlys yn erbyn penderfyniadau rhai tribiwnlysoedd yng Nghymru, er eu bod y tu hwnt i'r broses o ddiwygio tribiwnlysoedd – TAAAC, Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru[70] i'r Siambr Apeliadau Gweinyddol a rhai o awdurdodaethau'r Tribiwnlys Prisio i'r Siambr Tiroedd. Ceir cymysgedd o hawliau i apelio yn erbyn penderfyniadau tribiwnlysoedd eraill yng Nghymru. Mewn rhai achosion, nid oes hawl i apelio ar wahân i wneud cais am adolygiad barnwrol (Panel Dyfarnu Cymru wrth iddo weithredu fel tribiwnlys apêl, Paneli Apêl Gwaharddiadau Ysgol a'r Tribiwnlys Cosbau Traffig). Mewn achosion eraill, apelir i'r Uchel Lys.

70 Deddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007, a32. Pan gaiff hawl newydd i apelio i'r Uwch Dribiwnlys ei chreu yn Lloegr mewn perthynas â thribiwnlys sy'n ymuno â'r Tribiwnlys Haen Gyntaf, bydd apeliadau o'r Tribiwnlys cyfatebol yng Nghymru hefyd fel arfer yn mynd i'r Uwch Dribiwnlys.

**Tabl 9: Apeliadau tribiwnlysoedd**

| Tribiwnlys | Apêl? | Ar sail ffeithiau, pwynt cyfreithiol? | I ble? |
|---|---|---|---|
| Panel Dyfarnu Cymru | Tribiwnlysoedd achos a thribiwnlysoedd achos interim, ie<br><br>Tribiwnlys apêl, na | Y ddau | I'r Uchel Lys |
| Tribiwnlys Tir Amaethyddol (Cymru) | Ie | Pwynt cyfreithiol | I'r Uchel Lys |
| Paneli Adolygiad Annibynnol o Ddyfarniadau[71] | Na | – | – |
| Paneli Cwynion Gwasanaethau Cymdeithasol Annibynnol[72] | Na | – | – |
| Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru | Ie | Pwynt cyfreithiol | Gyda chaniatâd, i Siambr Apeliadau Gweinyddol yr Uwch Dribiwnlys |
| Y Tribiwnlys Eiddo Preswyl | Ie | Hawl gyffredinol i apelio | I'r Uchel Lys |
| Paneli Apêl Derbyniadau Ysgol | Na | – | – |
| Paneli Apêl Gwaharddiadau Ysgol | Na | – | – |
| Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru | Ie | Pwynt cyfreithiol | Gyda chaniatâd, i Siambr Apeliadau Gweinyddol yr Uwch Dribiwnlys |
| Tribiwnlys Cosbau Traffig | Na | – | – |
| Tribiwnlysoedd Prisio Cymru | Apeliadau ardrethi, ie<br><br>Apeliadau Treth Gyngor, ie | Hawl gyffredinol i apelio<br><br>Pwynt cyfreithiol | Gyda chaniatâd, i Siambr Tiroedd yr Uwch Dribiwnlys<br><br>I'r Uchel Lys |

71 Nid yw'r paneli hyn yn gwneud penderfyniadau cyfrwymol.

72 Nid yw'r paneli hyn yn gwneud penderfyniadau cyfrwymol.

## Adroddiadau Blynyddol

57. Nododd pedwar o'r tribiwnlysoedd yng Nghymru yn yr arolwg eu bod yn paratoi adroddiadau blynyddol, a gyhoeddir ar ffurf copi caled ac ar eu gwefannau, a'u hanfon at Weinidogion perthnasol a rhanddeiliaid eraill (TAAAC, Panel Dyfarnu Cymru, Tribiwnlysoedd Prisio Cymru, Tribiwnlys Cosbau Traffig). Fodd bynnag, nododd y rhan fwyaf o'r tribiwnlysoedd nad ydynt yn cyhoeddi adroddiadau blynyddol: Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru; Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru; Paneli Cwynion Gwasanaethau Cymdeithasol Annibynnol; Paneli Adolygiad Annibynnol o Ddyfarniadau; Paneli Apêl Gwaharddiadau Ysgol; Paneli Apêl Derbyniadau Ysgol a'r Tribiwnlys Eiddo Preswyl.

## Cynrychiolaeth a Chymorth Cyfreithiol

58. Ac eithrio TAAAC, dywedodd pob tribiwnlys nad oes unrhyw gyfyngiadau ar y partïon o ran gofyn am gael cynrychiolaeth gyfreithiol neu fath arall o gynrychiolaeth. Yn achos TAAAC, mae cyfyngiad un cynrychiolydd fesul parti, a all fod yn gymwys yn gyfreithiol neu fel arall, oni fydd y Llywydd neu'r tribiwnlys yn rhoi caniatâd i'r AALl gael ei gynrychioli gan fwy nag un person.

59. Yr unig dribiwnlys yng Nghymru lle mae cymorth cyfreithiol ar gael am gynrychiolaeth i'r ceisydd yw Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru. Fodd bynnag, mewn rhai achosion gall cyngor a chymorth cyfreithiol fod ar gael i helpu gyda'r gwaith o baratoi ar gyfer y gwrandawiad, er enghraifft, yn TAAAC. Er nad yw cymorth cyfreithiol ar gael i'r rhai sy'n ymddangos gerbron Panel Dyfarnu Cymru, mae gan awdurdodau lleol bwerau o dan 'Orchymyn Awdurdodau Lleol (Indemniadau ar gyfer Aelodau a Swyddogion) (Cymru) 2006' i roi indemniad neu yswiriant i aelodau. Gall darpariaeth o'r fath, ymhlith pethau eraill, gael ei gwneud mewn perthynas â gweithrediadau camymddwyn yn erbyn aelod o dan Ran III o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000. Mae'n rhaid i aelod ad-dalu unrhyw symiau a wariwyd i'r awdurdod neu'r yswiriwr lle penderfynwyd bod cod ymddygiad wedi cael ei dorri a lle cymerir camau disgyblu yn erbyn yr aelod dan sylw.

**Gwybodaeth i Ddefnyddwyr**

60. Holwyd tribiwnlysoedd ynglŷn â'r wybodaeth a ddarperir i ddefnyddwyr ganddynt a chyflwynir y canlyniadau yn Nhabl 10. Mae gan lai na hanner y tribiwnlysoedd yn yr arolwg wefannau cynhwysfawr (TAAAC, Panel Dyfarnu Cymru, Tribiwnlys Cosbau Traffig a Thribiwnlysoedd Prisio Cymru). Mae'r wybodaeth sydd ar gael i ddefnyddwyr a'r modd y caiff ei chyflwyno ar y gwefannau hyn yn wahanol ar gyfer pob tribiwnlys. Dim ond gwefan sefydlog sydd gan Dribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru, sy'n rhoi manylion cyfeiriad post a rhifau ffôn y tribiwnlys.

61. Mae'n bosibl dod o hyd i wybodaeth am Baneli Apêl Derbyniadau Ysgol ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru. Ceir gwybodaeth am apeliadau yn erbyn gwaharddiad ar wefan y Ganolfan Gynghori ar Addysg, sef sefydliad a ariennir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i roi cyngor i rieni a phlant a phobl ifanc ar waharddiadau. Mae gwefan Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cynnwys ychydig o wybodaeth sylfaenol am y Paneli Cwynion Gwasanaethau Cymdeithasol Annibynnol, ond gwybodaeth gyfyngedig iawn am Baneli Adolygiad Annibynnol o Ddyfarniadau. Nid oes gan Dribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru wefan, ond mae peth gwybodaeth ar gael ar wefan Gwasanaeth Tribiwnlys Eiddo Preswyl Lloegr.

62. Dim ond TAAAC sydd â llinell gymorth benodol i ddefnyddwyr. Nododd nifer o dribiwnlysoedd eraill y gall unrhyw un sy'n gofyn am gymorth neu wybodaeth ffonio llinell gymorth y tribiwnlys a chaiff gymorth gan aelod o staff (Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru, Panel Dyfarnu Cymru, Tribiwnlysoedd Prisio Cymru). Mae'r Tribiwnlys Cosbau Traffig yn rhoi manylion cyswllt Swyddog Cyswllt i apelyddion y gallant anfon eu hymholiadau atynt.

63. Nododd y rhan fwyaf o'r tribiwnlysoedd fod taflenni a llyfrynnau ar gael i helpu defnyddwyr tribiwnlysoedd. Fodd bynnag, mae'r math o wybodaeth, y ffordd y caiff ei chyflwyno, a'r ffordd y caiff ei darparu i'r defnyddiwr yn amrywio. Mae TAAAC yn paratoi llyfryn a ffurflen apêl a llyfryn a ffurflen 'sut i wneud cais'. Mae'r Pwyllgor Asesu Rhenti yn defnyddio llyfrynnau a baratoir gan Wasanaeth Tribiwnlys Eiddo Preswyl Lloegr neu gan LEASE. Mae'r Tribiwnlys Tir Amaethyddol yn paratoi canllawiau ac mae gan y Tribiwnlys Cosbau Traffig daflen sy'n esbonio sut i apelio ar-lein. Dylai llyfrynnau gwybodaeth i rieni fod ar gael gan bob Awdurdod Lleol ar gyfer Paneli Apêl Derbyniadau Ysgol.

**Tabl 10: Gwybodaeth tribiwnlysoedd i ddefnyddwyr**

| Tribiwnlys | Gwefan | Llinell gymorth | Taflenni |
|---|---|---|---|
| Panel Dyfarnu Cymru | Ie | Dim llinell benodol | Ie |
| Tribiwnlys Tir Amaethyddol (Cymru) | Gwybodaeth ar gael ar wefannau Llywodraeth Cynulliad Cymru a DEFRA | Dim llinell benodol | Ie |
| Paneli Adolygiad Annibynnol o Ddyfarniadau | Na | Na | Ie |
| Paneli Cwynion Gwasanaethau Cymdeithasol Annibynnol | Na | Na | Ie |
| Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru | Ie, ond cyfyngedig | Dim llinell benodol | Ie |
| Y Tribiwnlys Eiddo Preswyl | Na | Na | Na |
| Paneli Apêl Derbyniadau Ysgol | Dim gwefan benodol, ond mae peth gwybodaeth ar gael ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru a gwefannau Awdurdodau Lleol | – | Ie |
| Paneli Apêl Gwaharddiadau Ysgol | – | – | – |
| Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru | Ie | Ie | Ie |
| Tribiwnlys Cosbau Traffig | Ie | Na | Ie |
| Tribiwnlysoedd Prisio Cymru | Ie | Na | Ie |

### Yr Iaith Gymraeg

64. Gofynnwyd i'r tribiwnlysoedd:

- A ydynt yn gweithredu o dan bolisi neu gynllun iaith Gymraeg;
- Faint o apeliadau a gyflwynwyd yn Gymraeg dros y tair blynedd diwethaf;
- Faint o wrandawiadau a gynhaliwyd yn Gymraeg dros y tair blynedd diwethaf;
- Faint o aelodau tribiwnlysoedd a barnwyr sy'n siarad Cymraeg.

Cyflwynir yr ymatebion yn Nhabl 11 isod. Ymddengys bod y rhan fwyaf o dribiwnlysoedd yn gallu ymdrin ag apeliadau drwy gyfrwng y Gymraeg (rhai yn well nag eraill), er nad oes galw mawr am wasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg.

**Tabl 11: Yr iaith Gymraeg mewn tribiwnlysoedd**

| Tribiwnlys | Polisi neu gynllun iaith Gymraeg? | Nifer yr apeliadau a gyflwynwyd yn Gymraeg | Nifer y gwrandawiadau yn Gymraeg | Nifer yr aelodau tribiwnlysoedd sy'n siarad Cymraeg |
|---|---|---|---|---|
| Panel Dyfarnu Cymru | Ie, yn cymhwyso Cynllun Iaith Gymraeg Llywodraeth Cynulliad Cymru | Dim | Dim* | Llywydd, aelodau cyfreithiol ac un aelod lleyg |
| Tribiwnlys Tir Amaethyddol (Cymru) | Cyfieithu ar y pryd ar gael | Dim | Dim | Nid yw'r Cadeirydd/ Dirprwy Gadeirydd nac aelodau sy'n dirfeddianwyr yn siarad Cymraeg. 8 aelod sy'n ffermwr a 2 aelod draenio sy'n siarad Cymraeg. |
| Paneli Adolygiad Annibynnol o Ddyfarniadau | Ie | Dim | Dim | Anhysbys |

* *Cadarnheir dewis iaith y rhai sy'n cymryd rhan mewn tribiwnlys ymlaen llaw. Er nad yw'r un tribiwnlys wedi cael ei gynnal yn gyfan gwbl yn Gymraeg, mae nifer wedi rhoi tystiolaeth yn Gymraeg. Cyfieithu ar y pryd ar gael.*

| Tribiwnlys | Polisi neu gynllun iaith Gymraeg? | Nifer yr apeliadau a gyflwynwyd yn Gymraeg | Nifer y gwrandawiadau yn Gymraeg | Nifer yr aelodau tribiwnlysoedd sy'n siarad Cymraeg |
|---|---|---|---|---|
| Paneli Cwynion Gwasanaethau Cymdeithasol Annibynnol | Polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru | 2 | 1 | 6 |
| Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru | Ie | Dim cofnod ffurfiol, ond nid mwy na 2 neu 3 yn ystod y tair blynedd diwethaf | Dim cofnod ffurfiol, ond tua 4 yn ystod y 3 blynedd diwethaf | Tua 10, gan gynnwys 7 o aelodau cyfreithiol ac o leiaf 2 farnwr |
| Y Tribiwnlys Eiddo Preswyl | Ie | Ychydig | Dim | Ychydig |
| Paneli Apêl Derbyniadau Ysgol | Mae awdurdodau lleol yn rhwym wrth eu cynlluniau Iaith Gymraeg eu hunain | – | – | – |
| Paneli Apêl Gwaharddiadau Ysgol | Mae awdurdodau lleol yn rhwym wrth eu cynlluniau Iaith Gymraeg eu hunain | – | – | – |
| Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru | Ie, Cynllun Iaith Gymraeg | O dan 10 yn ystod y tair blynedd diwethaf | O dan 10 yn ystod y tair blynedd diwethaf | Llywydd<br>2 Gadeirydd<br>3 aelod o'r tribiwnlys |
| Tribiwnlys Cosbau Traffig | Mae ffurflenni a thaflenni yn Gymraeg ac mae'r tribiwnlys wrthi'n cyfieithu'r wefan | Llai na 10 | Llai na 10 | 3 |
| Tribiwnlysoedd Prisio Cymru | Ie | Llai na 3% | Llai nag 1% | 45 |

**Ymgysylltu â Defnyddwyr**

65. Fel rhan o'r arolwg, gofynnwyd i'r tribiwnlysoedd:

- Sut mae'r tribiwnlys yn rhyngweithio â defnyddwyr tribiwnlys (gan gynnwys ceisyddion, adrannau'r llywodraeth, cynrychiolwyr cyfreithiol a chynrychiolwyr eraill ac ati);
- A oes grŵp defnyddwyr tribiwnlys ac, os felly, pa gymorth a roddir i'r grŵp hwn, a pha swyddogaeth y mae'n ei chyflawni;
- A yw'r tribiwnlys yn cyfarfod â thribiwnlysoedd mewn gweinyddiaethau datganoledig eraill.

66. Ymatebodd TAAAC fod partïon yn cael eu gwahodd, ar ôl yr achos, i gwblhau ffurflen boddhad. Nododd Panel Dyfarnu Cymru fod Llywydd y Panel mewn cysylltiad rheolaidd â rhanddeiliaid a sefydliadau priodol eraill, gan gynnwys Llywodraeth Cynulliad Cymru, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, swyddogion monitro awdurdodau lleol, yr AJTC a'i Bwyllgorau yng Nghymru a'r Alban a Phanel Dyfarnu Lloegr. Mae cyswllt ag aelodau awdurdodau lleol yn tueddu i ddigwydd wrth ddarparu o ran ymateb i geisiadau am wybodaeth a chynnal gwrandawiadau tribiwnlysoedd.

67. Mae'r Tribiwnlys Cosbau Traffig yn cynnal diwrnodau sefydlu gydag awdurdodau lleol newydd i'w helpu i ddeall y tribiwnlys a'i weithdrefnau'n well. Mae'r tribiwnlys yn cynnal gwerthusiad mewnol o fentrau newydd ac yn comisiynu ymchwil annibynnol o bryd i'w gilydd; er enghraifft, cynhaliodd Prifysgol Birmingham arolwg o ddefnyddwyr i'r tribiwnlys. Mae Cadeirydd Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru yn aelod o nifer o bwyllgorau a chyrff lle mae cynrychiolwyr sy'n ddefnyddwyr a grwpiau rhanddeiliaid eraill yn cyfarfod. Nododd y tribiwnlysoedd eraill yn yr arolwg nad oes unrhyw ryngweithio ffurfiol â defnyddwyr tribiwnlysoedd.

68. Dim ond TAAAC a'r Tribiwnlys Cosbau Traffig sy'n gweithredu grwpiau defnyddwyr tribiwnlysoedd. Nododd TAAAC fod cyfarfodydd grŵp defnyddwyr strwythuredig rheolaidd yn cael eu cynnal ddwywaith y flwyddyn mewn lleoliadau rhanbarthol yng Nghymru. Mae'r Tribiwnlys Cosbau Traffig yn cynnal grwpiau defnyddwyr sy'n apelyddion gyda chynrychiolwyr o sefydliadau moduro, cynghori ac anabledd ac eraill o leiaf unwaith y flwyddyn. Mae hefyd yn cynnal cyfarfodydd grwpiau defnyddwyr gydag awdurdodau lleol unwaith y flwyddyn a gwahoddir swyddogion gweithredu a chyfreithiol iddynt. Er nad oes grŵp defnyddwyr penodol i Dribiwnlysoedd Prisio Cymru, mae cynrychiolwyr yn cymryd rhan yn Fforwm Talwyr Ardrethi Asiantaeth y Swyddfa Brisio. Yn ddiweddar, mae'r Panel Cwynion Gwasanaethau Cymdeithasol Annibynnol wedi cynnwys defnyddwyr mewn adolygiad annibynnol o'i broses gwyno.

69. Mae'r graddau y mae tribiwnlysoedd yng Nghymru yn rhyngweithio â thribiwnlysoedd yn Lloegr a'r Alban yn amrywio. Mae TAAAC yn cymryd rhan mewn cyfarfod blynyddol i lywyddion ac ysgrifenyddion gyda'r tribiwnlysoedd cyfatebol yn yr Alban, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Mae Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru yn cymryd rhan, ar sail anffurfiol, mewn grŵp i Lywyddion a drefnir gan un o gynrychiolwyr y Tribiwnlys Haen Gyntaf sy'n cyfarfod ar sail *ad hoc*. Yn aml ceir rhwydweithio mewn cynadleddau a digwyddiadau eraill. Nododd Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru fod cyfarfod blynyddol o Gadeiryddion ac Ysgrifenyddion Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru a Thribiwnlys Tir Amaethyddol Lloegr a bod cynadleddau blynyddol yr AJTC yn gyfle i rwydweithio â swyddogion cyfatebol yn Lloegr. Nododd Tribiwnlysoedd Prisio Cymru eu bod yn cael llai o gyswllt â Thribiwnlysoedd Prisio Lloegr na chynt, ac eithrio mewn digwyddiadau megis cynhadledd yr AJTC. Mae Prif Ddyfarnwr y Tribiwnlys Cosbau Traffig wedi cyfarfod â thribiwnlysoedd traffig a pharcio eraill. Nid yw Panel Dyfarnu Cymru yn cyfarfod â'r panel cyfatebol yn Lloegr a'r Alban, ond yn y gorffennol mae aelodau wedi mynychu sesiynau hyfforddi ar y cyd.

**Cwynion**

70. Gofynnwyd i dribiwnlysoedd a oedd ganddynt bolisi cwyno, a oeddent yn cadw cofnod o gwynion, ac os felly, faint o gwynion a wnaed yn ystod y tair blynedd diwethaf. Ceir crynodeb o'r ymatebion yn Nhabl 12. Mae polisi cwyno TAAAC ar gael i'r cyhoedd ar gais ac ar ei wefan, felly hefyd bolisi'r Tribiwnlys Cosbau Traffig.

**Tabl 12: Polisïau cwyno tribiwnlysoedd**

| Tribiwnlys | Polisi Cwyno? | Cofnodi cwynion? | Faint o gwynion dros y tair blynedd diwethaf? |
|---|---|---|---|
| Panel Dyfarnu Cymru | Ie | Ie | 0 (2005/06)<br>1 (2006/07)<br>0 (2007/08) |
| Tribiwnlys Tir Amaethyddol (Cymru) | Ie | Ie | Dim |
| Paneli Adolygiad Annibynnol o Ddyfarniadau | Na | Ie | Dim |
| Paneli Cwynion Gwasanaethau Cymdeithasol Annibynnol | Na | Anffurfiol yn unig | 8 (2006/07)<br>5 (2007/08) |
| Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru | Ie | Ie | Dim mwy nag un y flwyddyn |
| Y Tribiwnlys Eiddo Preswyl | Na | Na | 1 gŵyn yn ystod y tair blynedd diwethaf |
| Paneli Apêl Derbyniadau Ysgol | – | – | – |
| Paneli Apêl Gwaharddiadau Ysgol | – | – | – |
| Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru | Ie | Ie | 1 (2005/06)<br>4 (2006/07, 3 gan yr un parti ynglŷn â'r un mater)<br>0 (2007/08) |
| Tribiwnlys Cosbau Traffig | Ie | Ie | 1 (2006)<br>0 (2007)<br>1 (2008) |
| Tribiwnlysoedd Prisio Cymru | Ie | Ie | 3 (2005/06, Gorllewin Cymru)<br>4 (2006/07, 1 Dwyrain Cymru a 3 Gorllewin Cymru)<br>2 (2007/08, 1 Dwyrain Cymru, 1 Gorllewin Cymru) |

**Cysylltiadau â'r Ombwdsmon**

71. Roedd gan rai o'r tribiwnlysoedd yn yr arolwg gysylltiadau amlwg iawn ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ('yr Ombwdsmon'). O ran Panel Dyfarnu Cymru, yr Ombwdsmon yw'r pwynt cyswllt cyntaf mewn achosion o gamymddwyn. Caiff unrhyw un gyflwyno honiad i'r Ombwdsmon fod aelod o awdurdod lleol wedi methu â chydymffurfio â chod ymddygiad ei awdurdod. Yr Ombwdsmon sy'n penderfynu a ddylid ymchwilio i'r honiad ac a ddylai ymchwiliad o'r fath gael ei gynnal gan ei swyddfa neu'r swyddog monitro lleol perthnasol. Pan fydd yr Ombwdsmon yn cynnal ymchwiliad, gall anfon ei adroddiad i'r pwyllgor safonau lleol neu, mewn achosion mwy difrifol yn gyffredinol, i'r Panel Dyfarnu. Un o swyddogaethau'r Panel Dyfarnu yw ffurfio tribiwnlysoedd i ystyried adroddiadau gan yr Ombwdsmon a phenderfynu a gafodd y cod ymddygiad ei dorri.

72. Mae'r Ombwdsmon hefyd yn rhan annatod o'r broses o ymchwilio i gwynion am wasanaethau cymdeithasol. Ar ôl cwblhau Cam 2 o'r weithdrefn statudol, gall achwynwyr barhau â'u cwyn ar Gam 3: y Panel Cwynion Gwasanaethau Cymdeithasol Annibynnol (gyda'r hawl i fynd i'r Ombwdsmon wedyn) neu'n uniongyrchol i'r Ombwdsmon.

73. O ran Paneli Apêl Derbyniadau a Gwaharddiadau Ysgol, gall rhiant neu ddisgybl wneud cwyn i'r Ombwdsmon ar sail camweinyddu gan y panel apêl. Mae gan yr Ombwdsmon y pŵer i wneud argymhellion, ond dim pwerau i gyfarwyddo codi gwaharddiad neu orchymyn gwrandawiad apêl newydd, er y gellid argymell gwrandawiad apêl newydd. Yr AALl sy'n penderfynu a ddylid derbyn argymhelliad yr Ombwdsmon, er y disgwylid iddo gydymffurfio fel arfer.

74. Yn yr un modd, gall yr Ombwdsmon ymchwilio i gwynion am gamweinyddu yn erbyn Gwasanaeth Tribiwnlysoedd Prisio Cymru. Dim ond gweinyddu apeliadau a wna'r awdurdodaeth ac nid yw'n ymestyn i swyddogaeth gwneud penderfyniadau barnwrol.

75. Nododd tribiwnlysoedd eraill nad oedd ganddynt gysylltiadau â'r Ombwdsmon. Er enghraifft, nid oes gan yr Ombwdsmon awdurdodaeth dros gleifion a gedwir yn gaeth, ac felly nid oes ganddo gysylltiadau â Thribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru.